# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

17/05/22

**Annwyl Syr / Fadam**

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG yn Siambr y Cyngor, Penmorfa ac o bell trwy fideo-gynhedledda, ar Ddydd Mercher, 25 Mai 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

**NODER: Oherwydd COVID-19 a iechyd a diogelwch Cynghorwyr a staff, ni all aelodau'r cyhoedd na'r wasg fynychu'r cyfarfod wyneb i wyneb. Anfonwch e-bost at democratiaeth@ceredigion.gov.uk i ofyn am ddolen i weld y cyfarfod.**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Materion Personol**

**3. Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd 17 Ionawr 2022 (Tudalennau 3 - 14)**

**5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd 07 Chwefror 2022 (Tudalennau 15 - 16)**

**6. Materion yn Codi**

**7. Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2021/22 (Tudalennau 17 - 76)**

**8. Cynllunio olyniaeth-aelod lleyg (Tudalennau 77 - 84)**

**9. Diweddariad recriwtio Cynghorwyr Cyngor Tref/Cymuned (Tudalennau 85 - 92)**

**10. Penderfyniadau Cod Ymddygiad gan yr Ombwdsmon (Tudalennau 93 - 112)**

**11. Materion y Cod Ymddygiad-Diweddariad ar erthyglau'r wasg**

**12. Tueddiadau'r Cwynion am Gynghorwyr - 2021 (Tudalennau 113 - 114)**

13. Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â Chwynion a gyfeirir at Y Pwyllgor Moeseg a Safonau a chynnal gwrandawiadau (Tudalennau 115 - 130)

14. Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru

15. Y diweddaraf am fater yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

16. Hyfforddiant

17. Blaenraglen Waith (Tudalennau 131 - 134)

18. Ystyried unrhyw gais arall am ollyngiad a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r agenda

19. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Safonau a Moeseg
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU**
a gynhaliwyd o bell trwy gynhadledd fideo ddydd Gwener, 17 Ionawr 2022

**YN BRESENNOL:**
Mrs Caroline White (Cadeirydd), Mr Alan Davies, Mrs Caryl Davies a Ms Carol Edwards (Aelodau Annibynnol);
Y Cynghorydd Odwyn Davies a'r Cynghorydd Dai Mason (Aelodau Etholedig)
Y Cynghorydd Julian Evans a Gill Hopley (cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned)

**HEFYD YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd Ellen ap Gwyn, Ceredig Davies, Ray Quant, Dan Potter a Rowland Rees-Evans

**YN BRESENNOL**:
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog Democrataidd a Safonau)

(10:00am-12:20pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Mr John Weston am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
Ymddiheurodd y Cynghorydd Dafydd Edwards am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod yn ymwneud ag eitem 5).

**2 Materion Personol**

Dim.

**3 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Datganodd Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 7 (a), (b), ac (c), a gadawodd y cyfarfod tra oedd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried. Cymerodd Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau, y cofnodion tra oedd y ceisiadau hynny yn cael eu hystyried.

Datganodd y Cynghorydd Gill Hopley fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 7 (a), (b) ac (c) a gadawodd y cyfarfod tra oedd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried.

Datganodd y Cynghorydd Julian Evans fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 7 (a), (b) ac (c) a gadawodd y cyfarfod tra oedd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried.

Datganodd y Cynghorydd Dai Mason fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 7 (d) ac (e) a gadawodd y cyfarfod tra oedd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried.

Datganodd y Cynghorydd Odwyn Davies fuddiant personol a buddiant sy’n rhagfarnu yn eitem 7 (d) ac (e) a gadawodd y cyfarfod tra oedd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried.

**4 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021 yn gywir yn amodol ar y canlynol:-

(i) diwygio enw’r diweddar Anne Winfield i ‘Ann’ yng nghofnod 13(i)
(ii) diwygio Cofnod 20, y byddai hyfforddiant dwyieithog yn cael ei ddarparu rhwng aelodau’r pwyllgor

**5 Materion sy’n codi**

Cofnod 14 - Adroddwyd y byddai'r adolygiad o’r protocol Datrys Anghydfodau Lleol yn cael ei ddiwygio yn dilyn trafodaeth gyda Swyddogion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan nad oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bellach yn derbyn cwynion ailadroddus neu gwynion lefel isel. Ar ôl ei ddiwygio, byddai Un Llais Cymru yn hysbysu'r Cynghorau Tref a Chymuned yn unol â hynny.

Cofnod 16 – wedi cael ei drafod mewn gweithdy ar 17 Tachwedd 2021.

Cofnod 20 - ni dderbyniwyd adborth ac nid oedd ar ddod.

Cofnod 20 - Roedd y ddau aelod annibynnol newydd wedi derbyn hyfforddiant ar 27 Medi 2021.

Cofnod 21 - Derbyniwyd cynnig gan grŵp Swyddogion Monitro Cymru Gyfan y dylid ymestyn Fforwm Safonau Gogledd Cymru i Fforwm Cymru Gyfan. Cytunodd yr Aelodau â’r cynnig hwn a byddai'r ymateb yn cael ei anfon at y grŵp Swyddogion Monitro yn unol â hynny.

**6 Trafod gydag arweinwyr y pleidiau ddulliau o hybu a chynnal safonau uchel drwy ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion i gynnwys y dyletswyddau sy’n ofynnol o dan Adrannau 62-63 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion ac Arweinydd Grŵp Plaid Cymru), y Cynghorydd Ray Quant (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd y Grŵp Annibynnol) a’r Cynghorydd Ceredig Davies (Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol a’r wrthblaid) i’r cyfarfod i rannu barn ar hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad yng Ngheredigion.

Adroddwyd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi dyletswyddau newydd i arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r pwyllgorau safonau, ac yn cynnwys yr adrannau perthnasol, sef adran 62 ac adran 63.
O ran dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau

ymddygiad, (Adran 52A Deddf Llywodraeth Leol 2000) mae'n datgan bod yn rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir yng Nghymru gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp; a bod yn rhaid iddo gydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor.
Yn adran 54 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), mae gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru hefyd swyddogaethau penodol —
(a) monitro i ba raddau mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1), a
(b) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

Adroddwyd y gwahoddir arweinwyr gwleidyddol Cyngor Sir Ceredigion bob blwyddyn i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i drafod y dulliau o hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion. Adroddwyd ei bod bellach yn angenrheidiol i Arweinwyr Grwpiau ystyried y dyletswyddau ychwanegol arnynt i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp; a sut i gydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor, a sut y gellir dangos hyn. Dywedodd yr arweinwyr gwleidyddol eu bod yn croesawu'r canllawiau hyn, gan eu bod yn gyfeiriad iddynt gadarnhau y cedwir at y safonau.

Pwysleisiodd holl arweinwyr y Cyngor bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor wrth hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad a chroesawyd yr hyfforddiant a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Mai 2022 yn dilyn yr etholiadau ar y Cod Ymddygiad.

Tynnodd yr Arweinwyr sylw hefyd at yr angen i fynd i'r afael â materion ymddygiad mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd yn rhithiol, yn enwedig o ran ymddygiad Aelodau megis ateb y ffôn wrth fynychu'r cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinwyr am fynychu'r cyfarfod.

**7 Ystyried ceisiadau am ollyngiadau gan y Cynghorwyr canlynol:-**

**a Y Cynghorydd Dan Potter, Cyngor Sir Ceredigion**
Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 12 Tachwedd 2021 gan y Cynghorydd Dan Potter i siarad yn unig ar faterion yn ymwneud â'r harbwr ym Mhwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr Ceinewydd a gynhelir cyn ac ar ôl y tymor (mis Mawrth a mis Hydref). Mae'r Cynghorydd Potter yn berchen ar 'New Quay Marine' sef busnes cychod sy'n trwsio cychod yn yr harbwr. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei gyflogi'n flynyddol i gynnal yr ardal nofio fel contractwr ardal Nofio Diogel. Mae hefyd yn prydlesu dwy angorfa gan Gyngor Sir Ceredigion ac yn berchen ar sied y tu allan i orsaf y bad achub a hen orsaf gwyliwr y glannau ym Mharagon. Mae hefyd yn derbyn £40 yr wythnos fel llywiwr cwch gyda Bad Achub Ceinewydd / Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI).

Roedd y Cynghorydd Potter yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais ac atebodd gwestiynau ynghylch ei gais.

Gofynnwyd i’r Cynghorydd Potter adael y gynhadledd fideo er mwyn i’r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Potter i siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi’i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

b **Y Cynghorydd Dan Potter, Cyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 12 Tachwedd 2021 gan y Cynghorydd Dan Potter i siarad a phleidleisio ar faterion yn ymwneud â’r harbwr a’r traeth yng Ngheinewydd. Mae’r Cynghorydd Potter yn berchen ar ‘New Quay Marine’ sef busnes cychod sy’n trwsio cychod yn yr harbwr. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei gyflogi’n flynyddol i gynnal yr ardal nofio fel contractwr ardal Nofio Diogel. Mae hefyd yn prydlesu dwy angorfa wrth Gyngor Sir Ceredigion ac yn berchen ar sied y tu allan i orsaf y bad achub a hen orsaf gwyliwr y glannau ym Mharagon. Mae hefyd yn derbyn £40 yr wythnos fel llywiwr cwch gyda Bad Achub Ceinewydd / Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI).

Roedd y Cynghorydd Potter yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais ac atebodd gwestiynau ynghylch ei gais.

Gofynnwyd i’r Cynghorydd Potter adael y gynhadledd fideo er mwyn i’r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Potter i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi’i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

c **Y Cynghorydd Dan Potter, Cyngor Tref Ceinewydd**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 12 Tachwedd 2021 gan y Cynghorydd Dan Potter i siarad a phleidleisio ar faterion yn ymwneud â’r harbwr a’r traeth yng Ngheinewydd. Mae’r Cynghorydd Potter yn berchen ar ‘New Quay Marine’ sef busnes cychod sy’n trwsio cychod yn yr harbwr. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei gyflogi’n flynyddol i gynnal yr ardal nofio fel contractwr ardal Nofio Diogel. Mae hefyd yn prydlesu dwy angorfa gan Gyngor Sir Ceredigion ac yn berchen ar sied y

tu allan i orsaf y bad achub a hen orsaf gwyliwr y glannau ym Mharagon. Mae hefyd yn derbyn £40 yr wythnos fel llywiwr cwch gyda Bad Achub Ceinewydd / Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI).

Roedd y Cynghorydd Potter yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais ac ateb unrhyw gwestiynau ynghylch ei gais.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Potter adael y gynhadledd fideo er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Potter i siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**d** **Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans, Cyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 18 Rhagfyr 2021 gan y Cynghorydd Rowland Rees-Evans i siarad yn unig yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas ag adroddiad Archwilio Cymru ar Gynllunio. Mae'r Cynghorydd Rowland Rees-Evans yn eistedd ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae nifer o faterion yn adroddiad Archwilio Cymru wedi'u cyfeirio at y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Roedd y Cynghorydd Rees-Evans yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais ac i ateb unrhyw gwestiynau ynghylch ei gais.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Rees-Evans adael y gynhadledd fideo er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Rees-Evans i siarad yn unig ar y sail bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad ar gyfer y cyfarfod a oedd i'w gynnal ar 17/1/22 yn unig.

**e** **Y Cynghorydd Peter Davies MBE, Cyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 10 Ionawr 2022 gan y Cynghorydd Peter Davies MBE i siarad a phleidleisio yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas ag adroddiad Archwilio Cymru ar Gynllunio. Mae'r Cynghorydd Davies yn aelod o Bwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Peter Davies i siarad yn unig ar y sail bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (f)

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad ar gyfer y cyfarfod a oedd i'w gynnal ar 17/1/22 yn unig.

**8 Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021**

Ystyriwyd yr adroddiad ar y Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021. Adroddwyd y datblygwyd y fframwaith hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel canllaw defnyddiol i nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol parhaus ac ar gyfer darparu cymorth a hyfforddiant i aelodau. Mae'n cynnwys ystod o gymwyseddau generig sydd eu hangen ar bob Cynghorydd yn ogystal â chymwyseddau arbenigol sy'n gysylltiedig â rolau penodol ar y Cyngor.

Mae'r cymwyseddau generig yn cynnwys: sgiliau sylfaenol megis deall rôl y Cynghorydd, a'r Awdurdod Lleol, ymddygiad, cydraddoldeb ac amrywiaeth, sgiliau TGCh a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac ati; sgiliau sydd eu hangen ar bob cynghorydd yn eu rolau fel arweinwyr cymunedol megis ymgynghori ac ymgysylltu; gwaith achos ar ran y cyhoedd; partneriaeth a chynrychiolaeth; a gweithio mewn amgylchedd gwleidyddol. Mae cymwyseddau penodol rolau yn cynnwys dealltwriaeth o rôl Craffu, datblygu ac adolygu polisi, dwyn y Weithrediaeth i gyfrif, monitro perfformiad; Sgiliau cadeirio; gwasanaethu ar bwyllgorau statudol / rheoleiddiol; Aelodau Gweithrediaeth; ac Arweinyddiaeth y Cyngor.

Byddai'r fframwaith yn bwydo i'r rhaglen hyfforddi / cynefino ar gyfer Cynghorwyr.

Adrannau perthnasol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at yr hanfodion: Amrywiaeth o sgiliau cyffredinol sydd eu hangen ar yr holl Aelodau.

| Cyf | Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau effeithiol |
|---|---|---|---|
| **A3** | **Ymddygiad** | **Y fframwaith moesegol y mae'n rhaid i Gynghorwyr weithio yn ei ôl.<br>Y Cod Ymddygiad. Rôl y Swyddog Monitro, y Pwyllgor Safonau, y Protocol Datrysiadau Lleol. rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chyfarwyddyd ganddo.** | **Bob amser yn cadw at y Co[d] Ymddygiad. Bob amser yn datgelu ac yn diffinio buddiannau pan fo angen. Yn gofyn am gyngor gan y swyddog monitro pan fo angen.** |
| **A17** | **Gweithio gyda Swyddogion** | **Rôl swyddogion yn gyffredinol a'r 'rheolau' y mae angen iddynt gadw atynt gan gynnwys** | **Yn cynnal perthnasoedd proffesiynol â swyddogion, gan gydnabod ffiniau a chadw at Brotocol yr** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | dealltwriaeth ddyfnach o rôl uwch swyddogion fel y Prif Weithredwr, y Tîm Uwch Reolwyr,<br>y Swyddog<br>Monitro a Phenaethiaid Cyllid, Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd. Sgiliau wrth weithredu fel cyflogwr corfforaethol. Deall y broses benodi a sgiliau cyfweld. | Aelodau a'r Swyddogion. Yn gweithredu fel aelod effeithiol o banel<br>penodi, gan weithredu egwyddorion cadarn o ran Adnoddau Dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth i<br>wneud penodiadau. |
| A3 8 | Disgybla eth Grŵp | Dealltwriaeth o ymddygiadau ac ymddygiad sydd eu hangen gan aelod o'r grŵp | Yn gweithio yn unol â'r safonau ymddygiad sy'n ofynnol gan Arweinydd y Grŵp. |
| B8 | Arweinyd diaeth Pwyllgor | Dealltwriaeth drylwyr o rôl y pwyllgor a'i gwmpas.<br>Y gallu i gysylltu â swyddogion, aelodau ac asiantaethau perthnasol. Ymrwymiad i alluogi holl aelodau'r pwyllgor i ddatblygu sgiliau a chymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd. | Yn hyrwyddo gwaith a gwerth y pwyllgor yn y Cyngor ac i'r<br>cyhoedd. Gweithio gyda'r pwyllgor y tu allan i gyfarfodydd i wneud iddo weithio'n fwy effeithiol. Cyfathrebu ag aelodau a swyddogion sydd â diddordeb yn nhrafodion y pwyllgor. Yn meithrin perthnasoedd â Phenaethiaid/Cyfarwyddwyr perthnasol Gwasanaethau i sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn berthnasol, yn wybodus ac yn rhoi'r canlyniadau sydd eu hangen. |
| B1 6 | Safonau | Y gyfraith a'r cyfansoddiad mewn perthynas ag ymddygiad. Protocolau datrysiadau lleol. Anghenion y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned ar gyfer Hyfforddiant mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad. Ymddygiad aelodau, delio ag | Yn dangos gwrthrychedd trwy wneud penderfyniadau annibynnol yn seiliedig ar dystiolaeth a'r cyfrifoldeb cyfreithiol a roddir ar bwyllgorau sy'n gweithredu mewn rôl led-farnwrol. Yn dryloyw yn cadw at y Cod Ymddygiad. Yn gofyn am |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **adroddiadau gan Arweinwyr Grwpiau ac adroddiadau blynyddol** | **gyngor priodol gan swyddogion proffesiynol, datblygiad personol neu friffio cyn gwneud penderfyniadau.** |

CYTUNWYD nodi'r Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr a sut mae'n berthnasol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

**9 Materion y Cod Ymddygiad - Diweddariad ar erthyglau'r wasg**

CYTUNWYD nodi'r erthyglau diweddar yn y wasg a gyflwynwyd.

**10 Coflyfr Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Rhifyn 25**

CYTUNWYD nodi rhifyn 25 o Goflyfr Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y'i cyflwynwyd.

**11 Penodi Cynghorwyr Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau - Cynllunio ar gyfer Olyniaeth**

Ystyriwyd yr adroddiad a gyflwynwyd ar Benodi Cynghorwyr Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau – Cynllunio ar gyfer Olyniaeth.

CYTUNWYD derbyn y broses arfaethedig ar gyfer dethol Cynghorwyr Tref a Chymuned i fod ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar gyfer y cyfnod gweinyddol rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2027.

**12 Y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a gyfeirir at y pwyllgor moeseg a safonau a chynnal gwrandawiadau**

Ystyriwyd adroddiad ar y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a gyfeirir at y pwyllgor moeseg a safonau a chynnal gwrandawiadau.

Adroddwyd bod yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru (paragraff 1.6) yn argymell y dylai Pwyllgorau Safonau gwblhau hyfforddiant ynghylch sut i gynnal gwrandawiadau er mwyn sicrhau bod yr aelod y cwynir amdano, yr achwynydd ac unrhyw dystion yn cael eu trin mewn ffordd agored a theg. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn derbyn bod angen mwy o atgyfeiriadau at Bwyllgorau Safonau pan fo'n gwrthod ymchwilio i gwynion.

Adolygwyd y ddogfen er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau yn y Rheoliadau (yn 2016) a chymharwyd hefyd â'r gweithdrefnau sydd ar waith mewn awdurdodau eraill er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau presennol y Cyngor yn gyfredol ac yn addas i'w diben.
Cyflwynwyd newidiadau arfaethedig y ddogfen ddiwygiedig i'w hystyried.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD
(i) derbyn y diwygiadau;

(ii) argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen yn amodol ar unrhyw argymhellion neu ddiwygiadau i'r ddogfen yn dilyn ystyriaeth mewn gweithdy a fydd yn cael ei gynnal cyn Etholiadau mis Mai.

**13 Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru**

CYTUNWYD nodi materion Panel Dyfarnu Cymru er gwybodaeth.

**14 Pwyllgor Moeseg a Safonau: Disgrifiadau Rôl a Manylebau Person ar gyfer Aelodau**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl ar gyfer Aelodau Etholedig ar y cyd ag Aelodau a Swyddogion yr Awdurdodau Lleol. Mae'r disgrifiadau hyn sy'n amlinellu cyfrifoldebau a swyddogaethau rôl yr aelod etholedig ar gael fel awgrymiadau yn hytrach na chyfarwyddiadau. Mae gan yr Aelodau Etholedig a lleyg amrywiaeth eang o rolau neu gyfrifoldebau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni ac amcan y disgrifiadau hyn yw cynnig fframwaith a chanllawiau o ran y cyfrifoldebau hyn a'r ystod o weithgareddau y mae'r Aelodau yn ymgymryd â nhw.
Mae'r Canllawiau Atodol i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yn nodi enghreifftiau o "gamau rhesymol" y gallai Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol eu cymryd.

Mae Fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o Ddisgrifiadau Rôl a Manylebau Person ar gyfer Aelodau yn cynnwys y disgrifiadau rôl enghreifftiol ar gyfer rolau amrywiol gan gynnwys:

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
Aelod o'r Pwyllgor Safonau
Arweinydd Grŵp Gwleidyddol - Disgrifiad Rôl a Chanllawiau Atodol

Adroddwyd bod y ddogfen wedi'i hystyried ar y cyd ag Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod Lleol yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 12 Hydref 2021. Dangosir y ddolen yma:

https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s2103/report%20-%20Members%20role%20description.pdf?LLL=0

Adroddwyd y byddai'r ddogfen hefyd yn cael ei hystyried gan y Cyngor a bod y Pwyllgor eisoes wedi ystyried y ddogfen yn ei weithdy ar 17/11/21.

Ar ôl ystyried y cynnwys sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, CYTUNWYD nodi'r adroddiad.

**15 Cynhadledd Safonau Cymru a gynhelir o bell ar 9/2/22**

Adroddwyd y byddai Cynhadledd Safonau Cymru yn cael ei chynnal o bell ar 09 Chwefror 2022 a bod manylion y digwyddiad a'r agenda wedi'u dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor, Cynghorwyr a Chlercod Cyngor Tref a Chymuned. Gan fod y Gynhadledd yn cael ei chynnal o bell nid oes cyfyngiad ar nifer y cynrychiolwyr sy'n gallu mynychu fesul awdurdod.

Roedd yr Aelodau i roi gwybod i'r Swyddog Craffu a Safonau neu'r Swyddog Democrataidd a Safonau erbyn 28 Ionawr pe bai'r Aelodau'n dymuno mynychu'r gynhadledd, ynghyd â dewis iaith.

**16 Hyfforddiant**

- Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y cyrsiau cynefino canlynol yn dilyn yr etholiad:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llun 9 Mai** | **10:00am** | **Elin Prysor** | **HYFFORDDIANT - Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau newydd (2 ½ awr) (gorfodol)** |
| | **2:00pm** | **Elin Prysor** | **HYFFORDDIANT - Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau sy'n dychwelyd (1 ½ awr) (gorfodol)** |
| **Mawrth 24 Mai** | | | |
| | **2:00pm** | **Elin Prysor** | **HYFFORDDIANT – Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau (gorfodol i holl aelodau'r Pwyllgor)** |

- Hysbyswyd yr Aelodau hefyd fod croeso iddynt fynychu unrhyw sesiynau hyfforddi eraill a fyddai'n cael eu darparu ar ôl y weinyddiaeth newydd ym mis Mai 2022 megis Hyfforddiant Llywodraethu ac Archwilio neu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Hefyd; byddai hyfforddiant ar ymddygiad Aelodau yn ystod cyfarfodydd rhithiol hefyd yn cael ei ddarparu gan fod protocol cyfredol ar y mater hwn.
- Byddai hyfforddiant gorfodol i Arweinwyr Grwpiau hefyd yn cael ei gynnal ar 06 Mehefin 2022.
- Adroddwyd hefyd y byddai hyfforddiant ar wrandawiadau hefyd yn cael ei gynnal ym mis Medi 2022.

**17 Unrhyw Fusnes Arall**

(i) Diolchwyd i'r Cynghorwyr a fyddai'n ymddeol o'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y tymor.

(ii) Adroddodd y Swyddog Monitro y cytunwyd ar y canlynol yn y Gweithdy a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd:-

- y byddai'n ddefnyddiol rhoi'r ddolen i wefan yr Ombwdsmon ar dudalen we Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion.
- Holiadur Effeithiolrwydd ar gyfer y Pwyllgor.
- Y Swyddog Monitro i ddarparu adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion, a'u lefel fel eitem safonol ar yr agenda. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei roi ar yr agenda o'r tymor gweinyddu newydd ymlaen.

(iii) roedd angen trafod cyfansoddiad Cyd-bwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru. Cytunwyd mewn egwyddor mai Swyddog Monitro Powys fyddai'r swyddog monitro ar gyfer CBC Canolbarth Cymru. Roedd Cyngor Sir Powys wedi awgrymu y gallai Aelodau Cyd-bwyllgor Safonau CBC Canolbarth Cymru fod o Bowys. Roedd yr Aelodau o'r farn, gan mai cyd-bwyllgor oedd hwn, y dylai ei Aelodau fod o'r ddwy Sir. Byddai e-bost gan y swyddog monitro yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod i ganfod eu barn ar yr aelodaeth.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:________**

**Dyddiad:__________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 5

Cofnodion Cyfarfod o'r **PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU**
a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda
ddydd Llun, 07 Chwefror 2022

**YN BRESENNOL:**
Mrs Caroline White (Cadeirydd) a Mr Alan Davies (Aelodau Annibynnol);
Y Cynghorwyr Julian Evans a Gill Hopley (Cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned)

**HEFYD YN BRESENNOL**:
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau)

(3:00pm-4:00pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Odwyn Davies a Dai Mason ynghyd â Mrs Caryl Davies, Ms Carol Edwards a Mr John Weston am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**2 Materion Personol**

Dim.

**3 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Dim.

**4 Y Cynghorydd Ruth Davies, Cyngor Cymuned Llangoedmor**

Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 31 Ionawr 2022 oddi wrth y Cynghorydd Ruth Davies i siarad a phleidleisio ar gais cynllunio ei chymydog i newid defnydd ei heiddo i fod yn fusnes glampio sef cais cynllunio A211044 ar gyfer 6 pod glampio, toiled a chawodydd a lle parcio cysylltiedig yn The Gardener's Cottage, The Walled Gardens, Llangoedmor, Aberteifi SA43 2LQ.

Roedd y Cynghorydd Davies yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei chais.

Roedd gan yr ymgeisydd fynediad preifat dros ei thir i'w hannedd ond nid hawl i newid defnydd y mynediad ar gyfer y datblygiad newydd arfaethedig . Roedd y trac mynediad eisoes mewn cyflwr gwael oherwydd y defnydd anghyfreithlon o'i garej fel Airbnb hyd at Nadolig 2021 ac yn awr fel annedd ychwanegol. Nid oedd gan y cymdogion hawddfreintiau ychwanegol ar gyfer y mynediad ychwanegol nac ar gyfer y prif gyflenwad dŵr i'r 'annedd' hon na chwaith ar gyfer y cais presennol am yr unedau Glampio a'r toiledau a'r cawodydd a ddarperir. Cyflenwyd y dŵr i eiddo'r cymdogion drwy is-fesurydd o'i fferm hi. Roedd y prif gyflenwad dŵr yn dod i ben dros 900 metr i ffwrdd wrth fferm Cwrcoed. Roedd pwysedd y dŵr eisoes yn isel ac roedd y dŵr a ddefnyddiwyd rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mehefin 2021 eisoes wedi cynyddu gan 25% heb ddim cynnydd yn y defnydd amaethyddol neu fwy o dda byw, a dim dŵr yn gollwng. Nid oedd defnyddwyr presennol y lôn yn cau gât y cae ar ben y lôn / ar y briffordd gyhoeddus. Roedd da byw yn crwydro mas o'r cae yn rheolaidd o achos hyn. Dros y misoedd diwethaf roedd y gât wedi cael ei gadael ar agor yn rheolaidd er

iddi siarad â'r ymgeisydd a bod arwydd ar y gât yn gofyn iddi gael ei chau drwy'r amser. Hefyd gwelwyd cŵn ymwelwyr yn cwrso ar ôl y da a byddai hyn ond yn cynyddu wrth i nifer yr aelwydydd gynyddu o'r ddwy aelwyd a ganiateir ar hyn o bryd i chwe aelwyd arall.
Dywedodd y Cynghorydd Davies ei bod yn cyflwyno'r cais am ei bod yn bosib nad oedd y Cyngor yn ymwybodol o'r pwyntiau uchod.

Atebodd y Cynghorydd Davies gwestiynau ynglŷn â'i chais am ollyngiad.
Nododd y Cynghorydd Davies y canlynol:

- bod trefniadau bilio dŵr preifat ar waith
- bod 11 aelod ar Gyngor Cymuned Llangoedmor.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Davies adael y cyfarfod a oedd yn cael ei gynnal drwy fideogynadledda fel y gallai'r Pwyllgor ystyried ei chais.

**PENDERFYNWYD i WRTHOD** y cais am ollyngiad i siarad a phleidleisio yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llangoedmor ar 7/2/22 ynglŷn â chais cynllunio A211044 gyfer 6 pod glampio, toiled a chawodydd a lle parcio cysylltiedig yn The Gardener's Cottage, The Walled Gardens, Llangoedmor, Aberteifi

Bu'r Pwyllgor yn trafod y cais am ollyngiad am gryn amser.

Roedd y rhesymau dros wrthod y cais yn cynnwys y canlynol:

(i) nid oedd y Pwyllgor yn fodlon bod unrhyw un o'r seiliau statudol ar gyfer gollyngiad wedi'u nodi;
(ii) roedd y Pwyllgor yn nodi bod gan Gyngor Cymuned Llangoedmor brotocol a oedd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau fel aelod o'r cyhoedd yng nghyfarfodydd y cyngor cymuned ynglŷn â materion ar yr agenda neu faterion a oedd o bryder i'r Gymuned;
(iii) roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai presenoldeb cynghorydd ddylanwadu ar benderfyniad y Cyngor Cymuned;
(iv) nid oedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai gwrthod y cais yn arwain at ddiffyg democrataidd; ac
(v) roedd paragraff 14(2), Cod Ymddygiad yr Aelodau yn berthnasol

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:_______**

**Dyddiad:_________**

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Mai 2022** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar gyfer ei ystyried, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor** |

**Cyflwyniad**
Paratowyd fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Moeseg a Safonau ac y mae wedi'i atodi (Atodiad A)

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad drafft a gwneud unrhyw newidiadau y mae'n ei ystyried yn briodol, cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad Argymhellion:** | **Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Moeseg a Safonau (atodiad A), cyn ei gyflwyno i'r Cyngor (dyddiad i'w gadarnhau)** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad A – Fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Moeseg a Safonau.** |
| **Cefndir statudol:** | **Deddf Llywodraeth Leol 2000** |
| **Dogfennau cefndirol:** | **Dim** |
| **Swyddog Adrodd:** | Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau |
| **Dyddiad:** | 27 Ebrill 2022 |

# Pwyllgor Moeseg a Safonau

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Adroddiad Blynyddol 2021/22

# Deg Egwyddor Gyffredinol Bywyd Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| **Anhunanoldeb** – Dylai aelodau wasanaethu dim ond lles y cyhoedd ac ni ddylent byth roi dim mantais nac anfantais i ddim person yn amhriodol. | **Barn bersonol** – Caiff yr Aelodau ystyried barn pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, ond dylent gyrraedd eu casgliadau eu hunain ar y materion sydd ger eu bron a gweithredu yn unol â'r casgliadau hynny. |
| **Gonestrwydd ac uniondeb** – Ni ddylai aelodau roi eu hunain mewn sefyllfaoedd lle ceir cwestiynu eu gonestrwydd a'u huniondeb, ni ddylent ymddwyn yn amhriodol, a dylent, ar bob achlysur, osgoi dangos ymddygiad o'r fath. | **Parch at eraill** – Dylai aelodau hybu cydraddoldeb trwy beidio â gwahaniaethu yn anghyfreithlon yn erbyn dim person, a thrwy drin pobl â pharch, waeth beth fo'u hil, eu hoedran, eu crefydd, eu rhyw, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hanabledd. Dylent barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i weithwyr eraill. |
| **Gwrthrychedd** – Dylai aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod, gan gynnwys wrth wneud penodiadau, rhoi contractau, neu argymell unigolion am wobrau neu fudd. | **Dyletswydd i gynnal y gyfraith** – Dylai aelodau gynnal y gyfraith ac, ar bob achlysur, weithredu yn unol â'r ymddiriedaeth y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w rhoi ynddynt. |
| **Atebolrwydd** – Dylai aelodau fod yn atebol i'r cyhoedd am eu gweithredoedd a'r modd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau, a dylent gydweithredu'n llwyr ac yn onest ag unrhyw waith craffu sy'n briodol i'w swydd benodol. | **Stiwardiaeth** – Dylai aelodau wneud beth bynnag y gallant ei wneud i sicrhau bod eu hawdurdodau yn defnyddio eu hadnoddau yn ddarbodus, ac yn unol â'r gyfraith. |
| **Bod yn agored** – Dylai'r Aelodau fod mor agored â phosib ynghylch eu gweithredoedd a rhai eu hawdurdod, a dylent fod yn barod i roi rhesymau dros y camau hynny. | **Arweinyddiaeth** – Dylai'r aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweinyddiaeth, a thrwy esiampl, a dylent weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau neu'n diogelu hyder y cyhoedd. |

**“Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus”**

# Cynnwys

*Tudalen*

1. Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor 5

2. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r Datganiad o Weledigaeth 6

3. Rolau a Swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau 8

4. Aelodaeth y Pwyllgor 2021/22 10

5. Gwaith y Pwyllgor yn 2021/22 17

6. Cod Ymddygiad – Adroddiad y Swyddog Monitro 32

7. Prosesau Datrysiad Lleol 47

8. Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol 53

9. Blaenoriaethau'r Dyfodol 56

10. Mynychu'r Pwyllgor / Cysylltu â ni 57

# 1

# Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor

Mae’n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion sy’n rhoi trosolwg o’i waith yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 1$^{af}$ 2021 a Mawrth 31$^{ain}$ 2022.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau i ystyried ceisiadau Cynghorwyr am ollyngiad i gymryd rhan mewn trafodaethau lle mae ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu, a materion eraill yn ymwneud â safonau. Rydym wedi croesawu cyfraniadau Arweinwyr y Grwpiau i drafodaethau ar sut mae safonau'n cael eu hybu o fewn y Grwpiau. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ar lefel genedlaethol ynghylch y Fframwaith Moesegol, gweithredu Protocolau Datrysiad Lleol a'r Canllawiau Statudol ar gyfer Safonau Ymddygiad.

Hoffwn ailadrodd diolch y Pwyllgor i Hywel Wyn Jones, ein Cadeirydd blaenorol, a Rif Winfield am y deng mlynedd y maent wedi cyfrannu at ein gwaith. Hefyd, diolch i’r Cynghorwyr Sir a Chymuned sydd wedi bod ar y Pwyllgor dros y cyfnod etholiadol yn gorffen ym mis Mai 2022. Rydym yn croesawu Caryl Davies ac Alan Davies fel Aelodau Annibynnol.

Fel bob amser, mae gwaith y Pwyllgor yn dibynnu’n helaeth ar y cymorth y mae’n ei gael gan swyddogion, yn enwedig y Swyddog Monitro a staff cynorthwyol. Dymunaf gofnodi ein diolch iddynt. Hoffwn hefyd ddiolch i’m cyd-aelodau o’r Pwyllgor am eu cyfraniadau.

**Caroline White**
**Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, Cyngor Sir Ceredigion 2021/22**

# 2
# Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Moeseg a Safonau a’r Datganiad o Weledigaeth

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Moeseg a Safonau yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 (2001/2283) (fel y'u diwygiwyd (2006/1849), 2007/951).

**CYFANSODDIAD**

**Aelodaeth**

Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys naw aelod. Mae ei aelodaeth yn cynnwys:

- Pum aelod ‘annibynnol’, nad ydynt yn Gynghorwyr nac yn Swyddogion nac yn gymar i Gynghorydd nac yn swyddog o’r Cyngor hwn nac o unrhyw awdurdod perthnasol arall fel y diffinnir gan y Rheoliadau, a benodir yn unol â’r weithdrefn a amlinellir yn y Rheoliadau;
- Dau Gynghorydd Sir [heblaw am Arweinydd y Cyngor ac unrhyw aelod o'r Cabinet];
- Dau aelod o Gynghorau Tref a Chymuned sydd yn gyfan gwbl neu’n bennaf yn ardal y Cyngor (‘aelodau o Bwyllgor Cymuned’)

**Cyfnod yn y Swydd**

- Penodir aelodau annibynnol am gyfnod o ddim llai na phedair blynedd a dim mwy na chwe blynedd. Ceir eu hailbenodi am un cyfnod olynol pellach nad yw’n hwy na phedair blynedd. Penodwyd dau Aelod Annibynnol a dechreusant yn eu swyddi yn 2021/22.

  Bydd cyfnod yr aelodau hynny o’r Cyngor sy’n aelodau o’r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn y swydd yn para tan ddechrau’r etholiad llywodraeth leol nesaf yn dilyn eu penodi.
- Bydd cyfnod aelod o Bwyllgor Cymuned yn y swydd yn para tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn ei benodi.

**Cworwm -** Ni fydd gan gyfarfod o’r Pwyllgor Moeseg a Safonau gworwm oni fydd:

- o leiaf tri aelod yn bresennol, a bod;
- o leiaf hanner yr aelodau sy’n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol.

**Aelodau Pwyllgorau Cymuned -** Ni fydd aelod o Bwyllgor Tref/Cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Moeseg a Safonau pan fydd unrhyw fater sy’n ymwneud â'i Gyngor Cymuned yn cael ei ystyried;

**Cadeirio’r Pwyllgor**

- Rhaid i Aelod Annibynnol gadeirio'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.
- Etholir y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd gan aelodau’r Pwyllgor Moeseg a Safonau am ba un bynnag yw’r cyfnod byrraf o blith y canlynol:-
  - cyfnod o nid llai na phedair blynedd ac nid mwy na chwe blynedd, neu
  - hyd nes y daw cyfnod yr unigolyn hwnnw yn y swydd fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i ben

    Os bydd y Cadeirydd yn absennol o gyfarfod o’r Pwyllgor Moeseg a Safonau yna bydd Is-gadeirydd y Pwyllgor, os yw’n bresennol, yn llywyddu.
    Os bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau ill dau yn absennol o gyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw, bydd yr Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a ddewisir gan aelodau'r Pwyllgor sy'n bresennol yn llywyddu.

**DATGANIAD O WELEDIGAETH**

“Ein Gweledigaeth yw y bydd gan bobl Ceredigion ymddiriedaeth a hyder y bydd pawb sy'n cael eu hethol i swydd mewn Llywodraeth Leol yn ein sir yn gweithio i'r safonau moesegol a moesol uchaf wrth wasanaethu eu cymuned”

# 3
# Rolau a Swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau

Roedd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau'r rolau a'r swyddogaethau canlynol:

- hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan y Cynghorwyr,
- cynorthwyo'r Cynghorwyr, yr Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau;
- cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau;
- rhoi gollyngiadau i Gynghorwyr, i Aelodau Cyfetholedig ac i gynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr parthed y gofynion sy'n ymwneud â buddiannau, fel y nodir **yn rhifyn 2016 Cod Ymddygiad yr Aelodau; Adran (81(4) & (5) Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001 (2001/2279).**
- ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y Swyddog Monitro ynghylch unrhyw fater a atgyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; fel y nodir yn (adran 73(1) **Deddf Llywodraeth Leol 2000, Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau)(Cymru) 2001))(2001/2281) (fel y'u diwygiwyd; 2009/2578), a Rheoliadau**

**Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio (Cymru) (Diwygio) 2016 (2016/85).**

- arfer yr uchod mewn perthynas â'r Cynghorau Cymuned sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ei ardal ac aelodau'r Cynghorau Cymuned hynny; (Adran 56(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000) i benodi panel apelio o dri, gyda mwyafrif o aelodau annibynnol, y bydd un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd, ar gyfer cwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd o dan weithdrefn gwyno'r Cyngor.

Gall enghreifftiau o'r math o waith a wneir gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau gynnwys:

- cymryd rhan mewn datblygu deunyddiau hyfforddiant ar y Cod, gan gynnwys siart lif sy'n crynhoi prif ddarpariaeth y cod

- mynychu sesiynau hyfforddi ar y Cod ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned a chymryd rhan ynddynt

- mynychu cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i arsylwi ar drafodion

- cyflwyno gweithdrefnau sy'n caniatáu i'r Cynghorwyr fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor i gyflwyno cais am ollyngiad yn bersonol

# 4

# Aelodaeth y Pwyllgor

## Aelodaeth y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2020/21

**Ebrill 1af 2021 – Medi 26ain 2021**

| Aelod o'r Pwyllgor | Cyfnod yn y Swydd | Cyfnod fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd |
|---|---|---|
| Mr Hywel  Wyn Jones (Cadeirydd)<br>Aelod Annibynnol | 2/09/17-26/09/21 | Cadeirydd:22/02/19-19/05/21<br><br>Aelod 19/05/21-26/09/21 |
| Mrs Caroline White (Is-gadeirydd)<br>Aelod Annibynnol | 01/08/13-30/07/23 | Is-gadeirydd 22/02/18-19/05/21<br>Cadeirydd 19/05/21 |
| Mr Rif Winfield<br>Aelod Annibynnol | 27/09/17-26/09/21 | |
| Ms Carol Edwards<br>Aelod Annibynnol | 22/02/18-21/02/24 | |
| Mr John Weston<br>Aelod Annibynnol | 22/02/18-21/02/24 | |
| Y Cynghorydd Dai Mason<br>Cyngor Sir Ceredigion | 05/05/17-Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Y Cynghorydd Odwyn Davies<br>Cyngor Sir Ceredigion | 05/05/17- | |

| | | |
|---|---|---|
| | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022. | |
| Y Cynghorydd Julian Evans (Cynrychiolydd Cyngor Cymuned) | 05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Y Cynghorydd Gill Hopley (Cynrychiolydd Cyngor Cymuned) | 05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |

**Medi 26ain 2021- Mawrth 31ain 2022**

| Aelod o'r Pwyllgor | Cyfnod yn y Swydd | Cyfnod fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd |
|---|---|---|
| Mrs Caroline White Cadeirydd Aelod Annibynnol | 01/08/13-30/7/23 | Cadeirydd 19/05/21-30/07/23 |
| Mr John Weston Aelod Annibynnol | 22/02/18-21/02/24 | Is-gadeirydd 19/05/21-30/07/23 |
| Ms Carol Edwards Aelod Annibynnol | 22/02/18-21/02/24 | |
| Mr Alan Davies Aelod Annibynnol | 26/09/21-26/09/27 | |
| Mrs Caryl Davies Aelod Annibynnol | 26/09/21-26/09/27 | |
| Y Cynghorydd Dai Mason Cyngor Sir Ceredigion | 05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Y Cynghorydd Odwyn Davies Cyngor Sir Ceredigion | 05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022. | |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Julian Evans (Cynrychiolydd Cyngor Cymuned) | 05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Y Cynghorydd Gill Hopley (Cynrychiolydd Cyngor Cymuned) | 05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |

# Aelodau'r Pwyllgor


# Moeseg a Safonau presennol

| | |
|---|---|
| <br>**Mr Hywel Wyn Jones (Cadeirydd hyd at 19/05/21 ac Aelod Annibynnol hyd at 26/09/21)** | **Mae Hywel Wyn Jones yn gyn-Ysgrifennydd Gweinyddol Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Am ddeng mlynedd bu'n aelod o Bwyllgor Safonau Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys (gyda chyfnod fel Cadeirydd).**<br>**Mae wedi gwasanaethu fel Aelod Annibynnol o Bwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion ers 2012, ac fel ei Gadeirydd ers Chwefror 2018. Mae hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.** |

| | |
|---|---|
| <br>Mrs Caroline White<br>(Is-gadeirydd hyd at 19/05/21 a Chadeirydd o 19/05/21) | Mae Caroline White yn athrawes wedi ymddeol. Yn ystod ei gyrfa 26 mlynedd yn y byd addysg cafodd lawer o gyfrifoldebau o ran rheoli ysgol gyfan a daeth yn Bennaeth Cynorthwyol cyn ymddeol. Mae hi bellach yn gweithio fel Tiwtor Sgiliau Astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Penodwyd Caroline yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ym mis Awst 2013 ac fe'i hetholwyd yn Is-gadeirydd, o Chwefror 2018, ac yna'n Gadeirydd, o fis Mai 2021. |
| <br>Mr Rif Winfield<br>(Aelod hyd at 26/09/21) | Mae Rif Winfield wedi mwynhau gyrfa yn y sectorau gwleidyddol, masnachol a gwirfoddol. Bu'n Gynghorydd Bwrdeistref etholedig ym 1972.<br><br>Bu'n Gyfarwyddwr sefydlol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion am 17 o flynyddoedd, gan gynnwys cyfnod o fod yn Gadeirydd.<br><br>Mae wedi bod yn Aelod Annibynnol o Bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion ers 2011. |
| <br>Mrs Carol Edwards | Ymgymhwysodd Carol Edwards fel Llyfrgellydd Siartredig o'r Coleg Llyfrgellydd yn Aberystwyth. Bu'n gweithio i Gyngor Sir Clwyd, Ysbyty Llwynhelyg (fel llyfrgellydd meddygol) cyn mynd yn ôl i Aberystwyth i weithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru am dros 20 mlynedd. Roedd yn Bennaeth Adran rhwng 2010 a 2013.<br><br>Ar hyn o bryd mae'n Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru.<br><br>Penodwyd Carol yn Aelod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ym mis Chwefror 2018. |

| | |
|---|---|
|  **Mr John Weston (Is-Gadeirydd o 19/05/21)** | **Roedd John Weston yn Gynllunydd Tref, ac yna fe'i cyflogwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru fel archwiliwr perfformiad, cyn iddo ymddeol yn 2013. Bu'n cynnal archwiliadau o fewn Cynghorau yng Nghymru a hefyd gyda'r Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru.**<br><br>**Penodwyd John yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o fis Chwefror 2018 a chafodd ei ethol yn Is-gadeirydd o fis Mai 2021.** |
|  **Mr Alan Davies (Aelod Annibynnol o 26/09/21)** | **Daw Alan Davies yn wreiddiol o Lundain, gyda gwreiddiau rhieni yng Ngheredigion, mae'n briod, gyda 2 fab ac yn byw yn Aberaeron. Mae'n siaradwr Cymraeg rhugl ac yn gwneud sylwadau cyson i deledu a radio ar faterion milwrol, amddiffyn, heddwch a diogelwch. Ar hyn o bryd mae'n weithgar yn datblygu'r Sector Gofod yng Nghymru ac wedi arwain llawer o fentrau sylweddol yn ymwneud â thwf busnesau a newid busnesau.**<br>**Roedd ei yrfa gynnar yn y Fyddin, gan ymddeol fel Uwchgapten ar ôl 18 mlynedd o wasanaeth, lle bu'n gyfrifol am gynllunio milwrol strategol ar gyfer ymgyrchoedd ymyrryd ac achubiadau byd-eang.** |
|  **Mrs Caryl Davies (Aelod Annibynnol o 26/09/21** | **Mae Caryl Davies yn gyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr ac yn Bennaeth Gyrfaoedd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn siarad Cymraeg, mae Caryl hefyd yn aelod o Bwyllgor Safonau Sir Gaerfyrddin; aelod lleyg panel priodoldeb i ymarfer a chadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru; a chynrychiolydd lleyg ar gyfer Gwella Addysg Iechyd Cymru.** |

| | |
|---|---|
| <br>**Y Cynghorydd Dai Mason (Cyngor Sir Ceredigion)** | **Roedd Dai Mason yn beiriannydd dylunio yn IBERS, ac yna'n Gyfarwyddwr Cwmni yn y diwydiant adloniant/teithio.**<br><br>**Mae'n Llywodraethwr Ysgol.**<br><br>**Ers 2012 ef yw'r Cynghorydd Sir sy'n cynrychioli Ward Trefeurig. Bu'n Gadeirydd ar Gyngor Sir Ceredigion yn 2016/17.**<br><br>**Penodwyd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ym mis Mai 2012.** |
| <br>**Y Cynghorydd Odwyn Davies (Cyngor Sir Ceredigion)** | **Mae Odwyn Davies yn ffermwr.**<br>**Ers 1999, ef yw'r Cynghorydd Sir sy'n cynrychioli Ward Llangybi.**<br>**Bu'n gyn-arweinydd ar y cyd ar Gangen Urdd Gobaith Cymru yn ardal Llangybi.**<br>**Mae'n Aelod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ers Mai 2012.** |

| | |
|---|---|
| <br>**DrJulian Evans (Cynrychiolydd y Cynghorau Cymuned)** | **Roedd Julian Evans yn Feddyg Deintyddol o 1978, ac yn rhedeg ei ddeintyddfa ei hun hyd nes iddo ymddeol yn 2008.**<br><br>**Daeth yn Gynghorydd ar Gyngor Tref Ceinewydd yn 1982 gan fod yn Faer ar bum achlysur.**<br><br>**Bu'n cynrychioli Ward Ceinewydd ar Gyngor Sir Ceredigion rhwng 1995 a 1999.**<br><br>**Mae'n Aelod o bwyllgor dethol yr ynadon ac yn gyn-ddiffoddwr tân rhan amser. Mae hefyd yn Gyn-lywodraethwr Ysgol.  Ef yw Cadeirydd Cangen Ceredigion Un Llais Cymru.**<br><br>**Penodwyd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn 2017.** |
| <br>**Y Cynghorydd Gill Hopley (Cynrychiolydd y Cynghorau Cymuned)** | **Cafodd Gill Hopley yrfa lwyddiannus mewn dylunio ffasiwn a manwerthu o 1987 tan iddi ymddeol yn 2016.**<br><br>**Mae'n Gynghorydd ar Gyngor Tref Ceinewydd ers 1991 gan fod yn Faer ar sawl achlysur.**<br><br>**Bu'n cynrychioli Ward Ceinewydd ar Gyngor Sir Ceredigion rhwng 1999 a 2017. Hi oedd Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion yn 2015.**<br><br>**Penodwyd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn 2017.** |

## Pryd mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyfarfod?
Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau gyfarfodydd rheolaidd bob deufis. Gellir trefnu cyfarfodydd hefyd ar adegau eraill os oes amgylchiadau eithriadol.

# 5
# Gwaith y Pwyllgor yn 2021/2022

**1. CEISIADAU AM OLLYNGIAD**

| Blwyddyn | Nifer y ceisiadau a gafwyd | Ceisiadau Cyngor Sir | Cyngor Tref Ceisiadau |
|---|---|---|---|
| 2017/18 | 23 | 10 | 13 |
| 2018/19 | 21 | 9 | 13 |
| 2019/20 | 15 | 13 | 12 |
| 2020/21 | 17 | 11 | 6 |

**2021/22**
Ystyriodd y Pwyllgor 17 cais gan Gynghorwyr Sir a Chymuned a Thref yn ystod y flwyddyn.

- rhoddwyd 16
- gohiriwyd 0
- gwrthodwyd 1
- tynnwyd 0 yn ôl

O’r rhain:

- Cynghorwyr Sir: 8
- Cynghorwyr Tref a Chymuned 9

Nodir y sail y gall y Pwyllgor roi gollyngiad arni yn Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (Rheoliad 2)

Y rhesymau mwyaf cyffredin y rhoddwyd gollyngiadau gan y Pwyllgor oedd:

- d) mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal


- f) gellir cyfiawnhau cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

  O'r 16 gollyngiad a roddwyd:
  - rhoddwyd 7 i siarad yn unig
  - rhoddwyd 9 i siarad a phleidleisio

O'r gollyngiadau a roddwyd:
- rhoddwyd 14 am gyfnod hyd at 12 mis
- rhoddwyd 0 am gyfnod hyd at 6 mis
- rhoddwyd 2 ar gyfer cyfarfod penodol

Am y gollyngiad a wrthodwyd, y rhesymau oedd:
(i)nid oedd y Pwyllgor yn fodlon bod unrhyw un o'r rhesymau statudol dros yr ollyngiad wedi'u dilysu;
(ii) nododd y Pwyllgor fod gan y Cyngor Cymuned brotocol sy'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau fel aelod o'r cyhoedd mewn cyfarfod cyngor cymuned mewn perthynas â materion ar yr agenda neu sy'n peri pryder i'r Gymuned;
(iii) roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai presenoldeb cynghorydd ddylanwadu ar benderfyniad y Cyngor Cymuned;
(iv)nid oedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai gwrthod y cais yn arwain at ddiffyg democrataidd; a
(v) bod paragraff 14(2) y Cod Ymddygiad i Aelodau yn berthnasol




Nid yw negeseuon atgoffa ynghylch adnewyddu gollyngiadau yn cael eu hanfon at yr Aelodau. Daw'r gollyngiadau i ben yn awtomatig ar ddiwedd y cyfnod penodol. Caiff unrhyw geisiadau am ymestyn yr amser eu trin fel ceisiadau newydd er mwyn sicrhau bod yr Aelodau yn adolygu'r angen a'r rheswm am y gollyngiad yn iawn

Mae'r Pwyllgor yn ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau.

Gellir gweld manylion y ceisiadau yr ymdriniwyd â nhw gan y Pwyllgor fel rhan o agendâu/cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor ar wefan Cyngor Sir Ceredigion:

http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/pwyllgorau/pwyllgor-safonau-a-moeseg/

Anogwyd ymgeiswyr i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor i gyflwyno eu hachos.
Yn ystod 2017/18, mynychodd 2 Aelod y Pwyllgor yn bersonol.
Yn ystod 2018/19, mynychodd 2 Aelod y Pwyllgor yn bersonol.
Yn ystod 2019/20, mynychodd 2 Aelod y Pwyllgor yn bersonol.
Yn ystod 2020/21 mynychodd 1 Aelod y Pwyllgor (trwy fideo-gynadledda)
Yn ystod 2021/22 mynychodd 5 Aelod y Pwyllgor (trwy fideo-gynadledda)

**2. PANEL DYFARNU CYMRU**.

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn dribiwnlys annibynnol sydd wedi'i sefydlu i benderfynu ar doriadau honedig yn erbyn Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig a chyfetholedig Cynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Chymuned, Awdurdodau Tân ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021 rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn dwyn dyddiad 23 Rhagfyr 2020 ar benderfyniad y Tribiwnlys Achos i atal, dros dro, Aelod Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful am gyfnod saith mis neu, os yw'n fyrrach, weddill ei gyfnod yn y swydd.

Roedd yr ail adroddiad yn dwyn dyddiad 12 Ionawr 2021 yn sôn am benderfyniad y Tribiwnlys Achos i anghymhwyso cyn Gynghorydd Cymuned dros Gyngor Cymuned Sili a Larnog am 15 mis.

Nodwyd y ddau adroddiad er gwybodaeth gan y pwyllgor.

Cytunwyd hefyd yng nghyfarfod mis Medi bod holl faterion Panel Dyfarnu Cymru bellach yn cael eu dosbarthu i Arweinydd pob Plaid er gwybodaeth oherwydd eu cyfrifoldebau newydd o fis Mai 2022 mewn perthynas â gofyniad safonau uchel Aelodau ei grŵp.

**3. DIWEDDARIAD AR FATERION OMBWDSMON GWASANAETH CYHOEDDUS – YMGYNGHORIAD AR DDIWYGIO CANLLAWIAU COD YMDDYGIAD**

Ar Chwefror 5ed 2021, rhyddhaodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddwy ddogfen Ganllawiau drafft newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau, sef un ar gyfer aelodau'r Cyngor Sir ac un ar gyfer Cynghorau Cymuned/Tref.

Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ymateb i'r ymgynghoriad drwy sylwadau drwy e-bost a gweithdy a gynhaliwyd ar Fawrth 4ydd 2021.  Rhannwyd y canllawiau drafft hefyd gydag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol.

Cyflwynodd y Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad yn cynnwys sylwadau gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau, Arweinwyr Grwpiau a'r Swyddog Monitro. Dosbarthwyd hwn i'r aelodau.

Mae'r canllawiau terfynol ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Cymuned/Tref wedi'u cyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 17 Medi 2021 er gwybodaeth.
Mae penderfyniadau dilynol ar gael ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan "Ein Canfyddiadau."

**4. ADRANNAU 62-63 DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi dyletswyddau newydd i arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r pwyllgorau safonau, sef adran 62 ac adran 63.

Adran 62: O ran dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad, mae (Adran 52A Deddf Llywodraeth Leol 2000) yn dweud bod yn rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau cyngor sir yng Nghymru:

- gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad aelodau'r grŵp hwnnw; a
- chydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor.

Yn adran 54 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), mae gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru hefyd swyddogaethau penodol—

(a) monitro i ba raddau mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1), a
(b) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

Mae adran 63 yn mewnosod y gofynion ar gyfer adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau. Yn ogystal â disgrifio sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni, rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys yr hyn a wnaed i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan adran 54 neu 56.
Rhaid i adroddiad blynyddol gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru gynnwys asesiad y pwyllgor ynghylch i ba raddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A (1).
Caiff yr adroddiad blynyddol hefyd gynnwys argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn perthynas ag ef.

Mae adroddiad blynyddol y Cadeirydd wedi'i gyflwyno i'r Cyngor ers 2018.

Dywedwyd bod arweinwyr gwleidyddol Cyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd yn cael eu gwahodd bob blwyddyn i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i drafod y dulliau o hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion.

Cytunodd y pwyllgor i nodi'r dyletswyddau newydd gydag argymhelliad i gyfarfod ag Arweinwyr Grwpiau o leiaf unwaith y flwyddyn, a'u hadolygu ar ôl cael canllawiau pellach.

**5. RECRIWTIO**
Yng nghyfarfod 19 Mai 2021 cyflwynwyd adroddiad ar benodi dau Aelod Annibynnol. Dywedwyd bod y Cadeirydd presennol Mr Hywel Wyn Jones a Mr Rif Winfield wedi'u penodi i ddechrau ar 27/9/2011 a'u bod wedi'u hailbenodi ar 27/9/2017. Byddai eu priod gyfnodau yn y swydd yn dod i ben ar 26/9/2021. Nid oedd yr aelodau hyn bellach yn gymwys ar gyfer eu hailbenodi.

Ar Ragfyr 10fed 2020 penderfynodd y Cyngor:
a) y disgrifiad o'r swydd, manyleb y person a'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol; a b) Aelodaeth y Panel Dethol.

Cynhaliwyd y Panel Dethol ar Fawrth 26ain 2021 a'r cyfweliadau ar Ebrill 15fed 2021.
Y ddau ymgeisydd llwyddiannus oedd:
- Caryl Davies;
- Alan Davies.

Cyngor ar Fehefin 17eg 2021 y byddai'r penodiadau hyn am gyfnod o 6 blynedd o Fedi 27ain 2021.

Mynychodd yr Aelodau newydd eu gweithdy cyntaf ar Dachwedd 17eg 2021 a'u cyfarfod cyntaf ar Ionawr 19eg 2022.

Fe wnaeth y Cadeirydd gyfleu diolch y Pwyllgor i Mr Hywel Wyn Jones a Mr Rif Winfield am eu cyfraniad at waith y Pwyllgor Moeseg a Safonau ers eu penodi. Diolchodd y ddau i'r Pwyllgor a'r Swyddogion am eu gwaith a'u cymorth yn ystod eu cyfnod yn eu swyddi.

**6. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fai 15fed 2021, dywedwyd bod y Pwyllgor yn ymwybodol y byddai Cyfnod dau o'r aelodau annibynnol presennol yn y Swydd, Mr Hywel Wyn Jones a Mr Rif Winfield yn dod i ben ar 26 Medi 2021.

O'r herwydd, byddai cyfnod y Cadeirydd presennol yn y swydd, Mr Hywel Wyn Jones 'Cadeirydd' hefyd yn dod i ben ar 26 Medi 2021. Roedd y Cadeirydd presennol yn dymuno rhoi'r gorau i'r gadeiryddiaeth ar ddiwedd y cyfarfod ar Fai 19eg 2021, er mwyn i'r Pwyllgor allu penderfynu ar ei olyniaeth mewn da bryd. Roedd yn ofynnol bod Cadeirydd (ac Is-gadeirydd) y Pwyllgor yn cael eu penodi o blith aelodau annibynnol y Pwyllgor. Ni fyddai'r aelodau annibynnol newydd eu recriwtio yn dechrau yn eu swyddi tan 27 Medi 2021. O'r herwydd, byddai'n rhaid penodi'r Cadeirydd newydd o blith gweddill yr aelodau Annibynnol (sef Caroline White, John Weston a Carol Edwards).

Pe bai'r Is-gadeirydd presennol yn cael ei benodi, byddai angen ystyried enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd newydd wedi hynny, a ddaw i rym eto o 20 Mai 2021.

CYTUNWYD i:
(ii) penodi Caroline White i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor yn effeithiol o 20 Mai 2021 am hyd ei chyfnod yn y swydd hyd at Orffennaf 30ain 2023; a

(ii) penodi John Weston yn Is-gadeirydd y Pwyllgor, i gyd-fynd â phenodiad y Cadeirydd hyd at Orffennaf 30ain 2023.

Ar 17 Mehefin 2021 cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau hyn.

**7. COFLYFR COD YMDDYGIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro Faterion Coflyfr Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon i'r Pwyllgor fel a ganlyn:-

- coflyfr 24
- coflyfr 25

Cododd yr Aelodau'r canlynol hefyd:-

(i) nodi pryder y Pwyllgor y dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod â chynigion cryfach ar yr achosion y maent yn eu hystyried; gan fod nifer yn argymhellion ac nid yn amodau;

(ii) dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fynd ar drywydd yr argymhellion hyn e.e. a oedd hyfforddiant wedi'i gwblhau

(iii) y byddai'r Fframwaith Moesegol yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol i'w ystyried

**8. HYFFORDDIANT**

Dywedwyd yng nghyfarfod Mai 2021 y byddai'r Cadeirydd yn hyfforddi Aelodau o Gyngor Cymuned Llanwenog ar 8 Mehefin 2021. Rhoddwyd yr hyfforddiant hwn o bell.

Byddai hyfforddiant hefyd yn cael ei roi gan y Swyddog Monitro ar 27 Medi 2021 ar gyfer aelodau newydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau. Rhoddwyd yr hyfforddiant hwn.

Ar ôl etholiadau Mai 2022, byddai hyfforddiant Cod Ymddygiad hefyd yn cael ei roi i Aelodau newydd gyda hyfforddiant diweddaru ar gyfer Aelodau sy'n dychwelyd.
Rhoddir ystyriaeth i hyfforddiant o bell yn y dyfodol.

Cynigiodd Hywel Wyn Jones ei gefnogaeth i ddarpariaeth hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

Yng nghyfarfod 17 Medi 2021, dywedwyd:-

- Y byddai Aelodau'r Cyngor Sir yn cael hyfforddiant Diogelu Data/Cydraddoldeb a’r Cod Ymddygiad oherwydd y wybodaeth y gellid o bosibl ei rhoi ar wefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook. Byddai'r hyfforddiant hwn hefyd yn cael ei gynnig yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022
- Y gellid cynnwys y deunydd hyfforddi a roddir ar Ddiogelu Data/Cydraddoldeb gydag unrhyw hyfforddiant Cod Ymddygiad yn y dyfodol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned
- Disgwylid eglurhad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a fyddai'r cyflwyniad a roddwyd ar hyfforddiant y Cod Ymddygiad yn dilyn yr etholiadau yn 2017 yn cael ei newid cyn etholiadau Mai 2022
- Bod sawl Aelod o’r Pwyllgor bellach yn gallu rhoi hyfforddiant dwyieithog i Gynghorau Tref a Chymuned ar y Cod Ymddygiad gan fod ganddynt brofiad o roi hyfforddiant
- Y byddai sesiynau hyfforddi yn cael eu trefnu gyda'r Pwyllgor i ystyried materion penodol o fewn yr agenda Moeseg a Safonau cyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Moeseg a Safonau.

Yng nghyfarfod Ionawr 2022, cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llun 9 Mai** | **10:00am** | **Elin Prysor** | **HYFFORDDIANT - Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau newydd (2 ½ awr) (gorfodol)** |
| | **2:00pm** | **Elin Prysor** | **HYFFORDDIANT - Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau sy’n dychwelyd (1 ½ awr) (gorfodol)** |
| **Maw 24 Mai** | | | |
| | **2:00pm** | **Elin Prysor** | **HYFFORDDIANT – Rôl a chyfrifoldebau’r Pwyllgor Moeseg a Safonau (gorfodol i holl aelodau’r Pwyllgor)** |

- Byddai hyfforddiant gorfodol i Arweinwyr Grwpiau hefyd yn cael ei gynnal ar 06 Mehefin 2022
- Dywedwyd hefyd y byddai hyfforddiant Gweithdrefnau Gwrandawiadau yn cael ei gynnal ym mis Medi 2022.

## 9. RHEOLIADAU CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG (CYFFREDINOL) (CYMRU) 2021

Rhoddwyd ystyriaeth yng nghyfarfod mis Mai i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021. Dywedwyd bod Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021 (“Y Rheoliadau Cyffredinol”) yn cyflwyno nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â gweinyddu a llywodraethu cyffredinol Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd gan Ran 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Daeth y darpariaethau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

Y bwriad cyffredinol wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig oedd y byddai Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei drin fel rhan o’r ‘teulu llywodraeth leol’ neu’n aelod ohono ac yn ddarostyngedig i raddau helaeth i’r un pwerau a dyletswyddau neu rai tebyg ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu. Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn amlinellu'r gofynion a'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig yn effeithiol.

Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn ceisio sicrhau, fel rhan o weithrediad ehangach fframwaith moesegol llywodraeth leol, fod aelodau, cyfranogwyr cyfetholedig a chyflogeion Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn destun safonau priodol ymddygiad.

Y darpariaethau yn y Rheoliadau Cyffredinol hyn oedd sicrhau bod Cod Ymddygiad yr awdurdod perthnasol yn cael ei weithredu i aelodau a chyfranogwyr cyfetholedig Cyd-bwyllgor Corfforedig. Hynny yw, bydd cod ymddygiad yr awdurdod perthnasol y mae'r aelod neu'r cyfranogwr cyfetholedig yn dod ohono yn berthnasol. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol iddynt gofrestru unrhyw fuddiannau personol sydd ganddynt ym musnes y Cyd-bwyllgor Corfforedig yng nghofrestr buddiannau eu hawdurdod perthnasol.

CYTUNWYD i nodi cynnwys perthnasol Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021 mewn perthynas â safonau ymddygiad.

Yng nghyfarfod Ionawr 2022 roedd angen trafod cyfansoddiad Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer Cyd-bwyllgor Safonau Canolbarth Cymru. Cytunwyd mewn egwyddor mai Swyddog Monitro Powys fyddai'r Swyddog Monitro ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru. Roedd yr aelodau o'r farn gan mai cydbwyllgor oedd hwn y dylai ei Aelodau fod o'r ddwy Sir.

**10. BLAENRAGLEN WAITH MOESEG A SAFONAU 2021/22**
Rhoddwyd ystyriaeth i Flaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2021/22.
Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD:-
(i) bod Blaenraglen Waith yn eitem sefydlog ar bob agenda’r Pwyllgor, a
(ii) diweddaru'r Flaenraglen Waith i gynnwys eitemau cyffredin, sef dogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen.

**11. FFRAMWAITH DATBLYGU AR GYFER CYNGHORWYR YNG NGHYMRU 2021**
Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad am y Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021 yng nghyfarfod mis Ionawr. Dywedwyd bod y fframwaith wedi'i ddatblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel canllaw defnyddiol i nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol parhaus ac ar gyfer rhoi cymorth a hyfforddiant i aelodau. Mae'n cynnwys ystod o gymwyseddau generig sydd eu hangen ar bob Cynghorydd yn ogystal â chymwyseddau arbenigol sy'n gysylltiedig â rolau penodol ar y Cyngor.

Mae'r cymwyseddau generig yn cynnwys: sgiliau sylfaenol fel deall rôl y Cynghorydd, a'r Awdurdod Lleol, ymddygiad, cydraddoldeb ac amrywiaeth, sgiliau TGCh a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac ati; sgiliau sydd eu hangen ar bob cynghorydd yn eu rolau fel arweinwyr cymunedol fel ymgynghori ac ymgysylltu; gwaith achos ar ran y cyhoedd; partneriaeth a chynrychiolaeth; a gweithio mewn amgylchedd gwleidyddol. Mae cymwyseddau penodol rolau yn cynnwys dealltwriaeth o rôl Craffu, datblygu ac adolygu polisi, dwyn y Weithrediaeth i gyfrif, monitro perfformiad; Sgiliau cadeirio; gwasanaethu ar bwyllgorau statudol / rheoleiddiol; Aelodau Gweithrediaeth; ac Arweinyddiaeth y Cyngor.

Byddai’r fframwaith yn bwydo i'r rhaglen hyfforddi / cynefino ar gyfer Cynghorwyr.

Adrannau perthnasol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau:

Yr ystod o sgiliau cyffredinol sydd eu hangen:

| Cyf | **Gofyniad** | **Gwybodaeth a Sgiliau** | **Ymddygiadau effeithiol** |
|---|---|---|---|
| A3 | Ymddygiad | Y fframwaith moesegol y mae'n | Bob amser yn cadw at y Cod Ymddygiad. Bob |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhaid i Gynghorwyr weithio yn ei ôl.<br>Y Cod Ymddygiad. Rôl y Swyddog Monitro, y Pwyllgor Safonau, y Protocol Datrysiad Lleol. rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chyfarwyddyd ganddo. | amser yn datgelu ac yn diffinio buddiannau pan fo angen. Yn gofyn am gyngor gan y swyddog monitro pan fo angen. |
| A17 | Gweithio gyda Swyddogion | Rôl swyddogion yn gyffredinol a'r 'rheolau' y mae angen iddynt gadw atynt gan gynnwys dealltwriaeth ddyfnach o rôl uwch swyddogion fel y Prif Weithredwr, Tîm yr Uwch-Reolwyr, y Swyddog Monitro a Phenaethiaid Gwasanaethau Cyllid, Cyfreithiol a Democrataidd. Sgiliau wrth weithredu fel cyflogwr corfforaethol. Deall y broses benodi a sgiliau cyfweld. | Yn cynnal perthnasoedd proffesiynol â swyddogion, gan gydnabod ffiniau a chadw at Brotocol yr Aelodau a'r Swyddogion. Yn gweithredu fel aelod effeithiol o banel penodi, gan weithredu egwyddorion cadarn o ran Adnoddau Dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth i wneud penodiadau. |
| A38 | Disgyblaeth Grŵp | Dealltwriaeth o ymddygiadau ac ymddygiad sydd eu hangen gan aelod grŵp | Yn gweithio yn unol â'r safonau ymddygiad sy'n ofynnol gan Arweinydd y Grŵp. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| B8 | Arweinyddiaeth Pwyllgor | Dealltwriaeth drylwyr o rôl y pwyllgor a'i gwmpas. Y gallu i gydweithio â swyddogion, aelodau ac asiantaethau perthnasol. Ymrwymiad i alluogi holl aelodau'r pwyllgor i ddatblygu sgiliau a chymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd. | Yn hyrwyddo gwaith a gwerth y pwyllgor yn y Cyngor ac i'r cyhoedd. Gweithio gyda'r pwyllgor y tu allan i gyfarfodydd i wneud iddo weithio'n fwy effeithiol. Cyfathrebu ag aelodau a swyddogion sydd â diddordeb yn nhrafodion y pwyllgor. Yn meithrin perthnasoedd â Phenaethiaid/Cyfarwyddwyr perthnasol Gwasanaethau i sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn berthnasol, yn wybodus ac yn rhoi'r canlyniadau sydd eu hangen. |
| B16 | Safonau | Y gyfraith a'r cyfansoddiad mewn perthynas ag ymddygiad. Protocolau datrysiad lleol. Anghenion y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned ar gyfer Hyfforddiant mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad. Ymddygiad aelodau, delio ag adroddiadau gan Arweinwyr Grwpiau ac adroddiadau blynyddol | Yn dangos gwrthrychedd trwy wneud penderfyniadau annibynnol yn seiliedig ar dystiolaeth a'r cyfrifoldeb cyfreithiol a roddir ar bwyllgorau sy'n gweithredu mewn rôl led-farnwrol. Yn dryloyw yn cadw at y Cod Ymddygiad. Yn gofyn am gyngor priodol gan swyddogion proffesiynol, datblygiad personol neu friffio cyn gwneud penderfyniadau. |

**11.PENODI CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU – CYNLLUNIO AR GYFER OLYNIAETH**

Rhoddwyd ystyriaeth yng nghyfarfod Ionawr 2022 i'r adroddiad a gyflwynwyd am Benodi Cynghorwyr Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau - Cynllunio ar gyfer Olyniaeth.

CYTUNWYD i dderbyn y broses arfaethedig ar gyfer dewis y Cynghorwyr Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar gyfer cyfnod y weinyddiaeth Mai 2022-Mai 2027.

**12. DELIO Â CHWYNION A ATGYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AC AT WEITHDREFNAU GWRANDAWIADAU**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad am Ddelio â chwynion a atgyfeiriwyd at y Pwyllgor Moeseg a Safonau ac at weithdrefnau'r Gwrandawiadau yng nghyfarfod mis Ionawr.

Dywedwyd bod adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru (para 1.6) yn argymell bod Pwyllgorau Safonau yn cynnal hyfforddiant ar sut i gynnal gwrandawiadau, i sicrhau agoredrwydd a thegwch i’r aelod y cwynwyd yn ei gylch, i'r achwynydd ac i unrhyw dystion. Mae'r adroddiad yn nodi bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn derbyn bod angen atgyfeirio mwy yn ôl at Bwyllgorau Safonau pan fydd yn gwrthod ymchwilio i gwynion.

Roedd adolygiad o'r ddogfen wedi'i gynnal i ystyried newidiadau yn y Rheoliadau (yn 2016) a hefyd cymhariaeth o'r gweithdrefnau sydd ar waith mewn awdurdodau eraill i sicrhau bod gweithdrefnau presennol y Cyngor yn gyfredol, yn addas i'r diben.
Cyflwynwyd y ddogfen ddiwygiedig Newidiadau arfaethedig i'w hystyried.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i
(i) derbyn y diwygiadau;
(ii)argymell y ddogfen i’w chymeradwyo gan y Cyngor yn amodol ar unrhyw argymhelliad neu ddiwygiadau i’r ddogfen yn dilyn ystyriaeth mewn gweithdy o’r pwyllgor a gynhelir cyn yr Etholiadau ym mis Mai.

**13. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU**

Cynhaliwyd Cynhadledd Safonau Cymru o bell ar 9/2/22.
Dosbarthwyd manylion y digwyddiad a'r agenda i Aelodau'r Pwyllgor, Cynghorwyr a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned yn unol â hynny. Gan fod y Gynhadledd yn cael ei chynnal o bell nid oedd terfyn ar nifer y cynrychiolwyr a oedd yn bresennol fesul awdurdod, gan ganiatáu i 4 aelod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a 2 swyddog fynychu.

**14. CASGLIADAU**

Cafodd y Pwyllgor flwyddyn gymharol brysur, yn gweithio i ymateb i newidiadau mewn canllawiau wrth baratoi ar gyfer y cyfnod etholiadol newydd.

# 6
# Cod Ymddygiad –
# Adroddiad y Swyddog Monitro

**1.** Mae'n ofynnol i bob Cynghorydd Sir, Cynghorydd Tref/Cymuned ac Aelod Cyfetholedig gydymffurfio â'r **Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr** a fabwysiadwyd gan y Cyngor sy'n cydymffurfio â gofynion gorfodol y Cod Ymddygiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**2.** Dylid anfon cwynion yn ymwneud â honiad bod Cynghorydd Sir wedi torri'r Cod at yr Ombwdsmon yn uniongyrchol a/neu at Swyddog Monitro'r Cyngor

**3.** Mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi canllawiau ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar sut i wneud cwyn am aelod etholedig ar Daflen Ffeithiau.

**4.** Mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fodiwlau hyfforddiant e-ddysgu ar gael i Gynghorwyr ar Academi Cymru Gyfan, gan gynnwys Moeseg a Safonau (Datblygiad Cynghorwyr), a Chanllawiau ynglŷn â'r Cyfryngau Cymdeithasol.

**5.** Cyhoeddodd Panel Dyfarnu Cymru Ganllawiau ar Gosbau yn ystod 2019

**6.** Caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru benderfynu y dylai'r Swyddog Monitro ymchwilio i gŵyn, neu caiff ofyn i Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor wneud penderfyniad.  Mae'r opsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys dim camau pellach, cerydd ac atal dros dro am hyd at 6 mis.

**7.** Os yw'r Ombwdsmon yn ymchwilio i honiad o dorri'r Cod ac yn dod i'r casgliad bod hyn wedi digwydd, bydd yr Ombwdsmon yn anfon adroddiad o'i ganfyddiadau ymlaen at y Swyddog Monitro ac at y Cynghorydd dan sylw.

**8.** Os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod yr achos yn un difrifol, yna ceir anfon y mater ymlaen at Banel Dyfarnu Cymru sydd â'r pŵer i anghymhwyso cynghorydd am hyd at 5 mlynedd.

**9.** Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) | 2021 Gydsyniad Brenhinol yn ystod 2020/21. Mae adran 62 y Ddeddf yn amlinellu dyletswyddau ychwanegol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol, i gynnal safonau ymddygiad, a fydd mewn grym o fis Mai 2022.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO**

**1.Cwynion a gafwyd**

**BLYNYDDOEDD BLAENOROL**

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r cwynion a gafwyd rhwng 2018-2021:

| **Cynghorwyr Sir** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
|---|---|---|---|
| Aelod ar Aelod | **0** | **0** | **1** |
| Y Cyhoedd ar Aelod | **9** | **3** | **11** |
| Swyddog ar Aelod | **4** | **8** | **4** |
| Hunanatgyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | **0** | **0** | **0** |
| | **Cyfanswm: 13** | **Cyfanswm: 11** | **1** |
| | | | **Cyfanswm: 17** |
| **Cynghorwyr Tref/ Cymuned** | | | |
| Aelod ar Aelod | **0** | **2** | **1** |
| Y Cyhoedd ar Aelod | **4** | **2** | **4** |
| | | | |
| | **Cyfanswm: 4** | **Cyfanswm:13** | **Cyfanswm:5** |

**BLWYDDYN GYFREDOL: 2021/2022**
Dygwyd ymlaen: x 3

Ystyriodd y Swyddog Monitro 16 o gwynion yn erbyn Aelodau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

O’r rhain:


- roedd 10 yn erbyn Cynghorwyr Sir
- roedd 6 yn erbyn Cynghorwyr Tref/ Cymuned.

**Tarddiad y cwynion:**

| **Cynghorwyr Sir** | **Nifer y cwynion a gafwyd** |
|---|---|
| Aelod ar Aelod | **1** |
| Y Cyhoedd ar Aelod | **4** |
| Swyddog ar Aelod | **5** |
| | |
| Clerc y Cyngor Tref/Cymuned | **0** |
| **Cyfanswm** | **10** |
| | |
| **Cynghorwyr Tref/ Cymuned** | |
| Aelod ar Aelod | **4** |
| Y Cyhoedd ar Aelod | **1** |
| Swyddog | **1** |
| Clerc | **0** |
| **Cyfanswm** | **6** |
| | |

**Cosbau a argymhellwyd gan y Swyddog Monitro:**

- ymddiheuriad
- hyfforddiant
- cyngor/atgoffâd o rwymedigaethau Cynghorydd dan y Cod




Dylid nodi nad yw cwynion gan Swyddogion yn erbyn Aelodau bob tro yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gan y Swyddog dan sylw, gan efallai na fydd yr unigolyn hwnnw yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol. Pan gaiff y pryderon eu dwyn i sylw'r Swyddog Monitro/y Prif Weithredwr, ymdrinnir â'r achosion hynny gan y Swyddog Monitro (ac os ydyw'n briodol, gan y Prif Weithredwr) a fydd, o bosib, yn gwneud ymholiadau ac yn rhoi cyngor/cymryd camau fel y bo'n briodol.

Bydd y Swyddog Monitro yn ymchwilio yn ôl yr angen.

## 2. Hysbysiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| | | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| | Cwynion a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 7 | 6 | 4 |
| **Cyngor Sir** | O'r rhain: Gwrthodwyd Ymchwilio/Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol: | 4<br>2 | 5<br>5 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhoddwyd y gorau i'r ymchwiliad: | 0<br>1 | 0<br>0 | |
| | Dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri: | 1 | 1 | |
| **Cyngor Cymuned** | | | | |
| | O'r rhain:<br>Gwrthodwyd Ymchwilio/Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol: | 3<br><br><br><br>3 | | |
| | Rhoddwyd y gorau i'r ymchwiliad: | 0 | | |
| | Dim Tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri: | 0 | | |
| | Dim rhagor o gamau: | 0 | | |
| | O'r rheini yr ymchwiliwyd iddynt, arweiniasant at gosbau<br>Arweiniasant at ddim cosb<br><br>Roedd y cosbau a roddwyd/camau a gymerwyd yn cynnwys: rhoddwyd cyngor i un o'r aelodau y dylai newid ei ymddygiad | <br><br><br>0<br>0 | | |

**Hysbyswyd y Swyddog Monitro o'r cwynion canlynol:**

**BLWYDDYN GYFREDOL 2021/22**
**Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod 8 cwyn:**

**O’r rhain:**
**Cyngor Sir: 6**
**Cyngor Tref/Cymuned 2**

| | |
|---|---|
| Atgyfeirio Cynghorydd gan y Swyddog Monitro at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (mater a ddygwyd ymlaen) | **1 Cyngor Tref/ Cymuned** |

| | **Cyngor Sir** | **Cyngor Tref/ Cymuned** |
|---|---|---|
| **O’r rhain: Gwrthodwyd Ymchwilio/Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol:** | **4** | **1** |
| **Rhoddwyd y gorau i’r ymchwiliad:**<br>**Nid oedd angen cymryd camau pellach**<br><br>**<u>Yn mynd rhagddi:</u>**<br>**<u>Wedi'i chofnodi fel cyn-asesiad</u>** | **0**<br>**0**<br><br>**2**<br><br>**1** | **0**<br>**0**<br><br>**0** |
| **Canlyniadau:**<br>• **Dim tystiolaeth bod y Cod wedi’i dorri**<br>• **Torri’r cod yn dechnegol**<br>• **Y cod wedi’i dorri** | **3**<br>**1**<br>**0**<br>**0** | **1**<br><br><br>**1** |

| | | |
|---|---|---|
| • **Atgyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru** | | |

**O’r rheini yr ymchwiliwyd iddynt:**

- **arweiniasant at gosbau : ymddiheuriad, hyfforddiant, atgoffâd o rwymedigaethau Cynghorydd o dan y Cod**
- **Arweiniodd 1 at ddim cosb**

**Er Gwybodaeth:**
**Adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021/22:**

**E. Cwynion sy’n ymwneud â’r Cod Ymddygiad ac sydd wedi eu cau**

| **Cynghorau Sir/Bwrdeistref Sirol** | **Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol** | **Rhoddwyd y gorau i’r ymchwiliad** | **Dim tystiolaeth bod y Cod wedi’i dorri** | **Dim angen gweithredu** | **Atgyfeirio at y Pwyllgor Safonau** | **Atgyfeirio at y Panel Dyfarnu** | **Tynnwyd yn ôl** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | | - | - | - | - | - | - | |

**F. Cod Cwynion Cyngor Tref/Cymuned**

| Cyngor Tref/Cymuned | Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Rhoddwyd y gorau i’r ymchwiliad | Dim tystiolaeth bod y Cod wedi’i dorri | Dim angen gweithredu | Atgyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Atgyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | - | - | - | | - | - | - | |

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar ddyddiad ysgrifennu'r adroddiad hwn
.

## 3.Natur y Cwynion

| | **Cyngor Sir** | **Cynghorau Tref a Chymuned** |
|---|---|---|
| **2017/18-2019** | Roedd mwyafrif y cwynion yn erbyn y Cynghorwyr Sir yn ymwneud â:<br>•Bwlio | Roedd y cwynion yn cynnwys:<br>•canfyddiad o ddiffyg tryloywder yng |

| | | |
|---|---|---|
| | •Diffyg parch/ ystyriaeth/ cwrteisi i eraill<br>•Diffyg didueddrwydd<br>•Defnydd amhriodol o bwerau dirprwyedig<br>•Gwrthdaro buddiannau<br>•Safonau Ymddygiad, gan gynnwys parcio amhriodol, oedi wrth dalu Treth y Cyngor<br>•Defnyddio eu sefyllfa fel cynghorwyr i sicrhau mantais<br>•Datgelu gwybodaeth gyfrinachol<br>•Methu ag ymateb i ymholiad<br>•Gweithredu heb awdurdod<br>•Defnydd amhriodol o bŵer dirprwyedig<br>•Methu â datgelu buddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu<br>•Safonau Ymddygiad e.e parcio amhriodol, sylwadau mewn cyfarfodydd a chyfathrebu amhriodol<br>•Ceisio amharu ar ddidueddrwydd y swyddogion<br>•Negeseuon ar y Cyfryngau Cymdeithasol gan y Cynghorwyr e.e. cwynion ynglŷn â'r swyddogion a'r gwasanaethau.<br>•Penderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. | nghyfarfodydd y Cyngor,<br>•gweithdrefnau amhriodol o ran y cyfarfodydd e.e. pleidleisio, cworwm, methu â chofnodi penderfyniadau mewn modd digonol, methu â chyhoeddi cofnodion a chofrestr buddiannau<br>•methu â datgelu buddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu<br>•gwahaniaethu<br><br>Roedd modd priodoli rhai o'r cwynion uchod i weithredoedd/diffygion y clercod. |
| **2019/20** | •Negeseuon ar y Cyfryngau Cymdeithasol gan y Cynghorwyr<br>•Methu â datgelu buddiant<br>•Defnydd amhriodol o bwerau dirprwyedig<br>•Diffyg parch/ ystyriaeth/ cwrteisi i swyddogion – gan gynnwys cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu/Craffu<br>•Diffyg parch at Gadeirydd cyfarfod cyhoeddus-Pwyllgor Craffu | |

| | | |
|---|---|---|
| | •sylw amhriodol ynglŷn â'r Swyddogion | |
| **2020/21** | •Negeseuon ar y Cyfryngau Cymdeithasol gan y Cynghorwyr<br>•Ymddygiad amhriodol<br>•Diffyg parch/ystyriaeth/agwedd<br>•Penderfyniad cynllunio<br>•rhegi<br>•Rhoi enw drwg i'r Cyngor<br>•Diwylliant gwael<br>•Methu â datgelu buddiant<br>•Niwsans/aflonyddu<br>•Ymosodiad corfforol<br>•methu â datgelu buddiannau sy'n rhagfarnu<br>•datgelu gwybodaeth gyfrinachol<br>•methu â gweithredu | •canfyddiad o ddiffyg tryloywder yng nghyfarfodydd y Cyngor,<br>•gweithdrefnau amhriodol o ran y cyfarfodydd e.e. pleidleisio, cworwm, methu â chofnodi penderfyniadau mewn modd digonol, methu â chyhoeddi cofnodion a chofrestr buddiannau<br>•methu â datgelu buddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu<br>•Gwahaniaethu-rhagfarn ar sail rhyw, rhagfarn ar sail oedran<br>•Euogfarn droseddol<br>•Methu â hunan-adrodd honiadau/euogfarnau troseddol<br>•Diwylliant gwael<br>•rhegi<br>•Diffyg parch/ystyriaeth/agwedd<br>•Ymddygiad bygythiol<br><br>Roedd modd priodoli rhai o'r cwynion uchod i weithredoedd/diffygion y clercod. |

**<u>2021/2022</u>**

- Negeseuon ar y Cyfryngau Cymdeithasol gan y Cynghorwyr
- Diwylliant/agwedd gwael

- rhegi
- Diffyg parch/ystyriaeth-swyddogion/clerc
- Bwlio
- Lledaenu gwybodaeth ffug
- Ymddygiad bygythiol
- Diffyg parch/ystyriaeth/ cwrteisi i swyddogion
- Ymddygiad amhriodol
- Gwahaniaethu-grŵp lleiafrifol
- mae iaith amharchus, anghwrtais neu sarhaus gan Gynghorwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus wedi cynyddu-mwy o regi.
- Mynd i du hwnt i'r rôl
- Galwadau afrealistig ar swyddogion
- Ymddygiad anodd
- Methiant canfyddedig i ddatgan buddiant
- Ymddygiad rhywiol amhriodol
- Aflonyddu
- Rhoi enw drwg i'r swydd neu'r awdurdod
- Methiant canfyddedig i weithredu
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol-cyfryngau cymdeithasol/cyfarfod cyhoeddus
- Euogfarn droseddol
- Methiant i wrando ar gyngor
- Diffyg didueddrwydd
- Defnydd amhriodol o adnoddau'r Cyngor
- Diffyg proses ddemocrataidd
- Yn destun proses Ddiogelu
- Sylwadau hiliol
- Perthnasoedd negyddol

**4. Cyngor y Swyddog Monitro**

Mae'r Swyddog Monitro yn rhoi cyngor anffurfiol ar lafar yn rheolaidd, neu'n ysgrifenedig i Gynghorwyr Sir ar amrywiol faterion yn y Cod ymddygiad gan gynnwys buddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu. Rhoddir y cyngor hwn ar lafar, neu'n ysgrifenedig.

Gall cyngor fod yn fesur ataliol, neu wrth ragweld toriad posib o'r Cod Ymddygiad, neu yn dilyn toriad o'r Cod Ymddygiad wrth ystyried lliniaru. Weithiau ceir rhoi cyngor i Gynghorwyr Tref/Cymuned Cynghorwyr Tref/Cymuned Disgwylir y bydd Cynghorwyr Tref/Cymuned yn ymgynghori â'u clerc yn y lle cyntaf.

Mae’r ymholiadau yn cynnwys cyngor ynglŷn â’r canlynol:

- Proses/gweithdrefn cyfarfod
- gwrthdaro buddiannau
- torri'r Cod Ymddygiad
- proses gwyno

Ceir hefyd rhoi cyngor i glercod i Gynghorau Tref/cymuned, dros y ffôn, e-bost neu wyneb yn wyneb. Mae'r mwyafrif o Gynghorau Tref/Cymuned yn ardal Ceredigion wedi ymaelodi ag Un Llais Cymru

| | Cyngor Ffurfiol | Rhybudd Anffurfiol | Rhybuddion Ffurfiol (e-bost/ llythyr) | Cyfarfodydd wyneb yn wyneb ag aelodau'r cyhoedd | Cynhaliwyd cyfarfod wyneb yn wyneb â chlerc tref/cymuned | Proses/gweith drefn cyfarfod | Gwrthdaro buddiannau | Arall | Cosbau | Proses Datrysiad Lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018-19 Cynghorwyr Sir | 5 | 0 | 1 | | | | | | | |
| 2018-19 Cyngor Tref a Chymuned | 5 | 0 | 0 | 1 | 1 | | | | | |
| 2019-20 Sir Cynghorwyr | 3 | Niferus/ Amrywiol | 1 | | | | | Mae rhai materion a ystyriwyd gan y swyddog Monitro yn ymwneud â chyngor rhagataliol gan y swyddog Monitro mewn perthynas â datgelu buddiannau: X 6. | ymddiheuriad aelod yn ysgrifenedig i'r swyddog neu'r aelod<br><br>ymddiheuriad aelod i'r swyddog neu'r aelod mewn cyfarfod cyhoeddus | |
| 2019-20 Cyngor Tref Cymuned Cynghorau | | 2 | | | | | | | Mae’r ymholiadau yn cynnwys cyngor ynglŷn â’r canlynol: Proses/gweithdrefn cyfarfod cyhoeddus gwrthdaro buddiannau ymddygiad cynghorydd | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | cyfarfodydd ag aelodau o'r cyhoedd: 0 | |
| 2020-21 Cyngor Sir | 4 | 1<br><br>cyngor anffurfiol - niferus/ amrywiol. Mae rhai materion a ystyriwyd gan y swyddog Monitro yn ymwneud â chyngor rhagataliol gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â datgelu buddiannau | 1 | | | | | | | 1 |
| 2021-22 Cynghorau Tref a Chymuned | | | | | | | | Rhoddwyd cyngor hefyd i glercod Cynghorau Tref/Cymuned, ac aelodau'r cyhoedd. | | |

**Blwyddyn gyfredol 2021-22**
•cyngor anffurfiol- niferus/amrywiol.
Mae rhai materion a ystyriwyd gan y swyddog Monitro yn ymwneud â chyngor rhagataliol gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â datgelu buddiannau

- cyngor ffurfiol : 3
- rhybuddion anffurfiol: niferus
- rhybuddion ffurfiol (e-bost/llythyr): 3
- Gweithdrefn Datrysiad Lleol: 0

Roedd y cosbau'n cynnwys:

- ymddiheuriad aelod yn ysgrifenedig i'r swyddog neu'r aelod
- ymddiheuriad aelod i'r swyddog neu'r aelod mewn cyfarfod cyhoeddus

Cyngor/atgoffâd o rwymedigaethau Cynghorydd dan y Cod

Hyfforddiant ee diogelu, cyfryngau cymdeithasol, amrywiaeth

**5. Y Pwyllgor Moeseg a Safonau -Paneli Gwrandawiadau**

- Ni atgyfeiriwyd yr un achos a oedd yn ymwneud â Chynghorydd Cyngor Sir Ceredigion at y Pwyllgor yn ystod 2021/22.

- Ni atgyfeiriwyd yr un achos a oedd yn ymwneud â'r Cynghorau Tref/Cymuned at y Pwyllgor yn ystod 2021/22.

**6.Panel Dyfarnu Cymru**

- Ni atgyfeiriwyd yr un achos a oedd yn ymwneud â Chyngor Sir Ceredigion gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Banel Dyfarnu Cymru yn ystod 2021/22.
- Ni atgyfeiriwyd yr un achos a oedd yn ymwneud â Chynghorau Tref/Cymuned Ceredigion at Banel Dyfarnu Cymru yn ystod 2021/22.

**7. Atgyfeiriadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Swyddog Monitro i ymchwilio iddynt yn ystod 2021/22**

Ni atgyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yr un achos at y Swyddog Monitro i ymchwilio iddynt yn ystod 2021/22.

**2021/22**

**Crynodeb**

- Mae safon ymddygiad Aelodau Cyngor Sir Ceredigion i'w chanmol yn gyffredinol.
- Cafwyd cwynion gan Aelodau yn erbyn Aelodau.
- Cafwyd cwynion gan aelod o'r cyhoedd yn erbyn Aelodau
- Cafwyd cwynion gan swyddogion yn erbyn Aelodau

- Er bod bwlio, bygythion a/neu ddiffyg parch/cwrteisi yn parhau'n broblem, mae'r berthynas rhwng Swyddogion Cyngor Sir

Ceredigion a'r Aelodau wedi gwella, a bu llai o achosion o fwlio, bygythion a/neu ddiffyg parch/cwrteisi nag o'r blaen.

- Mae enghreifftiau o iaith amharchus, anghwrtais neu sarhaus gan Gynghorwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus wedi cynyddu-mwy o regi.
- Mae angen i gynghorwyr fod yn arbennig o ofalus wrth ddefnyddio iaith yn ystod cyfarfodydd o bell, gyda mwy o ddefnydd o feicroffonau a llai o ymwybyddiaeth o sylwadau yn cael eu clywed ar ddamwain
- Mae'r Cynghorwyr gan fwyaf yn ymwybodol o'r angen i ddatgelu buddiannau gan wneud hynny mewn modd amserol a phriodol. Gofynnir am gyngor oddi wrth y Swyddog Monitro ar yr adegau priodol.
- Mae'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol fel fforwm i Gynghorwyr wneud sylwadau/mynegi barn yn parhau i gynyddu. Mae hyn ar rai achlysuron wedi rhoi enw drwg i'r Cyngor.
- Mae'r Swyddog Monitro yn parhau i argymell bod yr holl Aelodau yn cael hyfforddiant diweddaru ar y cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â diogelu data (gan gynnwys cyfrifoldeb y Cynghorwyr fel rheolwyr data).
- Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nododd y Swyddog Monitro y byddai rhai o'r Cynghorwyr Sir yn elwa o hyfforddiant diweddaru /hyfforddiant ychwanegol ynglŷn â diogelu
- Mae angen i'r Aelodau fod yn fwy ymwybodol o'r angen i:
    - ystyried a oes ganddynt fuddiant, a
    - datgelu buddiannau wrth gyfathrebu/gohebu â swyddogion.

## 8. Gohebiaeth gydag Arweinwyr y Grwpiau

Mae Arweinwyr y Grwpiau bellach yn cael copïau o achosion a gwybodaeth berthnasol. Mae Arweinwyr y Grwpiau yn mynychu'r Pwyllgor o leiaf unwaith y flwyddyn.

## 9. Diweddariad blynyddol ar y Gofrestr Buddiannau

Cylchredwyd e-bost yn dwyn dyddiad 01 Ebrill 2021 oddi wrth y Swyddog Monitro at yr Aelodau yn gofyn iddynt gynnal adolygiad blynyddol o'u Llyfryn Cofrestr Buddiannau, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Felly gofynnwyd i'r aelodau adolygu fersiwn ar-lein eu Cofrestr Buddiannau am y flwyddyn gyfan 2020/21 (1/4/20-31/3/21):

- Os nad oedd dim buddiannau newydd/newidiadau, e-bostiodd yr Aelodau i gadarnhau "Dim newidiadau."

- Os oedd buddiannau newydd/newidiadau, e-bostiodd yr Aelodau i gadarnhau bod newidiadau, a rhoddasant fanylion y newidiadau hyn.

Ail-lofnodwyd ac ail-ddyddiwyd y llyfrynnau gwreiddiol ac adolygwyd pob ateb, a llyfryn gan y Swyddog Monitro

Arolygir y trefniadau hyn yn rheolaidd gan archwilwyr allanol.

**10. Covid 19 – Grantiau busnes**

Gofynnwyd i bob Cynghorydd, a/neu aelod annibynnol cyfetholedig, wneud datganiad os oeddent hwy, neu unrhyw un sy'n ymwneud â rhedeg a/neu reoli busnes yn gyffredinol, (neu rywun sy'n bartner personol agos iddynt), hyd eithaf eu gwybodaeth, wedi gwneud cais am Grant Cymorth i Fusnesau, Grantiau Cyfnod Clo Uwch ar gyfer busnesau neu Gronfa Busnes Cyfyngiadau Grant Trethi Annomestig ar gyfer busnesau. Gofynnwyd am bob datganiad erbyn dyddiad cau'r ceisiadau.

**11. Cofrestr Lletygarwch**

Yn ystod 2021/22 ni chafwyd dim datganiadau lletygarwch gan Gynghorwyr.

# 7

# Prosesau Datrysiad Lleol

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi nodi, yn ei Ganllawiau i Aelodau ar y Cod Ymddygiad, ei fod yn disgwyl i awdurdodau lleol ledled Cymru roi gweithdrefnau datrysiad lleol ar waith i ymdrin â chwynion lefel isel a wneir gan aelod yn erbyn cyd-aelod.

Bydd cwynion a gaiff eu hystyried o dan weithdrefn o’r fath fel arfer yn ymwneud â methiannau honedig i ddangos parch ac ystyriaeth at eraill (paragraff 4(b) y Cod) neu’r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill (paragraff 6(1)(d) y Cod).

Caiff aelodau barhau i gwyno'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon am gyd-aelod, ond mae cwynion sy'n ymwneud â pharagraffau uchod y Cod Ymddygiad yn debygol o gael eu hatgyfeirio at yr Awdurdod i'w hystyried dan weithdrefn datrysiad lleol.

Mae’r Ombwdsmon yn credu y bydd datrysiad anffurfiol a lleol i gwynion o’r fath yn:-

(a) cyflymu’r broses gwyno
(b) sicrhau bod adnoddau'n cael eu neilltuo i ymchwilio i gwynion difrifol
(c) datrys materion yn gynnar er mwyn osgoi gwaethygu’r sefyllfa’n ddiangen a allai niweidio perthnasoedd personol o fewn awdurdod ac enw da awdurdod

Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi mynegi’r farn bod lle i ddull gweithredu mwy lleol o ddatrys cwynion lefel isel ac y dylai prosesau o’r fath gael eu rhoi ar waith gan bob awdurdod lleol cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Pe na bai gweithdrefnau’n cael eu mabwysiadu’n wirfoddol gan awdurdodau lleol, mae’n debygol y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno mesurau statudol ar gyfer gweithdrefn orfodol. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi ei bwriad i ddileu’r rhwymedigaeth ar Aelodau ym mharagraff 6(1)(c) y Cod i roi gwybod am achosion posibl o dorri’r Cod i’r Ombwdsmon.

Mynychodd Arweinwyr y Grwpiau gyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 2 Gorffennaf 2013 a chytunwyd y byddai proses syml yn cynnwys Arweinwyr Grwpiau yn y lle cyntaf, gyda'r opsiwn i ymgynghori gyda'r Swyddog Monitro ac aelod annibynnol pe byddai'r mater yn parhau heb ei ddatrys, yn addas ar gyfer Ceredigion.

Cytunodd y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn cysylltu ag Un Llais Cymru ynghylch y datganiad yn ei ganllawiau mewn perthynas â'r materion y mae'n rhaid eu hatgyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys "Cwynion blinderus, maleisus neu wamal"; gan fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi bod yn dweud wrth Gynghorau nad oedd am weld cynnydd yn y mathau hyn o achosion. Cysylltodd y Swyddog Monitro ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd ar y mater. Y canlyniad oedd i Un Llais Cymru ddiwygio ei Brotocol Datrysiad Lleol Enghreifftiol.

Adolygwyd y Weithdrefn Datrysiad Lleol yn ystod 2021, ac fe'i nodwyd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar Fedi 17eg 2021 yn amodol ar ddileu'r llinell fel gydag "aelodau amhleidiol neu ddigysylltiad" ym mharagraff 3.6 protocol Ceredigion.

Byddai'r broses yn golygu atgyfeirio at Arweinwyr perthnasol y Grwpiau (neu at Gadeirydd y Cyngor os bydd cwyn yn erbyn Arweinydd Grŵp neu aelod digysylltiad), a fyddai'n ceisio datrys y mater yn y lle cyntaf. Pe byddai'r mater yn parhau heb ei ddatrys, gallai Arweinwyr y Grwpiau ymgynghori â'r Swyddog Monitro ac aelod unigol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau pe bai angen.

**Dyma Weithdrefn Datrysiad Lleol yr Aelodau.**

## "1. Egwyddorion Cyffredinol

1.1 Mae'r Cyngor yn dymuno hybu safonau uchel o ymddygiad fel modd o gryfhau parch ac ymddiriedaeth ymhlith aelodau. Nid yw'r weithdrefn hon wedi'i bwriadu i gymryd lle'r Cod Ymddygiad, yn hytrach ei bwriad yw eistedd ochr yn ochr â'r Cod, gan alluogi delio

yn gyflym ac yn effeithiol ag ymddygiad na fydd o bosibl yn cyrraedd trothwy'r atgyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

1.2 Nid yw'r weithdrefn hon yn disodli'r Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

1.3 Bydd Aelodau'n gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys anghydfodau yn anffurfiol a thrwy brosesau mewnol y cytunwyd arnynt, yn amodol ar eu rhwymedigaethau o dan God Ymddygiad yr Aelodau.

1.4 Atgyfeirir at reoleiddwyr allanol pan fetho popeth arall, yn amodol ar rwymedigaethau aelodau o dan y Cod Ymddygiad.

1.5 Bydd aelodau'n osgoi gwrthdaro personol mewn unrhyw fforwm cyhoeddus, yn enwedig y Cyngor llawn a thrwy'r cyfryngau.

1.6 Ni fydd yr ymrwymiadau hyn yn rhwystro dadl wleidyddol na chraffu cyfiawn.

1.7 Bydd disgyblaeth grwpiau yn dod yn gonglfaen hunanreoleiddio, gydag Arweinwyr Grwpiau yn cymryd cyfrifoldeb am eu haelodau eu hunain.

1.8 Bydd Arweinwyr Grwpiau yn unigol ac ar y cyd yn gweithio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r weithdrefn hon.

1.9 Bydd aelodau'n ymrwymo i hyfforddi a datblygu i gefnogi'r weithdrefn hon.

## 2. <u>Gweithio i osgoi problemau</u>

2.1 Er mwyn lleihau nifer yr achosion honedig o dorri’r Cod Ymddygiad, mae aelodau wedi:

(i) penderfynu mabwysiadu Strategaeth Datblygu Aelodau - gwneir pob ymdrech resymol i sicrhau bod y Strategaeth Datblygu Aelodau yn nodi anghenion aelodau ac yn ymateb iddynt.

(ii) ymrwymo i fynychu digwyddiadau hyfforddi aelodau perthnasol ac yn arbennig y rheini sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

(iii) dangos ymrwymiad i gael Breinlen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr a chefnogi ei hamcanion.

## 3. Rôl Arweinwyr Grwpiau

3.1 Bydd cwyn gan aelod yn ymwneud ag aelod o'r un grŵp yn cael ei hatgyfeirio at Arweinydd y Grŵp. Bydd cwyn gan aelod ynglŷn â gweithgareddau aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol yn cael ei thrafod gydag Arweinydd Grŵp yr achwynydd ei hun, a fydd wedyn yn atgyfeirio'r mater at Arweinydd y Grŵp sy'n gyfrifol am yr aelod y gwneir y gŵyn yn ei erbyn.

3.2 Ar ôl cael cwyn, rôl Arweinwyr y Grwpiau yw cymryd cyfrifoldeb am ddisgyblaeth o fewn eu grwpiau. Dylai disgyblaeth grŵp fod yn anffurfiol a dylid datrys anawsterau trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb lle bo modd. Bydd angen i Arweinwyr Grwpiau gadw rhai cofnodion, ond ni fydd y broses yn un "drom o ran dogfennau". Dylai'r pwyslais fod ar hyfforddiant, addysg, cyfryngu a chymodi.

3.3 Pan fo'n briodol, ceir defnyddio cosb megis tynnu aelod oddi ar bwyllgor neu gorff allanol mewn achosion eithafol neu ar ôl toriadau cyson a cheir atgyfeirio'r mater hefyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3.4 Cyn ystyried unrhyw gosb neu hyfforddiant, caiff Arweinydd y Grŵp perthnasol ymgynghori ag aelod annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar y cyd â'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro. Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ceisio sicrhau tegwch a chysondeb yn y ddisgyblaeth a osodir o fewn pob Grŵp.

3.5 Yng nghyfarfod nesaf Arweinwyr y Grwpiau, bydd unrhyw fater o ddisgyblaeth sydd wedi'i atgyfeirio at Arweinydd Grŵp yn cael ei drafod gyda'r Grŵp, gyda'r nod o geisio sicrhau bod cosbau teg a chyson yn cael eu gweithredu.

3.6 Lle bo'r gŵyn yn ymwneud ag Arweinwyr y Grwpiau eu hunain, gofynnir i Gadeirydd y Cyngor ystyried y gŵyn, fel gydag aelodau amhleidiol neu ddigysylltiad, a chaiff y Cadeirydd ymgynghori ag aelod annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar y cyd â'r Swyddog Monitro neu Ddirprwy Swyddog Monitro.

**4. Aelodau Amhleidiol neu Ddigysylltiad**

4.1 Cyn belled ag y mae aelodau amhleidiol neu ddigysylltiad yn y cwestiwn, bydd y Cadeirydd yn cyflawni rôl "Arweinydd Grŵp". Dylid atgyfeirio pryderon ynghylch ymddygiad aelod digysylltiad at y Cadeirydd a fydd yn gweithredu’r un egwyddorion a safonau â rheini Arweinwyr y Grwpiau o ran hyfforddiant, addysg, cyfryngu a chymodi.”

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar Adolygu’r Protocol Datrys Anghydfodau Lleol yng nghyfarfod mis Medi. Dywedwyd y gofynnwyd i'r awdurdodau, mewn cyfarfod diweddar o Rwydwaith y Swyddogion Monitro, rannu eu Gweithdrefn Datrysiad Lleol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddai hyn yn rhoi cyfle i gymharu a chyferbynnu pob Gweithdrefn Datrysiad Lleol gyda'r bwriad o'u diwygio.

Bwriadwyd i'r Weithdrefn Datrys Leol eistedd ochr yn ochr â'r Cod, gan alluogi delio yn gyflym ac yn effeithiol ag ymddygiad na fydd o bosibl yn cyrraedd trothwy'r atgyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Rhoddwyd ystyriaeth i Weithdrefn Datrysiad Lleol a siart lif Cyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd yng nghyfarfod mis Medi. Dywedwyd bod Un Llais Cymru hefyd wedi cynhyrchu canllawiau i gynorthwyo cynghorau tref a chymuned i'w cefnogi gyda'r broses datrysiad lleol

Dywedwyd y byddai canlyniadau'r adolygiad a oedd yn cael ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor maes o law.

CYTUNWYD i:
(i) i nodi'r protocol a gyflwynwyd;
(ii) i gael gwared â’r llinell fel gydag “aelodau amhleidiol neu ddigysylltiad” ym mharagraff 3.6 protocol Ceredigion
(iii) bod y Cadeirydd yn cysylltu ag Un Llais Cymru ynghylch y datganiad yn ei ganllawiau mewn perthynas â'r materion y mae'n rhaid eu hatgyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys “Cwynion blinderus, maleisus neu wamal”; gan fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi bod yn dweud wrth Gynghorau nad oedd am weld cynnydd yn y mathau hyn o achosion;
(iv) bod y Swyddog Monitro yn cysylltu ag Ombwdsmon

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y mater a godwyd

Y canlyniad oedd y byddai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn awgrymu y dylid diwygio protocol Un Llais Cymru

# 8

# Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi dyletswyddau newydd i arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r pwyllgorau safonau, sef adran 62 ac adran 63.

O ran dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad, (Adran 52A Deddf Llywodraeth Leol 2000) mae'n datgan bod yn rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir yng Nghymru gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp; a bod yn rhaid iddo gydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor.

Yn adran 54 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), mae gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru hefyd swyddogaethau penodol—
(a) monitro i ba raddau mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1), a
(b) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

Mae adran 63 yn mewnosod y gofynion ar gyfer adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau. Yn ogystal â disgrifio sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni, rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys yr hyn a wnaed i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan adran 54 neu 56. Rhaid i adroddiad blynyddol gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru gynnwys asesiad y pwyllgor ynghylch i ba raddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A (1). Caiff yr adroddiad blynyddol hefyd gynnwys argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn perthynas ag ef.

Gwahoddwyd arweinwyr gwleidyddol Cyngor Sir Ceredigion bob blwyddyn i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i drafod y dulliau o hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion.

Bellach mae'n angenrheidiol i Arweinwyr Grwpiau ystyried y dyletswyddau ychwanegol arnynt i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp; a sut i gydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor, a sut y gellir dangos tystiolaeth o hyn.

Yng nghyfarfod Ionawr 2022 gwahoddwyd arweinwyr y pleidiau i'r cyfarfod i drafod y dulliau o hybu a chynnal safonau uchel drwy ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion i gynnwys y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan Adrannau 62-63 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd Grŵp Plaid Cymru), y Cynghorydd Ray Quant (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd y Grŵp Annibynnol) a'r Cynghorydd Ceredig Davies (Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol a'r wrthblaid) am fynychu'r cyfarfod i gyfnewid safbwyntiau ar hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad yng Ngheredigion.

Dywedwyd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi dyletswyddau newydd i arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r pwyllgorau safonau ac yn cynnwys yr adrannau perthnasol, sef adran 62 ac adran 63.
O ran dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad, (Adran 52A Deddf Llywodraeth Leol 2000) mae'n datgan bod yn rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir yng Nghymru gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp; a bod yn rhaid iddo gydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor.
Yn adran 54 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), mae gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru hefyd swyddogaethau penodol—
(a) monitro i ba raddau mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1), a
(b) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny

Dywedwyd bod arweinwyr gwleidyddol Cyngor Sir Ceredigion yn cael eu gwahodd bob blwyddyn i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i drafod y dulliau o hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion. Dywedwyd bod angen bellach i Arweinwyr Grwpiau ystyried y dyletswyddau ychwanegol sydd arnynt i gymryd camau rhesymol i

hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp; a sut i gydweithio â phwyllgor safonau’r cyngor, a sut y gellir dangos tystiolaeth o hyn. Dywedodd yr arweinwyr gwleidyddol eu bod yn croesawu'r arweiniad hwn, gan ei fod yn gyfeiriad iddynt gadarnhau eu bod yn cadw at y safonau.

Pwysleisiodd holl Arweinwyr y Cyngor bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor yn hybu safonau uchel o ymddygiad a chroesasant yr hyfforddiant a fyddai’n cael ei gynnal ym mis Mai 2022, yn dilyn yr etholiadau ar y Cod Ymddygiad.

Amlygodd yr Arweinwyr hefyd yr angen i fynd i'r afael â materion ymddygiad mewn cyfarfodydd a gynhelir yn rhithwir, yn enwedig o ran safon ymddygiad Aelodau megis ateb y ffôn wrth fynychu'r cyfarfod.

# 9

# Blaenoriaethau’r Dyfodol

Y meysydd blaenoriaethol y bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn eu hystyried yn 2022/23:

- Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer clercod Cynghorau Tref a Chymuned cyn yr etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2022
- Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Sir yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2022
- Cyfarfod Blynyddol gydag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol
- Diweddaru Cofrestr Buddiannau’r Aelodau ar y System Gwasanaethau Democrataidd newydd, Modern.gov
- Dull gweithredu rhagweithiol o ran cydweithio â sefydliadau perthnasol eraill yn y maes safonau gan ddysgu am yr arferion gorau
- Bod Aelodau'r Pwyllgor yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau eraill y Cyngor i ddod yn gyfarwydd â’r trafodion a’r ymddygiad ac arsylwi arnynt.
- Gweithredu newidiadau a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau:
    - Rhan 4 Adran 62 Rhoddodd ymddygiad aelodau ddyletswyddau ychwanegol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol, i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, mewn grym o fis Mai 2022.
    - Ystyried Canllawiau Statudol
- Cwblhau Gweithdrefnau gwrandawiadau ac ymgymryd â hyfforddiant
- Penodi a Hyfforddi aelodau newydd o Gynghorau Tref/Cymuned
- Cynllunio ar gyfer Olyniaeth-aelod annibynnol newydd
- Ystyried dyletswyddau ychwanegol yn ymwneud â Chyd-bwyllgor Moeseg a Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru

# 10

# Mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau / Cysylltu â ni

## Mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld Aelodau'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau

Ac eithrio eitemau cyfrinachol, cynhelir yr holl fusnes yn gyhoeddus.

Cyhoeddir holl bapurau'r agenda gyhoeddus ar-lein 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/pwyllgorau/

## Cysylltu â ni

Os hoffech chi wybod mwy am y Pwyllgor Moeseg a Safonau neu wneud sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â ni:

Moeseg a Safonau
Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA

01545 570881
moesegasafonau@ceredigion.gov.uk

**Swyddog Monitro'r Cyngor:**
Swyddog Monitro
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

01545 570881
E-Bost: SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk

**Yr Ombwdsmon**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203 (pris galwad leol)
Ffacs: 01656 641199
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Gwefan: www.ombwdsmon.cymru

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 8

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

**ADRODDIAD I'R :** **Pwyllgor Moeseg a Safonau**

**DYDDIAD:** **25 Mai 2021**

**TEITL:** **Recriwtio Aelod Annibynnol**

**PWRPAS YR ADRODDIAD** **I'w benderfynu**

**CEFNDIR:**
Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys naw aelod:
5 x Aelod Annibynnol a
4 Cynghorydd ( 2 x Cynghorydd Sir, a 2 x Cynghorydd Tref a Chymuned).

Penodwyd y Cadeirydd cyfredol, Mrs Caroline White yn wreiddiol ar 30/7/2013 ac fe'i hailbenodwyd ar 30/7/2019 Bydd tymor ei swydd yn dod i ben ar 29/7/2023 Nid yw Mrs Caroline White bellach yn medru cael ei hailbenodi.

O ganlyniad bydd angen recriwtio Aelod Annibynnol newydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau er mwyn cynnal cyfansoddiad y Pwyllgor, fel y'i nodwyd yn y Cyfansoddiad ac fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

Mae'r weithdrefn a'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol wedi eu nodi yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (SI 2001/2283). Bydd hyn yn cynnwys:

- Pan fydd swydd wag am Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau bydd yr awdurdod perthnasol yn cyhoeddi hysbyseb mewn nid llai na dau bapur newydd (na chânt eu cyhoeddi gan yr awdurdod perthnasol) sy'n cael eu dosbarthu yn eu hardal.
- Cyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penodi.
- Bydd yn rhaid sefydlu Panel Dethol o nid mwy na phump aelod fydd yn cynnwys aelod lleyg o'r panel ac aelod o'r cyngor cymuned. Bydd y Panel yma'n ystyried pob cais, dilyn y meini prawf a gwneud argymhellion i'r Cyngor. Gwneir penodiadau gan ystyried argymhellion y Panel.

**ARGYMHELLIAD**
1. Bydd y disgrifiad swydd, manyleb personol a'r meini prawf ar gyfer penodi aelod annibynnol yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 1.

2. Bydd Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn (x5):

- Cadeirydd y Cyngor (yn absenoldeb yr Is-gadeirydd)
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu unrhyw aelodau annibynnol a enwebwyd gan y Swyddog Monitro fel y bo angen);
- Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned a enwebwyd gan Un Llais Cymru.
- Aelod Annibynnol / Lleyg o'r Panel (Cadeirydd y Panel Dethol) (enwebwyd gan y Swyddog Monitro);
  Ni all aelod annibynnol / lleyg y Panel fod yn aelod neu wedi bod yn etholedig neu swyddog i'r Cyngor Sir, nac unrhyw Gyngor arall, Awdurdod Parc

Cenedlaethol neu Gyngor Tref/ Cymuned. Argymhellir y dylai'r union aelod lleyg wnaeth gadeirio'r Panel Dethol blaenorol yn 2011, 2013, 2017 a 2021 gael eu henwebu (yn amodol ar fod ar gael).

**Y SEFYLLFA GYFREDOL:**
Gofynnir i Aelodau ystyried y meini prawf a'r dogfennau cysylltiedig ac awgrymu newidiadau fel y bo angen.

**ARGYMHELLIAD:** Argymell i'r Cyngor i gymeradwyo:

1) disgrifiad y rôl, y manyleb personol a'r meini prawf a nodwyd yn Atodiad 1), ac awgrymu newidiadau fel y bo angen;

2) Bydd Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:

- Cadeirydd y Cyngor (yn absenoldeb yr Is-gadeirydd)
- Aelod Annibynnol / Lleyg o'r Panel (enwebwyd gan y Swyddog Monitro);
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu unrhyw aelodau annibynnol a enwebwyd gan y Swyddog Monitro fel y bo angen);
- Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned a enwebwyd gan Un Llais Cymru.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**
Mae'r argymhellion yma'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y penodiadau priodol mewn lle yn unol â'r Cyfansoddiad.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Lisa Evans** |
| **Swydd:** | **Swyddog Craffu a Safonau** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | **28 Ebrill 2022** |
| **Acronymau:** | |

## Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Safonau

### 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

### 2 Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y pwyllgor Safonau.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol, llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau.
- Sicrhau gonestrwydd proses benderfyniadau'r pwyllgor a'ch rôl eich hun drwy gadw at y Cod Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor.

**Helpu'r Pwyllgor Safonau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol a chefnogi'r Cadeirydd drwy:**

- Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg Cynghorwyr, aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig.
- Helpu Cynghorwyr, aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig i arsylwi Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Gynghorwyr, aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau.
- Caniatáu eithriadau i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig.
- Ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Cyfrannu at ddatblygiad a chymhwysiad unrhyw brotocol datrys lleol.
- Arfer y swyddogaethau hyn (uchod) mewn perthynas â chynghorau cymuned ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.
- Cydweithio ag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.
- Monitro cydymffurfiad gan Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol â'r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp. Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn **(o fis Mai 2022 ymlaen).**
- Darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod yn disgrifio sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol **(adroddiad cyntaf mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23 yn ddyledus cyn gynted ag y bo modd ar ôl**

**diwedd y flwyddyn)**. Gall yr adroddiad gynnwys unrhyw fater o fewn swyddogaethau'r pwyllgor. Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- Sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol, ac yn benodol, sut y mae'r pwyllgor wedi monitro cydymffurfiad Arweinwyr Grwpiau â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp, a gwaith y Pwyllgor o ran cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn.
- I ba raddau y mae Arweinwyr Grwpiau wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.

## 3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU

## MANYLION PERSONOL

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau:** Nid oes angen cymwysterau na chefndir penodol. | | |
| **Gwybodaeth a Sgiliau:** | | |
| • Addysg dda | √ | |
| • Medru cyfathrebu'n dda yn ysgrifenedig ac ar lafar â sgiliau cwestiynu | √ | |
| • Y gallu i sgwrsio yn Gymraeg a Saesneg | | √ |
| • Dangos ymrwymiad a brwdfrydedd | | |
| • Medru bod yn bendant eich barn | √ | |
| • Y agored eich meddwl ac yn chwilfrydig, heb farnu ymlaen llaw | √<br>√ | |
| • Dealltwriaeth o brif swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau | √ | |
| • Dealltwriaeth gyffredinol o'r egwyddorion sy'n sail i safonau moesegol uchel mewn bywyd cyhoeddus a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau | √ | |
| • Gwybodaeth a dealltwriaeth o Lywodraeth Leol | | √ |
| **Profiad:** | | |
| • Diddordeb amlwg mewn materion lleol | | √ |
| • Profiad mewn gwaith pwyllgor ac atebolrwydd cyhoeddus | | √ |
| • Profiad mewn rôl yn y sector cyhoeddus | √ | |
| • Byw a/ neu'n gweithio yn Ceredigion | √ | |
| • Profiad mewn rôl sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus | | √ |
| **Gallu:** | | |
| • Unigolyn y gall y cyhoedd gael hyder yn eich gonestrwydd a'r gallu i fod yn ddiduedd | √ | |
| • Dangos safonau moesegol uchel | √ | |
| • Deall a chydymffurfio â gofynion cyfrinachedd | √ | |
| • Medru gwneud cyfraniad sylweddol i waith y Pwyllgor. | √ | |
| **Gofynion eraill:** | | |
| • Cytuno'n ffurfiol i gadw at y Cod Ymddygiad Lleol i Aelodau gan gynnwys cwblhau Datganiad Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill | √ | |
| • Medru mynychu cyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw a chyfarfodydd ad hoc fel y bo'n ofynnol, a rhoi amser i baratoi'n briodol cyn pob cyfarfod | √<br>√ | |
| • Ni ddylech fod wedi eich diarddel (yn unol â'r hynny a nodwyd yn y gofynion ar gymhwysedd). Ni ddylech feddu ar berthynas / contract â'r Cyngor na bod yn rhan o berthynas / contract yn y dyfodol lle byddwch chi'n elwa'n bersonol o'r sefyllfa | √ | |
| • Byddwch wedi datgelu i'r Cyngor unrhyw fater yn eich cefndir a all, petai'n gyhoeddus, olygu y bydd y Cyngor yn ailystyried eich penodiad | √<br>√ | |
| • Ni ddylech fod yn aelod gweithredol o unrhyw blaid wleidyddol na meddu ar broffil cyhoeddus o ran gweithgareddau gwleidyddol | √ | |
| • Ni fyddwch wedi bod yn swyddog nac yn aelod o Gyngor Sir | | |

| | | |
|---|---|---|
| [hynny yw Cyngor Sir neu Dref o fewn tri mlynedd o ddyddiad eich cais ysgrifenedig]<br>• Ymrwymiad i dymor o chwe mlynedd<br>• Medru asesu materion sy'n ymwneud â safonau moesegol a chlustnodi / arfarnu dulliau i'w datrys<br>• Medru gweithio'n dda gyda Chynghorwyr a meddu ar yr hyder i herio a'u dwyn i gyfrif mewn modd teg a diduedd. | √<br>√ | √ |

**<u>Pwyllgor Moeseg a Safonau – Person Annibynnol</u>**

**MANYLION PERSONOL – MEINI PRAWF**

**<u>Gofynion cymhwysedd</u>**

1. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr a hoffai gael eu penodi'n aelod annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fodloni'r meini prawf cymhwysedd er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn annibynnol o'r Cyngor. Dylai ymgeiswyr sicrhau :

   a) nad ydynt ar hyn o bryd yn aelod neu'n swyddog i

      - Gyngor Sir Ceredigion
      - Unrhyw Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol arall
      - Awdurdod Parc Cenedlaethol
      - Awdurdod Tân
      - Cyngor Tref neu Gymuned

   b) nad ydynt yn briod neu'n bartner sifil i unrhyw un o'r uchod

   c) nad ydynt yn gyn-aelod neu'n swyddog o Gyngor Sir Ceredigion

   d) na fu iddynt fod yn aelod neu swyddog o unrhyw Gyngor Sir, Cyngor Bwrdeistref Sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

**<u>Meini prawf ar gyfer y rôl</u>**

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus:-

1. Fod yn hyblyg a medru mynychu cyfarfodydd ar fyr rybudd

2. Meddu ar sgiliau gwrando da a sgiliau gweithio fel aelod o dîm

3. Medru dadansoddi deunyddiau ffeithiol a thystiolaeth a ffurfio barn gadarn a diduedd

4. Dangos gwrthrychedd, disgresiwn ac integriti personol

5. Dangos parch i eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiaeth

6. Meddu ar ddiddordeb a gwybodaeth o faterion lleol, datblygu cymunedau lleol a dealltwriaeth o lywodraeth leol

7. Cymryd rhan mewn hyrwyddo safonau moesegol uchel a chydymffurfio â gwasanaethau

8. Cymryd rhan mewn hyrwyddo safonau moesegol uchel a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a chyfrannu tuag at ymgymryd yn effeithio â rôl a chyfrifoldebau statudol y Pwyllgor Moeseg a Safonau
9. Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu a diwygio'r Cod Ymddygiad
10. Cynghori a hyfforddi Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau
11. Medru gweithio'n effeithiol gyda Chynghorwyr a Swyddogion mewn modd effeithiol
12. Meddu ar y gallu a'r hyder i herio a dwyn i gyfrif mewn dull teg a diduedd
13. Dangos ymrwymiad a brwdfrydedd

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

**ADRODDIAD I'R :** **Pwyllgor Moeseg a Safonau**

**DYDDIAD:** **25 Mai 2021**

**TEITL:** **Recriwtio Aelod Annibynnol**

**PWRPAS YR ADRODDIAD** **I'w benderfynu**

**CEFNDIR:**
Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys naw aelod:
5 x Aelod Annibynnol a
4 Cynghorydd ( 2 x Cynghorydd Sir, a 2 x Cynghorydd Tref a Chymuned).

Penodwyd y Cadeirydd cyfredol, Mrs Caroline White yn wreiddiol ar 30/7/2013 ac fe'i hailbenodwyd ar 30/7/2019 Bydd tymor ei swydd yn dod i ben ar 29/7/2023 Nid yw Mrs Caroline White bellach yn medru cael ei hailbenodi.

O ganlyniad bydd angen recriwtio Aelod Annibynnol newydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau er mwyn cynnal cyfansoddiad y Pwyllgor, fel y'i nodwyd yn y Cyfansoddiad ac fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

Mae'r weithdrefn a'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol wedi eu nodi yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (SI 2001/2283). Bydd hyn yn cynnwys:

- Pan fydd swydd wag am Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau bydd yr awdurdod perthnasol yn cyhoeddi hysbyseb mewn nid llai na dau bapur newydd (na chânt eu cyhoeddi gan yr awdurdod perthnasol) sy'n cael eu dosbarthu yn eu hardal.
- Cyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penodi.
- Bydd yn rhaid sefydlu Panel Dethol o nid mwy na phump aelod fydd yn cynnwys aelod lleyg o'r panel ac aelod o'r cyngor cymuned. Bydd y Panel yma'n ystyried pob cais, dilyn y meini prawf a gwneud argymhellion i'r Cyngor. Gwneir penodiadau gan ystyried argymhellion y Panel.

**ARGYMHELLIAD**
1. Bydd y disgrifiad swydd, manyleb personol a'r meini prawf ar gyfer penodi aelod annibynnol yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 1.

2. Bydd Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn (x5):

- Cadeirydd y Cyngor (yn absenoldeb yr Is-gadeirydd)
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu unrhyw aelodau annibynnol a enwebwyd gan y Swyddog Monitro fel y bo angen);
- Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned a enwebwyd gan Un Llais Cymru.
- Aelod Annibynnol / Lleyg o'r Panel (Cadeirydd y Panel Dethol) (enwebwyd gan y Swyddog Monitro);
  Ni all aelod annibynnol / lleyg y Panel fod yn aelod neu wedi bod yn etholedig neu swyddog i'r Cyngor Sir, nac unrhyw Gyngor arall, Awdurdod Parc

Cenedlaethol neu Gyngor Tref/ Cymuned. Argymhellir y dylai'r union aelod lleyg wnaeth gadeirio'r Panel Dethol blaenorol yn 2011, 2013, 2017 a 2021 gael eu henwebu (yn amodol ar fod ar gael).

**Y SEFYLLFA GYFREDOL:**
Gofynnir i Aelodau ystyried y meini prawf a'r dogfennau cysylltiedig ac awgrymu newidiadau fel y bo angen.

**ARGYMHELLIAD:** Argymell i'r Cyngor i gymeradwyo:

1) disgrifiad y rôl, y manyleb personol a'r meini prawf a nodwyd yn Atodiad 1), ac awgrymu newidiadau fel y bo angen;

2) Bydd Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:

- Cadeirydd y Cyngor (yn absenoldeb yr Is-gadeirydd)
- Aelod Annibynnol / Lleyg o'r Panel (enwebwyd gan y Swyddog Monitro);
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu unrhyw aelodau annibynnol a enwebwyd gan y Swyddog Monitro fel y bo angen);
- Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned a enwebwyd gan Un Llais Cymru.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**
Mae'r argymhellion yma'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y penodiadau priodol mewn lle yn unol â'r Cyfansoddiad.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Lisa Evans** |
| **Swydd:** | **Swyddog Craffu a Safonau** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | **28 Ebrill 2022** |
| **Acronymau:** | |

## Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Safonau

### 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

### 2 Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y pwyllgor Safonau.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol, llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau.
- Sicrhau gonestrwydd proses benderfyniadau'r pwyllgor a'ch rôl eich hun drwy gadw at y Cod Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor.

**Helpu'r Pwyllgor Safonau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol a chefnogi'r Cadeirydd drwy:**

- Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg Cynghorwyr, aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig.
- Helpu Cynghorwyr, aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig i arsylwi Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Gynghorwyr, aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau.
- Caniatáu eithriadau i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig.
- Ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Cyfrannu at ddatblygiad a chymhwysiad unrhyw brotocol datrys lleol.
- Arfer y swyddogaethau hyn (uchod) mewn perthynas â chynghorau cymuned ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.
- Cydweithio ag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.
- Monitro cydymffurfiad gan Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol â'r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp. Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn **(o fis Mai 2022 ymlaen).**
- Darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod yn disgrifio sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol **(adroddiad cyntaf mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23 yn ddyledus cyn gynted ag y bo modd ar ôl**

**diwedd y flwyddyn)**. Gall yr adroddiad gynnwys unrhyw fater o fewn swyddogaethau'r pwyllgor. Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- Sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol, ac yn benodol, sut y mae'r pwyllgor wedi monitro cydymffurfiad Arweinwyr Grwpiau â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp, a gwaith y Pwyllgor o ran cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn.
- I ba raddau y mae Arweinwyr Grwpiau wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.

### 3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU

## MANYLION PERSONOL

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau:** Nid oes angen cymwysterau na chefndir penodol. | | |
| **Gwybodaeth a Sgiliau:** | | |
| • Addysg dda | √ | |
| • Medru cyfathrebu'n dda yn ysgrifenedig ac ar lafar â sgiliau cwestiynu | √ | |
| • Y gallu i sgwrsio yn Gymraeg a Saesneg | | √ |
| • Dangos ymrwymiad a brwdfrydedd | √ | |
| • Medru bod yn bendant eich barn | √ | |
| • Y agored eich meddwl ac yn chwilfrydig, heb farnu ymlaen llaw | √ | |
| • Dealltwriaeth o brif swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau | √ | |
| • Dealltwriaeth gyffredinol o'r egwyddorion sy'n sail i safonau moesegol uchel mewn bywyd cyhoeddus a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau | √ | |
| • Gwybodaeth a dealltwriaeth o Lywodraeth Leol | | √ |
| **Profiad:** | | |
| • Diddordeb amlwg mewn materion lleol | | √ |
| • Profiad mewn gwaith pwyllgor ac atebolrwydd cyhoeddus | | √ |
| • Profiad mewn rôl yn y sector cyhoeddus | √ | |
| • Byw a/ neu'n gweithio yn Ceredigion | √ | |
| • Profiad mewn rôl sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus | | √ |
| **Gallu:** | | |
| • Unigolyn y gall y cyhoedd gael hyder yn eich gonestrwydd a'r gallu i fod yn ddiduedd | √ | |
| • Dangos safonau moesegol uchel | √ | |
| • Deall a chydymffurfio â gofynion cyfrinachedd | √ | |
| • Medru gwneud cyfraniad sylweddol i waith y Pwyllgor. | √ | |
| **Gofynion eraill:** | | |
| • Cytuno'n ffurfiol i gadw at y Cod Ymddygiad Lleol i Aelodau gan gynnwys cwblhau Datganiad Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill | √ | |
| • Medru mynychu cyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw a chyfarfodydd ad hoc fel y bo'n ofynnol, a rhoi amser i baratoi'n briodol cyn pob cyfarfod | √<br>√ | |
| • Ni ddylech fod wedi eich diarddel (yn unol â'r hynny a nodwyd yn y gofynion ar gymhwysedd). Ni ddylech feddu ar berthynas / contract â'r Cyngor na bod yn rhan o berthynas / contract yn y dyfodol lle byddwch chi'n elwa'n bersonol o'r sefyllfa | √ | |
| • Byddwch wedi datgelu i'r Cyngor unrhyw fater yn eich cefndir a all, petai'n gyhoeddus, olygu y bydd y Cyngor yn ailystyried eich penodiad | √<br>√ | |
| • Ni ddylech fod yn aelod gweithredol o unrhyw blaid wleidyddol na meddu ar broffil cyhoeddus o ran gweithgareddau gwleidyddol | √ | |
| • Ni fyddwch wedi bod yn swyddog nac yn aelod o Gyngor Sir | | |

| | | |
|---|---|---|
| [hynny yw Cyngor Sir neu Dref o fewn tri mlynedd o ddyddiad eich cais ysgrifenedig]<br>• Ymrwymiad i dymor o chwe mlynedd<br>• Medru asesu materion sy'n ymwneud â safonau moesegol a chlustnodi / arfarnu dulliau i'w datrys<br>• Medru gweithio'n dda gyda Chynghorwyr a meddu ar yr hyder i herio a'u dwyn i gyfrif mewn modd teg a diduedd. | <br><br>√<br><br>√ | √ |

**<u>Pwyllgor Moeseg a Safonau – Person Annibynnol</u>**

**MANYLION PERSONOL – MEINI PRAWF**

**<u>Gofynion cymhwysedd</u>**

1. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr a hoffai gael eu penodi'n aelod annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fodloni'r meini prawf cymhwysedd er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn annibynnol o'r Cyngor. Dylai ymgeiswyr sicrhau :

   a) nad ydynt ar hyn o bryd yn aelod neu'n swyddog i

      - Gyngor Sir Ceredigion
      - Unrhyw Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol arall
      - Awdurdod Parc Cenedlaethol
      - Awdurdod Tân
      - Cyngor Tref neu Gymuned

   b) nad ydynt yn briod neu'n bartner sifil i unrhyw un o'r uchod

   c) nad ydynt yn gyn-aelod neu'n swyddog o Gyngor Sir Ceredigion

   d) na fu iddynt fod yn aelod neu swyddog o unrhyw Gyngor Sir, Cyngor Bwrdeistref Sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

**<u>Meini prawf ar gyfer y rôl</u>**

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus:-

1. Fod yn hyblyg a medru mynychu cyfarfodydd ar fyr rybudd
2. Meddu ar sgiliau gwrando da a sgiliau gweithio fel aelod o dîm
3. Medru dadansoddi deunyddiau ffeithiol a thystiolaeth a ffurfio barn gadarn a diduedd
4. Dangos gwrthrychedd, disgresiwn ac integriti personol
5. Dangos parch i eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiaeth
6. Meddu ar ddiddordeb a gwybodaeth o faterion lleol, datblygu cymunedau lleol a dealltwriaeth o lywodraeth leol
7. Cymryd rhan mewn hyrwyddo safonau moesegol uchel a chydymffurfio â gwasanaethau

8. Cymryd rhan mewn hyrwyddo safonau moesegol uchel a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a chyfrannu tuag at ymgymryd yn effeithio â rôl a chyfrifoldebau statudol y Pwyllgor Moeseg a Safonau
9. Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu a diwygio'r Cod Ymddygiad
10. Cynghori a hyfforddi Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau
11. Medru gweithio'n effeithiol gyda Chynghorwyr a Swyddogion mewn modd effeithiol
12. Meddu ar y gallu a'r hyder i herio a dwyn i gyfrif mewn dull teg a diduedd
13. Dangos ymrwymiad a brwdfrydedd

Eitem Agenda 10

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R :** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **25 Mai 2022** |
| **TEITL:** | Canlyniadau Archwiliadau diweddar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Er gwybodaeth** |

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno.

Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bellach yn cyhoeddi Coflyfr yr Ombwdsmon. Rhifyn 25 yr adroddwyd arno ar 17 Ionawr 2022 oedd y Coflyfr diwethaf i'w gyhoeddi. Gallwch bellach gael gafael ar achosion ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y ddolen gyswllt ganlynol: https://www.ombudsman.wales/findings

Mae Atodiad A yn cynnwys y 18 archwiliad a gyhoeddwyd ers y coflyfr diwethaf.

.

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Dim newid polisi**<br>**Os nad oes, esboniwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** |

**ARGYMHELLIAD**

Nodi cynnwys archwiliadau mwyaf diweddar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**Enw Cyswllt:** Lisa Evans

**Swydd:** **Swyddog Craffu a Safonau**
**Dyddiad yr Adroddiad: 28/4/22**

Atodiad A

Canlyniadau Ymchwiliadau Diweddar

**Uniondeb : Chyngor Tref y Barri**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 08/11/2021 |
| Pwnc | Uniondeb |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202003545 |
| Math o Adroddiad | COD - Rhoddwyd y gorau |
| Corff Perthnasol | Chyngor Tref y Barri |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod (“yr Aelod”) o Gyngor Bro Morgannwg (“y Cyngor”) a Chyngor Tref y Barri (“y Cyngor Tref”), a Phwyllgor Cynllunio’r Cyngor, wedi torri’r Cod Ymddygiad i Aelodau drwy agor siop goffi a bar gwin heb sicrhau’r caniatâd cynllunio priodol i newid defnydd.

Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod yr Aelod wedi bod yn gyd-gyfarwyddwr y siop goffi a’r bar gwin, a bod y busnes wedi agor cyn i benderfyniad gael ei wneud ar y cais cynllunio i newid defnydd gan yr Aelod (yn groes i reolaeth gynllunio). Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon hefyd fod yr aelod wedi ymddiswyddo ar unwaith fel cyfarwyddwr y cwmni pan dynnwyd ei sylw at yr achos posib o dorri’r Cod Ymddygiad ynghylch y sefyllfa, ac na chafodd unrhyw gysylltiad pellach â’r busnes. Daeth yr Ombwdsmon i’r casgliad fod gan yr Aelod, fel aelod o Bwyllgor Cynllunio’r Cyngor, ddigon o wybodaeth am faterion cynllunio perthnasol i ddeall pwysigrwydd glynu wrth reoliadau cynllunio, a dylai’r Aelod fod wedi ystyried ei sefyllfa, ac y dylai wedi gofyn am gyngor ynghylch ei rôl, cyn agor y busnes heb ganiatâd cynllunio cywir.

Canfu’r Ombwdsmon hefyd y gellid yn rhesymol ystyried ymddygiad yr Aelod yn ymddygiad a allai ddwyn anfri ar swydd Aelod o’r Cyngor ac roedd yn awgrymu felly ei fod wedi torri paragraff (6(1)(a) y Cod Ymddygiad. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Bro Morgannwg i’w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

Penderfynodd Pwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg fod yr Aelod wedi torri paragraff 6(1)(a) o’r Cod Ymddygiad a chafodd ei atal dros dro am 1 mis.

**Uniondeb : Cyngor Bro Morgannwg**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 08/11/2021 |
| Pwnc | Uniondeb |
| Canlyniad | COD |

| | |
|---|---|
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202003631 |
| Math o Adroddiad | COD - Rhoddwyd y gorau |
| Corff Perthnasol | Cyngor Bro Morgannwg |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Bro Morgannwg ("y Cyngor") a Chyngor Tref y Barri ("y Cyngor Tref"), a Phwyllgor Cynllunio'r Cyngor, wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau drwy agor siop goffi a bar gwin heb sicrhau'r caniatâd cynllunio priodol i newid defnydd.

Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod yr Aelod wedi bod yn gyd-gyfarwyddwr y siop goffi a'r bar gwin, a bod y busnes wedi agor cyn i benderfyniad gael ei wneud ar y cais cynllunio i newid defnydd gan yr Aelod (yn groes i reolaeth gynllunio). Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon hefyd fod yr aelod wedi ymddiswyddo ar unwaith fel cyfarwyddwr y cwmni pan dynnwyd ei sylw at yr achos posib o dorri'r Cod Ymddygiad ynghylch y sefyllfa, ac na chafodd unrhyw gysylltiad pellach â'r busnes. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod gan yr Aelod, fel aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor, ddigon o wybodaeth am faterion cynllunio perthnasol i ddeall pwysigrwydd glynu wrth reoliadau cynllunio, a dylai'r Aelod fod wedi ystyried ei sefyllfa, ac y dylai wedi gofyn am gyngor ynghylch ei rôl, cyn agor y busnes heb ganiatâd cynllunio cywir.

Canfu'r Ombwdsmon hefyd y gellid yn rhesymol ystyried ymddygiad yr Aelod yn ymddygiad a allai ddwyn anfri ar swydd Aelod o'r Cyngor ac roedd yn awgrymu felly ei fod wedi torri paragraff (6(1)(a) y Cod Ymddygiad. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Bro Morgannwg i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

Penderfynodd Pwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg fod yr Aelod wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad a chafodd ei atal dros dro am 1 mis.

**Hybu cydraddoldeb a pharch : Cyngor Sir Penfro**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 08/10/2021 |
| Pwnc | Hybu cydraddoldeb a pharch |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202004458 |
| Math o Adroddiad | COD - Rhoddwyd y gorau |
| Corff Perthnasol | Cyngor Sir Penfro |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Sir Penfro ("y Cyngor") wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau. Honnwyd bod yr Aelod wedi gwneud sylwadau bygythiol am aelod o'r cyhoedd, a allai fod wedi dwyn anfri ar y Cyngor. Penderfynodd yr Ombwdsmon roi'r gorau i'r ymchwiliad oherwydd bod yr ymchwiliad wedi canfod bod yr Aelod yn gweithredu'n bersonol wrth wneud y

sylwadau, a bod y dôn a'r sylwadau a gafodd eu cyfnewid gyda'r aelod o'r cyhoedd a wnaeth y gŵyn yn debyg o ran tôn a chynnwys i'r rhai a wnaeth yr Aelod. Oherwydd hyn, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd bellach er budd y cyhoedd iddo barhau â'r ymchwiliad.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Cymuned Sili a Larnog**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 12/07/2021 |
| Pwnc | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202000622 |
| Math o Adroddiad | COD - Cyfeiriwyd at Banel Safonau/Panel Dyfarnu Cymru |
| Corff Perthnasol | Cyngor Cymuned Sili a Larnog |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn gan un o weithwyr Cyngor Cymuned Sili a Larnog ("y Cyngor") nad oedd Aelod ("yr Aelod") o'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

Honnwyd, yn ystod digwyddiad ar gae chwarae Cyngor yn ymwneud ag offer y Cyngor, bod yr Aelod wedi cam-drin a bwlio'r gweithiwr ar lafar ac wedi cam-drin a chythruddo tad y gweithiwr.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod yr Aelod yn defnyddio iaith sarhaus a dilornus tuag at y gweithiwr o flaen aelodau eraill a thad y gweithiwr, mewn ymgais i sarhau, bychanu a thanseilio'r gweithiwr. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod gweithredoedd yr Aelod yn awgrymu bwlio a chythruddo.

Penderfynodd yr Ombwdsmon y gallai ymddygiad yr Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor, yn benodol 4(b) a 4(c) drwy fethu dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill, a pheidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi bwlio. Canfu'r Ombwdsmon hefyd y gallai ymddygiad yr Aelod gael ei ystyried yn ymddygiad a allai ddwyn anfri ar swydd Aelod o'r Cyngor ac felly ei fod hefyd yn awgrymu torri 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Bro Morgannwg i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

Ymddiswyddodd yr Aelod ychydig cyn Gwrandawiad y Pwyllgor Safonau. Penderfynodd Pwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg fod y Cyn Aelod wedi torri paragraffau 4(b), 4(c) a 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad a bod y Cyn Aelod wedi cael cerydd.

**Datgelu a chofrestru buddiannau : Cyngor Tref Conwy**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 12/05/2021 |
| Pwnc | Datgelu a chofrestru buddiannau |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202004765 |
| Math o Adroddiad | COD - Rhoddwyd y gorau |
| Corff Perthnasol | Cyngor Tref Conwy |

Cwynodd un o Swyddogion Cyngor Tref Conwy fod Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad Aelodau pan fethodd â datgan buddiant personol a rhagfarnus ym musnes y Cyngor a gadael yr ystafell tra oedd y busnes hwnnw'n cael ei drafod mewn dau gyfarfod o Gyngor Tref Conwy.  Roedd yr Aelod wedi cael ei atal yn flaenorol am fis gan y Pwyllgor Safonau am ymddygiad tebyg.

Ystyriodd yr Ombwdsmon a allai'r Aelod fod wedi torri paragraffau 6(1)(a), 11(1), ac 14(1)(a)(ii) o'r Cod Ymddygiad.

Ymddiswyddodd yr Aelod o Gyngor Tref Conwy yn ystod ymchwiliad yr Ombwdsmon.  Penderfynodd yr Ombwdsmon roi'r gorau i'r ymchwiliad gan nad oedd bellach er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd y mater ymhellach.

**Datgelu a chofrestru buddiannau : Cyngor Tref Conwy**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 12/05/2021 |
| Pwnc | Datgelu a chofrestru buddiannau |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202004764 |
| Math o Adroddiad | COD - Rhoddwyd y gorau |
| Corff Perthnasol | Cyngor Tref Conwy |

Cwynodd un o Swyddogion Cyngor Tref Conwy fod Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad Aelodau pan fethodd â datgan buddiant personol a rhagfarnus ym musnes y Cyngor a gadael yr ystafell tra oedd y busnes hwnnw'n cael ei drafod mewn dau gyfarfod o Gyngor Tref Conwy.  Roedd yr Aelod wedi cael ei atal yn flaenorol am fis gan y Pwyllgor Safonau am ymddygiad tebyg.

Ystyriodd yr Ombwdsmon a allai'r Aelod fod wedi torri paragraffau 6(1)(a), 11(1), ac 14(1)(a)(ii) o'r Cod Ymddygiad.

Ymddiswyddodd yr Aelod o Gyngor Tref Conwy yn ystod ymchwiliad yr Ombwdsmon.  Penderfynodd yr Ombwdsmon roi'r gorau i'r ymchwiliad gan nad oedd bellach er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd y mater ymhellach.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 05/10/2021 |
| Pwnc | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202002960 |
| Math o Adroddiad | COD - Dim angen gweithredu |
| Corff Perthnasol | Cyngor Gwynedd |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Gwynedd ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod").

Honnwyd bod yr Aelod wedi rhoi sylw homoffobig ar Facebook. Nid oedd yr Aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei rôl swyddogol fel aelod pan oedd yn postio'r sylw, felly, roedd yr ymchwiliad yn ystyried a oedd yr Aelod wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod, sy'n dweud na ddylai aelodau ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.

Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad yn dangos bod gweithiwr newydd yr achwynydd wedi postio ar Facebook ym mis Hydref 2020, "meddwl fy mod i'n gweithio i'r bos gorau" ac wedi tagio'r achwynydd. Atebodd yr Aelod, gan bostio o'i gyfrif Facebook personol, "Wyt ti'n sugno at dy fyw?".

Cysylltwyd â'r gweithiwr fel rhan o ymchwiliad yr Ombwdsmon, fodd bynnag, ni roddodd ddatganiad tyst cyflawn i'r Ombwdsmon. Cyflwynwyd y dystiolaeth a gasglwyd i'r Aelod a chafodd ei gyfweld fel rhan o'r ymchwiliad. Yn ystod y cyfweliad, dywedodd nad oedd bwriad homoffobig y tu ôl i'w sylw ac, er ei fod yn derbyn wrth edrych yn ôl y gellid ystyried bod ei sylw'n homoffobig, dywedodd mai ei fwriad oedd tynnu sylw at ei farn fod y gweithiwr yn "llyfu" ei gyflogwr.

Er bod yr Ombwdsmon yn gwerthfawrogi pam yr oedd yr achwynydd ac eraill wedi dehongli'r sylw fel un homoffobig, nid oedd o'r farn bod esboniad yr Aelod yn gwbl annheilwng o ystyried bod "sugno" yn derm a ddefnyddir yn gyffredin i ddisgrifio ymddygiad sycoffantig.

Dywedodd yr Aelod ei fod yn difaru gwneud yr hyn a wnaeth a phe bai'n wynebu'r un amgylchiadau eto, ni fyddai'n gwneud sylw ar y neges ar Facebook. Dywedodd hefyd ei fod yn fodlon ymddiheuro i'r achwynydd a'i weithiwr am eu tramgwyddo, ac fe'i hanogodd yr Ombwdsmon i wneud hynny.

Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r mater hwn.

**Uniondeb : Cyngor Sir Penfro**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 14/09/2021 |
| Pwnc | Uniondeb |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202102047 |
| Math o Adroddiad | COD - Dim tystiolaeth o dorri'r Cod |
| Corff Perthnasol | Cyngor Sir Penfro |

Cynhaliodd yr Ombwdsmon ymchwiliad yn erbyn Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Sir Penfro ("y Cyngor") i ystyried a wnaeth yr Aelod ei gamarwain yn ystod ymchwiliad parhaus.

Ystyriodd yr Ombwdsmon a allai'r Aelod fod wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad ("y Cod").

Roedd yr Aelod wedi cael ei gyfweld fel tyst mewn ymchwiliad parhaus. Yn dilyn ei gyfweliad cychwynnol, gofynnwyd am wybodaeth gan drydydd partïon a oedd yn nodi bod y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Aelod yn y cyfweliad yn anghywir. Ar ôl hynny, cafodd yr Aelod ei gyfweld ar yr ail achlysur a chan ei bod yn ymddangos bod anghysondebau yn r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Aelod, dechreuodd yr Ombwdsmon ymchwiliad.

Darparodd yr Aelod ddatganiad llawn i'r Ombwdsmon mewn ymateb i'r honiad. Derbyniodd yr Ombwdsmon yr esboniadau a ddarparwyd gan yr Aelod ynghylch yr anghysondebau yn ei 2 gyfweliad. Er bod yr Ombwdsmon o'r farn y gallai'r Aelod fod wedi bod yn fwy clir yn ei gyfweliadau, nid oedd o'r farn bod ymgais fwriadol ar ran yr Aelod i ddarparu gwybodaeth gamarweiniol yn ystod yr ymchwiliad. Felly, ni chanfu'r Ombwdsmon dystiolaeth o dorri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.

**Dyletswydd i gynnal y gyfraith : Cyngor Tref Bodelwyddan**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 06/09/2021 |
| Pwnc | Dyletswydd i gynnal y gyfraith |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202100504 |
| Math o Adroddiad | COD - Nid oes angen gweithredu |
| Corff Perthnasol | Cyngor Tref Bodelwyddan |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Tref Bodelwyddan ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod") pan oedd yn rhannu delweddau teledu cylch cyfyng cyfrinachol ar dudalen Facebook y Cyngor mewn post a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i weld a allai gweithredoedd yr Aelod fod wedi arwain at dorri paragraffau 5(a) a 6(1)(a) o'r Cod.

Cafodd yr Ombwdsmon wybodaeth berthnasol gan y Cyngor ac ystyriodd sylwadau'r Aelod. Canfu'r Ombwdsmon fod yr Aelod wedi cyhoeddi delwedd aneglur yn bennaf o ffilm CCTV y Cyngor ar dudalen Facebook y Cyngor. Gan y byddai'n rhesymol ystyried bod y delweddau teledu cylch cyfyng yn gyfrinachol ac na ddylid eu rhannu'n gyhoeddus fel hyn, roedd yr Ombwdsmon o'r farn y gallai gweithredoedd yr Aelod fod yn gyfystyr â thorri paragraffau 5(a) a 6(1)(a) o'r Cod.

Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor wedi darparu unrhyw hyfforddiant ar y Cod, y defnydd o'i gyfryngau cymdeithasol, na'r defnydd o'i CCTV i'r Aelod. Yn ogystal, nid oedd gan y Cyngor unrhyw bolisïau na gweithdrefnau mewn perthynas â'r defnydd o'i gyfryngau cymdeithasol na'r defnydd o'i deledu cylch cyfyng. Roedd yr Aelod hefyd wedi ymddiheuro i'w cyd-aelodau o'r Cyngor ac wedi dileu'r ddelwedd yn gyflym pan ofynnwyd iddo wneud hynny. Felly, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod angen cymryd unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, awgrymodd fod yr Aelod yn ceisio hyfforddiant ar y Cod cyn gynted â phosib ac y dylai'r Cyngor ystyried yn ddi-oed a oes ganddo bolisïau a/neu weithdrefnau deledu cylch cyfyng, diogelu data a chyfryngau cymdeithasol priodol ar waith.

**Uniondeb : Chyngor Tref Frenhinol Caernarfon**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 02/09/2021 |
| Pwnc | Uniondeb |
| Canlyniad | CODE |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202002555 |
| Math o Adroddiad | COD - Cyfeiriwyd at Banel Safonau/Panel Dyfarnu Cymru |
| Corff Perthnasol | Chyngor Tref Frenhinol Caernarfon |

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn gan aelod o Gyngor Gwynedd a Chyngor Tref Frenhinol Caernarfon nad oedd Aelod ("yr Aelod") o'r Cynghorau hynny wedi cydymffurfio â Chodau Ymddygiad y Cynghorau ar gyfer Aelodau.

Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth i'r achwynydd dros nifer o fisoedd, a bod ei ohebiaeth yn awgrymu bod yr ymddygiad wedi'i fwriadu i fwlio a/neu harasio'r achwynydd. Honnwyd bod yr Aelod wedi defnyddio, neu wedi ceisio defnyddio, ei swydd yn amhriodol ac wedi dwyn anfri ar ei swyddfa neu ei awdurdod drwy roi gwybodaeth a roddwyd iddo fel aelod etholedig ar Facebook, postio gwybodaeth yr oedd yn gwybod ei bod yn anghywir ar Facebook, postio gwybodaeth gyfrinachol ar Facebook a thrwy fod yn rhan o ddigwyddiad gan Yr Heddlu. Dywedodd yr achwynydd hefyd fod yr Aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal i'r Clerc, yr Ombwdsmon a'r heddlu am yr achwynydd.

Ystyriodd yr ymchwiliad a oedd yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau canlynol y Cod Ymddygiad:

- 4(b) – rhaid i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.
- 4(c) – ni chaiff aelodau fwlio nac aflonyddu ar unrhyw berson.
- 5(a) – rhaid i aelodau beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid yn rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb ganiatâd penodol person sydd wedi'i awdurdodi i roi cydsyniad o'r fath, neu oni bai ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo wneud hynny.
- 6(1)(a) – rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.
- 6(1)(d) – rhaid i aelodau beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'w hawdurdod neu ar ei ran.
- 7(a) – ni chaiff aelodau, yn rhinwedd eu swyddogaeth swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eu swydd yn amhriodol i roi mantais iddynt hwy eu hunain, nac unrhyw berson arall, neu i greu neu osgoi anfantais iddynt hwy eu hunain neu i unrhyw berson arall.

Yn ystod yr ymchwiliad, daeth yn amlwg y gallai'r Aelod fod wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 6(2) o'r Cod Ymddygiad – rhaid i aelodau gydymffurfio ag unrhyw gais gan yr Ombwdsmon mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhaliwyd yn unol â'i bwerau statudol.

Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod, dros nifer o fisoedd, wedi rhannu gwybodaeth am yr achwynydd ar Facebook a gyda gweithwyr proffesiynol, sy'n gysylltiedig â'r ddau Gyngor, am yr achwynydd.  Roedd yr aelod hefyd wedi postio gwybodaeth, y dylid yn rhesymol ei hystyried yn gyfrinachol, am aelodau teulu'r achwynydd.  Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi cysylltu â'r achwynydd yn y stryd ac wedi dechrau dadl a oedd yn golygu bod angen i'r heddlu ymyrryd.  Canfu'r ymchwiliad hefyd fod yr Aelod wedi gwneud nifer o gwynion i'r Clerc, Yr Heddlu ac i'r Ombwdsmon, nad oedd yn ddigon cadarn ac yr oedd yn ymddangos eu bod yn cael eu cymell gan falais neu gystadleuaeth wleidyddol.

Canfu'r Ombwdsmon fod ymddygiad yr aelod yn awgrymu torri paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a), 6(1)(d), 6(2) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad.  Ni chanfu fod paragraff 5(a) wedi'i dorri gan nad oedd yr Aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cyngor pan oedd yn rhannu'r wybodaeth honno.

Mewn perthynas â pharagraff 6(2) o'r Cod Ymddygiad, gwnaeth Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon geisiadau rhesymol a phriodol mewn cysylltiad â'r ymchwiliad hwn.  Cynigiodd y Swyddog Ymchwilio hefyd addasiadau rhesymol i roi cyfle i'r Aelod gymryd rhan lawn yn y broses.  Fodd bynnag, methodd yr Aelod yn fwriadol â chymryd rhan yn fy ymchwiliad er mwyn ceisio tawelu'r broses a bod ei weithredoedd yn awgrymu bod paragraff 6(2) o'r Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri.

Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys.

Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad bod yr Aelod wedi torri paragraffau 6(1)(d), 6(2) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad. Yn unol â hynny, penderfynodd y Tribiwnlys y dylid atal yr Aelod o'r Cyngor am gyfnod o 9 mis neu, os yw'n fyrrach, gweddill ei gyfnod yn y swydd. Canfu'r Tribiwnlys nad oedd yr Aelod wedi torri paragraff 4(c) o'r Cod Ymddygiad. Er i'r Tribiwnlys ddod i'r casgliad bod yr Aelod "mewn egwyddor", wedi torri paragraffau 4(b), 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad, byddai unrhyw gyfyngiad a osodwyd yn peryglu torri hawliau Erthygl 10 yr Aelodau o dan prima facie, yr hawl i ryddid mynegiant. Felly, roedd y Tribiwnlys o'r farn nad oedd cyfiawnhad dros y cyfyngiad.

**Uniondeb : Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 02/09/2021 |
| Pwnc | Uniondeb |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202002215 |

| | |
|---|---|
| Math o Adroddiad | COD - Cyfeiriwyd at Banel Safonau/Panel Dyfarnu Cymru |
| Corff Perthnasol | Cyngor Gwynedd |

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn gan aelod o Gyngor Gwynedd a Chyngor Tref Frenhinol Caernarfon nad oedd Aelod ("yr Aelod") o'r Cynghorau hynny wedi cydymffurfio â Chodau Ymddygiad y Cynghorau ar gyfer Aelodau.

Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth i'r achwynydd dros nifer o fisoedd, a bod ei ohebiaeth yn awgrymu bod yr ymddygiad wedi'i fwriadu i fwlio a/neu harasio'r achwynydd. Honnwyd bod yr Aelod wedi defnyddio, neu wedi ceisio defnyddio, ei swydd yn amhriodol ac wedi dwyn anfri ar ei swyddfa neu ei awdurdod drwy roi gwybodaeth a roddwyd iddo fel aelod etholedig ar Facebook, postio gwybodaeth yr oedd yn gwybod ei bod yn anghywir ar Facebook, postio gwybodaeth gyfrinachol ar Facebook a thrwy fod yn rhan o ddigwyddiad gan Yr Heddlu. Dywedodd yr achwynydd hefyd fod yr Aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal i'r Clerc, yr Ombwdsmon a'r heddlu am yr achwynydd.

Ystyriodd yr ymchwiliad a oedd yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau canlynol y Cod Ymddygiad:

- 4(b) – rhaid i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.
- 4(c) – ni chaiff aelodau fwlio nac aflonyddu ar unrhyw berson.

- 5(a) – rhaid i aelodau beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid yn rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb ganiatâd penodol person sydd wedi'i awdurdodi i roi cydsyniad o'r fath, neu oni bai ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo wneud hynny.
- 6(1)(a) – rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.
- 6(1)(d) – rhaid i aelodau beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'w hawdurdod neu ar ei ran.
- 7(a) – ni chaiff aelodau, yn rhinwedd eu swyddogaeth swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eu swydd yn amhriodol i roi mantais iddynt hwy eu hunain, nac unrhyw berson arall, neu i greu neu osgoi anfantais iddynt hwy eu hunain neu i unrhyw berson arall.

Yn ystod yr ymchwiliad, daeth yn amlwg y gallai'r Aelod fod wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 6(2) o'r Cod Ymddygiad – rhaid i aelodau gydymffurfio ag unrhyw gais gan yr Ombwdsmon mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhaliwyd yn unol â'i bwerau statudol.

Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod, dros nifer o fisoedd, wedi rhannu gwybodaeth am yr achwynydd ar Facebook a gyda gweithwyr proffesiynol, sy'n gysylltiedig â'r ddau Gyngor, am yr achwynydd.  Roedd yr aelod hefyd wedi postio gwybodaeth, y dylid yn rhesymol ei hystyried yn gyfrinachol, am aelodau teulu'r achwynydd.  Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi cysylltu â'r achwynydd yn y stryd ac wedi dechrau dadl a oedd yn golygu bod angen i'r heddlu ymyrryd.  Canfu'r ymchwiliad hefyd fod yr Aelod wedi gwneud nifer o gwynion i'r Clerc, Yr Heddlu ac i'r Ombwdsmon, nad oedd yn ddigon cadarn ac yr oedd yn ymddangos eu bod yn cael eu cymell gan falais neu gystadleuaeth wleidyddol.

Canfu'r Ombwdsmon fod ymddygiad yr aelod yn awgrymu torri paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a), 6(1)(d), 6(2) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad.  Ni chanfu fod paragraff 5(a) wedi'i dorri gan nad oedd yr Aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cyngor pan oedd yn rhannu'r wybodaeth honno.

Mewn perthynas â pharagraff 6(2) o'r Cod Ymddygiad, gwnaeth Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon geisiadau rhesymol a phriodol mewn cysylltiad â'r ymchwiliad hwn.  Cynigiodd y Swyddog Ymchwilio hefyd addasiadau rhesymol i roi cyfle i'r Aelod gymryd rhan lawn yn y broses.  Fodd bynnag, methodd yr Aelod yn fwriadol â chymryd rhan yn fy ymchwiliad er mwyn ceisio tawelu'r broses a bod ei weithredoedd yn awgrymu bod paragraff 6(2) o'r Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri.

Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys.

Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad bod yr Aelod wedi torri paragraffau 6(1)(d), 6(2) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad.  Yn unol â hynny, penderfynodd y Tribiwnlys y dylid atal yr

Aelod o'r Cyngor am gyfnod o 9 mis neu, os yw'n fyrrach, gweddill ei gyfnod yn y swydd. Canfu'r Tribiwnlys nad oedd yr Aelod wedi torri paragraff 4(c) o'r Cod Ymddygiad. Er i'r Tribiwnlys ddod i'r casgliad bod yr Aelod "mewn egwyddor", wedi torri paragraffau 4(b), 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad, byddai unrhyw gyfyngiad a osodwyd yn peryglu torri hawliau Erthygl 10 yr Aelodau o dan prima facie, yr hawl i ryddid mynegiant. Felly, roedd y Tribiwnlys o'r farn nad oedd cyfiawnhad dros y cyfyngiad.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 02/08/2021 |
| Pwnc | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 201906362 |
| Math o Adroddiad | COD - Cyfeiriwyd at Banel Safonau/Panel Dyfarnu Cymr |
| Corff Perthnasol | Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Honnwyd bod yr Aelod wedi diystyru egwyddor cydraddoldeb, drwy wneud sylwadau am nam ar glyw aelod arall a'i gwneud yn anodd yn fwriadol i'r aelod hwnnw gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Ystyriodd yr ymchwiliad a oedd yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau canlynol y Cod Ymddygiad:

- 4(a) – rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal, beth bynnag fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd.
- 4(b) – rhaid i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.
- 4(c) – ni chaiff aelodau fwlio nac aflonyddu ar unrhyw berson.

Yn ystod yr ymchwiliad, daeth yn amlwg y gallai'r Aelod fod wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 6(1)(a) (rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod) a 6(2) o'r Cod Ymddygiad (rhaid i aelodau gydymffurfio ag unrhyw gais gan yr Ombwdsmon mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhelir yn unol â'i bwerau statudol).

Cyfwelwyd pum tyst yn ystod yr ymchwiliad: roedd pob un yn aelodau o'r Cyngor. Canfu'r ymchwiliad fod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelod arall drwy wneud sylwadau gwahaniaethol am ei hanabledd yn ystod ac yn syth ar ôl cyfarfod o'r Cyngor ar 30 Hydref 2019, a thrwy ei gwneud yn anodd iddi gymryd rhan yng nghyfarfodydd y

Cyngor. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod ymddygiad yr Aelod yn awgrymu bod paragraff 4(a) o'r Cod Ymddygiad wedi'i dorri'n ddifrifol.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod sylwadau'r Aelod am anabledd yr aelod arall yn ymgais glir i'w dychryn a'i thanseilio. Roedd o'r farn bod ymddygiad yr Aelod hefyd yn awgrymu bod paragraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

Gwrthododd yr Aelod fod ei weithredoedd wedi torri'r Cod Ymddygiad, ond gwrthododd gael ei gyfweld er mwyn iddo allu rhoi cyfrif am y camau penodol y cwynwyd amdanynt. Dywedodd yr aelod arall ei bod yn teimlo'n ofidus ac yn ofnus ar ôl y cyfarfod ar 30 Hydref. Mae tystion hefyd wedi disgrifio'r aelod arall fel un a oedd yn amlwg wedi cynhyrfu yn ystod cyfarfodydd y Cyngor. Ar y cyfan, rwyf o'r farn bod yr Aelod wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n awgrymu bod paragraff 4(c) o'r Cod Ymddygiad wedi'i dorri. Roedd yr Ombwdsmon hefyd o'r farn y byddai'n rhesymol ystyried bod ymddygiad o'r fath yn gallu dwyn anfri ar swydd neu awdurdod yr Aelod ac felly'n awgrymu bod paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

Mewn perthynas â pharagraff 6(2) o'r Cod Ymddygiad, gwnaeth Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon geisiadau rhesymol a phriodol mewn cysylltiad â'r ymchwiliad hwn. Cymerodd y Swyddog Ymchwilio gamau ychwanegol, gan achosi oedi yn y broses, i dawelu meddwl yr Aelod ac i'w helpu i deimlo'n gyfforddus gyda'r broses. Cymerodd y Swyddog Ymchwilio gamau hefyd i wneud addasiadau rhesymol i roi cyfle i'r Aelod ymgysylltu'n llawn. Fy marn i yw bod yr Aelod wedi methu'n fwriadol â chymryd rhan yn fy ymchwiliad er mwyn ceisio osgoi'r broses a bod ei weithredoedd yn awgrymu bod paragraff 6(2) o'r Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri.

Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys.

Daeth Panel Dyfarnu Cymru i'r casgliad bod yr Aelod wedi torri paragraffau 4(a), 4(b), 4(c), 6(1)(a) a 6(2) o'r Cod Ymddygiad a chafodd ei atal am 10 mis. Argymhellodd hefyd y dylai'r Aelod ymgymryd â hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad, ymgymryd â hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a darparu ymddiheuriad ysgrifenedig llawn i'r Achwynydd.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Chyngor Cymuned Llanilltud Faerdref**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 30/07/2021 |
| Pwnc | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202002984 |
| Math o Adroddiad | COD - Dim tystiolaeth o dorri'r Cod |
| Corff Perthnasol | Chyngor Cymuned Llanilltud Faerdref |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cyn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (“y Cyngor”) a Chyngor Cymuned Llanilltud Faerdref (“y Cyngor Cymuned”) wedi torri’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau (“y Cod”) wrth ddefnyddio’r term “Pikies” yn ystod trafodaeth grŵp WhatsApp gymunedol.

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i weld a oedd ymddygiad y Cyn Aelod wedi torri paragraffau 4(a), 4(b) a 6(1)(a) o’r Cod. Yn ystod yr ymchwiliad, ymddiswyddodd yr Aelod o’r Cyngor a’r Cyngor Cymuned. Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod y grŵp WhatsApp cymunedol yn cynnwys aelodau o bwyllgor neuadd bentref ac ar adeg y drafodaeth nid oedd y Cyn Aelod yn gynrychiolydd Cyngor na Chyngor Cymuned ar y pwyllgor na’r grŵp WhatsApp. Canfu’r Ombwdsmon nad oedd y Cyn Aelod yn gweithredu yn ei rôl gyhoeddus yn ystod y cyfnewid ac felly nid oedd paragraffau 4(a) a 4(b) o’r Cod yn berthnasol pan wnaeth y sylwadau yn ei swyddogaeth breifat, ac nid oedd y darpariaethau hyn yn y Cod i’w cymhwyso pan wnaeth y Cyn Aelod ei sylw ar WhatsApp.

Roedd yr Ombwdsmon o’r farn petai’r Cyn Aelod yn gynrychiolydd Cyngor neu Gyngor Cymuned, y gallai ei ymddygiad awgrymu ei fod wedi torri paragraff 6(1)(a) o’r Cod. Fodd bynnag, ni chafodd yr Ombwdsmon ei ddarbwyllo bod cysylltiad digonol â rôl y Cyn Aelod i awgrymu y byddai’r sylw’n effeithio ar enw da swyddfa neu awdurdod y Cyn Aelod. O’r herwydd, nid oedd yr Ombwdsmon o’r farn bod yr ymddygiad yn awgrymu bod paragraff 6(1)(a) o’r Cod wedi’i dorri.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 30/07/2021 |
| Pwnc | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202002418 |
| Math o Adroddiad | COD - Dim tystiolaeth o dorri’r Cod |
| Corff Perthnasol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cyn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (“y Cyngor”) a Chyngor Cymuned Llanilltud Faerdref (“y Cyngor Cymuned”) wedi torri’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau (“y Cod”) wrth ddefnyddio’r term “Pikies” yn ystod trafodaeth grŵp WhatsApp gymunedol.

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i weld a oedd ymddygiad y Cyn Aelod wedi torri paragraffau 4(a), 4(b) a 6(1)(a) o’r Cod. Yn ystod yr ymchwiliad, ymddiswyddodd yr Aelod o’r Cyngor a’r Cyngor Cymuned. Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod y grŵp WhatsApp cymunedol yn cynnwys aelodau o bwyllgor neuadd bentref ac ar adeg y drafodaeth nid oedd y Cyn Aelod yn gynrychiolydd Cyngor na Chyngor Cymuned ar y pwyllgor na’r grŵp WhatsApp. Canfu’r Ombwdsmon nad oedd y Cyn Aelod yn gweithredu yn ei rôl gyhoeddus yn ystod y cyfnewid ac felly nid oedd paragraffau

4(a) a 4(b) o'r Cod yn berthnasol pan wnaeth y sylwadau yn ei swyddogaeth breifat, ac nid oedd y darpariaethau hyn yn y Cod i'w cymhwyso pan wnaeth y Cyn Aelod ei sylw ar WhatsApp.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn petai'r Cyn Aelod yn gynrychiolydd Cyngor neu Gyngor Cymuned, y gallai ei ymddygiad awgrymu ei fod wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod. Fodd bynnag, ni chafodd yr Ombwdsmon ei ddarbwyllo bod cysylltiad digonol â rôl y Cyn Aelod i awgrymu y byddai'r sylw'n effeithio ar enw da swyddfa neu awdurdod y Cyn Aelod. O'r herwydd, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr ymddygiad yn awgrymu bod paragraff 6(1)(a) o'r Cod wedi'i dorri.

**Uniondeb : Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 20/07/2021 |
| Pwnc | Uniondeb |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202005795 |
| Math o Adroddiad | COD - Dim tystiolaeth o dorri'r Cod |
| Corff Perthnasol | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn wedi ei hunangyfeirio bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Castell-nedd Port Talbot ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod") mewn perthynas â sylwadau a wnaeth yn ystod cyfarfod preifat o'r Blaid Lafur yn ystod mis Hydref 2019. Cafodd y sylwadau eu recordio'n gyfrinachol a'u cyhoeddi'n ddiweddarach ar y cyfryngau cymdeithasol ar 5 Mawrth 2021.

Dechreuodd yr Ombwdsmon ymchwilio i rai o'r sylwadau a wnaed gan ystyried a oedd yr Aelod wedi torri paragraffau canlynol y Cod:

- 6(1)(a) – rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.
- 7(b)(v) – ni chaiff aelodau ddefnyddio nac awdurdodi eraill i ddefnyddio adnoddau eu hawdurdod yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol.

Yn y recordiad, soniodd yr Aelod am ad-drefnu ysgolion. Canfu'r ymchwiliad ei bod yn ymddangos bod sylwadau a wnaed am adleoli ysgol benodol wedi cael eu gwneud yng nghyd-destun adroddiad a oedd yn nodi bod yr ysgol mewn perygl o gael ei heffeithio gan dirlithriad. Roedd y sylwadau'n seiliedig ar gyngor proffesiynol annibynnol ac felly nid oeddent yn debygol o arwain at dorri'r Cod.

Gwnaeth yr Aelod sylwadau cyffredinol hefyd am gynlluniau ad-drefnu ysgolion y Cyngor. Er bod yr Aelod wedi mynegi ei safbwyntiau rhagarweiniol ar y mater yn glir, nid oedd yn ymddangos ei fod yn diystyru'r posibilrwydd o opsiynau eraill. Nid oedd ychwaith yn nodi na fyddai'n fodlon ystyried cyngor swyddogion priodol. Oherwydd hynny, nid oedd y sylwadau'n gyfystyr â thorri'r Cod.

Yn ystod y recordiad, awgrymodd yr Aelod y byddai'n gwrthod cyllid ar gyfer cynnig a gefnogir gan blaid wleidyddol arall o blaid cynnig sy'n groes i'r Blaid Lafur ac, wrth wneud hynny, cyfeiriodd at ei ymwneud â thrwsio ffordd y fynwent yn Ystalyfera. Grŵp Llywio Rhaglen Gyfalaf y Cyngor wnaeth y penderfyniad i ariannu'r gwaith ar y ffordd. Er bod yr Aelod wedi cael copi o ohebiaeth, nid oedd yn rhan o'r penderfyniad i ariannu'r gwaith. O'r herwydd, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi camddefnyddio ei safle mewn perthynas â'r mater hwn ac nad oedd tystiolaeth o dorri'r Cod.

Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at "gadw aelod arall allan" wrth gyflwyno rhaglen adfywio yr oedd yr aelod hwnnw wedi bod yn ymgyrchu yn ei chylch ers sawl blwyddyn. Ni chanfu'r ymchwiliad unrhyw dystiolaeth o unrhyw gamau bwriadol gan yr Aelod i "gadw allan", nac eithrio'r aelod arall o'r rhaglen. Roedd methiant i roi gwybod i'r aelod am ddatblygiadau, fodd bynnag, nid cyfrifoldeb yr Aelod oedd gwneud hynny a, beth bynnag, un o swyddogion y Cyngor oedd yn bennaf gyfrifol am yr esgeulustod hwn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr Aelod wedi torri'r Cod.

Hysbyswyd yr Aelod na chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod yn ystod yr ymchwiliad.

**Anhunanoldeb a stiwardiaeth : Cyngor Dinas Casnewydd**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 13/07/2021 |
| Pwnc | Anhunanoldeb a stiwardiaeth |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202001914 |
| Math o Adroddiad | COD - Cyfeiriwyd at Banel Safonau/Panel Dyfarnu Cymru |
| Corff Perthnasol | Cyngor Dinas Casnewydd |

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn gan Reolwr Practis Meddyg Teulu ("y Practis") yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ("y Bwrdd Iechyd"), bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

Honnwyd bod yr Aelod wedi defnyddio ei swydd fel aelod o'r Cyngor yn amhriodol pan oedd yn eiriol ar ran un o gleifion y Practis.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod yr Aelod wedi gwneud 2 alwad ffôn i'r Practis lle ceisiodd ddibynnu'n amhriodol ar ei sefyllfa fel Aelod o'r Cyngor, ac fel cynrychiolydd o'r Cyngor ar y Bwrdd Iechyd, er mwyn siarad â meddyg ar alwad am ofal iechyd y claf. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad hefyd fod yr Aelod wedi gwneud cwyn i'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn feirniadol o staff y Practis ac nad oedd yn adlewyrchu cynnwys y sgyrsiau dros y ffôn yn gywir. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y gŵyn yn ymgais gan yr Aelod i ddefnyddio ei sefyllfa i danseilio gweithredoedd y Practis a chreu anfantais i'r Practis.

Penderfynodd yr Ombwdsmon felly y gallai'r Aelod fod wedi torri paragraff 7(a) o God Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a chyfeiriodd ei adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Dinas Casnewydd i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad fod yr Aelod wedi torri paragraff 7(a) o'r Cod Ymddygiad a'i hatal am 3 mis. Argymhellwyd hefyd i'r Cyngor ei thynnu o'i swydd ar y Bwrdd Iechyd.

**Uniondeb : Cyngor Tref Saltney**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 15/06/2021 |
| Pwnc | Uniondeb |
| Canlyniad | COD |
| Rhif Cyfeirnod yr Achos | 202004182 |
| Math o Adroddiad | COD - Dim tystiolaeth o dorri'r Cod |
| Corff Perthnasol | Cyngor Tref Saltney |

Roedd Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Tref Saltney ("y Cyngor") a oedd wedi ei gyfeirio ei hun at yr Ombwdsmon am fod yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ("yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr") wedi cyhoeddi'n gyhoeddus orchymyn anghymhwyso yn ymwneud â'i gyflogaeth flaenorol fel gweithiwr paragyfreithiol.

Bu'r Ombwdsmon yn ymchwilio i weld a allai ymddygiad yr Aelod fod yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad ("y Cod").

Cafodd yr Ombwdsmon gopïau o ddogfennau penderfyniad yr SRA a chanfu ei fod wedi dod i gasgliad o anonestrwydd yn erbyn yr Aelod ar y sail bod yr Aelod wedi rhoi gwybodaeth ffug i gleientiaid am hynt eu hachosion. Nid oedd unrhyw awgrym o unrhyw dramgwydd ariannol nac ymddygiad troseddol ar ran yr Aelod.

Canfu'r Ombwdsmon, er y gallai'r Aelod fod wedi dwyn anfri personol arno'i hun o ganlyniad i hysbysiad o benderfyniad cyhoeddus yr SRA, fod rôl yr Aelod fel gweithiwr paragyfreithiol yn gwbl gysylltiedig â'i fywyd preifat ac nad oedd ganddo gysylltiad â'r Cyngor na'i rôl fel Cynghorydd. At hynny, yr oedd y canfyddiad o anonestrwydd yr SRA yn ymwneud ag anallu'r Aelod i fwrw ymlaen â'i waith. O'r herwydd, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod gweithredoedd yr Aelod yn gyfystyr â thorri paragraff 6(1)(a) o'r Cod.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Tref Doc Penfro**

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Adroddiad | 23/04/2021 |
| Pwnc | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch |
| Canlyniad | COD |

Rhif Cyfeirnod yr Achos 202000789

Math o Adroddiad COD - Cyfeiriwyd at Banel Safonau/Panel Dyfarnu Cymru

Corff Perthnasol Cyngor Tref Doc Penfro

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cyn Aelod o Gyngor Tref Doc Penfro ("y Cyngor") wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cyngor. Honnwyd bod yr Cyn Aelod wedi cyhoeddi neges ar y llwyfan cyfryngau cymdeithasol Facebook, y gellid ei ystyried yn hiliol ac y gallai fod â'r potensial i niweidio enw da'r Cyngor.

Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod y Cyn Aelod wedi "hoffi" a "rhannu" y neges ar Facebook, a bod oedi byr wedi bod cyn iddo dynnu'r neges i lawr. Canfu'r ymchwiliad fod y Cyn Aelod wedi camarwain papur newydd lleol drwy ddweud bod ei gyfrif Facebook wedi cael ei "hacio", ond ei fod wedi cywiro hyn o fewn 48 awr. Canfu hefyd fod y Cyn Aelod wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor a'i fod wedi ei gyfweld gan Yr Heddlu, ac na chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Dywedodd y Cyn Aelod nad oedd wedi sylwi ar yr islais hiliol pan rannodd y neges, ac nad oedd yn berson hiliol. Ymddiheurodd am unrhyw drosedd y gallai fod wedi'i achosi. Derbyniodd y Cyn Aelod ei fod wedi cael cyfle i fynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad a fyddai wedi cynnwys hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb. Nid oedd wedi bod yn bresennol, yn rhannol oherwydd ei anabledd, ond derbyniodd nad oedd wedi gofyn am hyfforddiant mewn modd a oedd yn fwy hwylus iddo.

Penderfynodd yr Ombwdsmon y gallai'r Cyn Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor, yn benodol, paragraffau 4(a) a 4(b), gan y gallai fod wedi methu â rhoi sylw dyledus i'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb wrth gyflawni ei ddyletswyddau, ac efallai na fyddai wedi dangos parch ac ystyriaeth ddyledus i eraill. Canfu'r Ombwdsmon hefyd y byddai'n rhesymol ystyried gweithredoedd y Cyn Aelod fel ymddygiad a allai ddwyn anfri ar swydd yr aelod, neu ar y Cyngor ei hun, a allai arwain at dorri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.

Penderfynodd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Penfro fod y Cyn Aelod wedi torri paragraffau 4(b) a 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad. Rhoddwyd cerydd i'r Cyn Aelod.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Moeseg a Safonau**

**Dyddiad y cyfarfod:** **25 Mai 2022**

**Teitl:** **Tueddiadau'r Cwynion am Gynghorwyr - 2021/22**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Er gwybodaeth**

**Cyflwyniad**
Ar 17 Ionawr 2022 roedd y Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi cytuno y byddai'r Swyddog Monitro yn adrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor ar dueddiadau o ran cwynion, a'u difrifoldeb.
Gan na fydd y wybodaeth ar gyfer Chwarter 1 2022/2023 ar gael tan ddiwedd Mehefin 2022, mae'r Swyddog Monitro wedi cyflwyno isod y data a'r tueddiadau perthnasol.
Adlewyrchir y ffigurau hyn yn adroddiad blynyddol drafft y Cadeiryddion ar gyfer 2020/21.

Mae safonau ymddygiad Aelodau Cyngor Sir Ceredigion yn gyffredinol yn 2021/22 i'w ganmol.
- Nid oedd cwynion gan Aelodau am Aelodau.
- Nid oedd cwynion gan y cyhoedd am Aelodau.
- Nid oedd cwynion gan swyddogion am Aelodau.

•Er bod bwlio, bygythiadau a/neu ddiffyg parch/cwrteisi yn parhau i fod yn broblem, mae'r berthynas rhwng Swyddogion ac Aelodau Cyngor Sir Ceredigion wedi gwella, gyda llai o achosion o fwlio, bygwth a diffyg parch/cwrteisi nag o'r blaen.
•Mae'r enghreifftiau o iaith amharchus, anghwrtais neu sarhaus gan Gynghorwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus wedi cynyddu - mwy o regi.
•Mae angen i gynghorwyr fod yn arbennig o ofalus gyda'u hiaith yn ystod cyfarfodydd dros y we, gyda'r defnydd o feicroffonau a phobl yn llai effro i'r ffaith fod sylwadau'n cael eu clywed.
•Mae'r Cynghorwyr yn deall i raddau helaeth yr angen i ddatgan buddiannau ac yn gwneud hynny yn brydlon ac mewn ffordd briodol. Gofynnir am gyngor gan y Swyddog Monitro ar adegau priodol.
•Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel fforwm i Gynghorwyr wneud sylwadau/mynegi barn yn parhau i gynyddu. Mae hyn wedi dwyn anfri ar y Cyngor ar adegau.
•Mae'r Swyddog Monitro yn parhau i argymell fod pob Aelod yn cael hyfforddiant diweddaru am y cyfryngau cymdeithasol a hefyd am ddiogelu data (gan gynnwys cyfrifoldeb Cynghorwyr fel rheolwyr data).
•Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Swyddog Monitro wedi nodi y byddai rhai Cynghorwyr Sir yn elwa o gael hyfforddiant diweddaru/ychwanegol ym maes Diogelu.
- Mae'r Aelodau'n parhau i fod yn fwy ymwybodol o'r angen i:
  - ystyried a oes buddiant ganddynt, a

- datgan unrhyw fuddiant wrth gyfathrebu/gohebu â swyddogion.

2021/2022

- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol
- Diwylliant/agwedd sâl
- Rhegi
- Diffyg parch/ystyriaeth at swyddogion/clercod
- Bwlio
- Lledu gwybodaeth ffug
- Ymddygiad bygythiol
- Diffyg parch/ystyriaeth/cwrteisi at swyddogion
- Ymddygiad amhriodol
- Gwahaniaethu yn erbyn grŵp lleiafrifol
- Mae iaith amharchus, anghwrtais neu sarhaus gan Gynghorwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus wedi cynyddu - mwy o regi.
- Mynd y tu hwnt i'r rôl
- Galwadau afreal ar swyddogion
- Mynnu gormod
- Methiant, yn ôl pob tebyg, i ddatgan buddiant
- Ymddygiad rhywiol amhriodol
- Aflonyddu
- Dwyn anfri ar swydd neu awdurdod
- Methiant, yn ôl pob tebyg, i weithredu
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol - cyfryngau cymdeithasol/cyfarfod cyhoeddus
- Euog o drosedd
- Heb ystyried cyngor
- Diffyg didueddrwydd
- Defnydd amhriodol o adnoddau'r Cyngor
- Diffyg yn y broses ddemocrataidd
- Yn destun proses Ddiogelu
- Sylwadau hiliol
- Perthynas negyddol

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad a gyflwynwyd** |
| **Atodiadau:** | **Dim** |
| **Cefndir statudol:** | **Deddf Llywodraeth Leol 2000** |
| **Dogfennau cefndirol:** | **Dim** |
| **Swyddog Adrodd:** | Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau |
| **Dyddiad:** | 25 Ebrill 2022 |

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **25 Mai 2022** |
| **Teitl:** | **Y GWEITHDREFNAU AR GYFER YMDRIN Â CHWYNION A GYFEIRIR AT Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU A CHYNNAL GWRANDAWIADAU** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Adolygu a diweddaru'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal gwrandawiadau Moeseg a Safonau** |

**Cefndir**

Mae'r ddogfen "Y Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion a gyfeirir at y Pwyllgor Moeseg a Safonau a Chynnal Gwrandawiadau" 2010 yn pennu'r weithdrefn y bydd Pwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor yn ei dilyn pan fo gofyn i'r pwyllgor hwnnw benderfynu ynghylch ymddygiad Cynghorwyr yn sgil ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Swyddog Monitro'r Cyngor o dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Yn yr adroddiad ynghylch yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru (paragraff 1.6) argymhellir y dylai Pwyllgorau Safonau gwblhau hyfforddiant ynghylch sut i gynnal gwrandawiadau er mwyn sicrhau bod yr aelod y cwynir amdano, yr achwynydd ac unrhyw dystion yn cael eu trin mewn ffordd agored a theg. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn derbyn bod angen mwy o atgyfeiriadau at Bwyllgorau Safonau pan fo'n gwrthod ymchwilio i gwynion.

Adolygwyd y ddogfen er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau yn y Rheoliadau (yn 2016) a chymharwyd hefyd â'r gweithdrefnau sydd ar waith mewn awdurdodau eraill er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau presennol y Cyngor yn gyfredol ac yn addas i'w diben.

Cyflwynwyd y ddogfen ddiwygiedig i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 17 Ionawr 2022. Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i wneud y canlynol:

(i) derbyn y diwygiadau;
(ii) argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen yn amodol ar unrhyw argymhellion neu ddiwygiadau i'r ddogfen yn dilyn ystyriaeth mewn gweithdy a fydd yn cael ei gynnal cyn Etholiadau mis Mai.

Cynhaliwyd gweithdy ar 7 Ebrill 2022. Gweler y ddogfen ddiwygiedig yn Atodiad A gyda'r newidiadau arfaethedig wedi'u nodi yn goch.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad / Argymhellion:** | **Dylai'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ystyried y ddogfen ddiwygiedig ynghylch y Weithdrefn ar gyfer Cynnal Gwrandawiadau (Atodiad A) ac argymell y dylai'r Cyngor ei chymeradwyo ar 7 Gorffennaf 2022.** |

| | |
|---|---|
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | Er mwyn sicrhau bod y Weithdrefn Safonau yn gyfredol ac yn addas i'w diben. |

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 28 Ebrill 2022 |
| **Acronymau:** | |

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

**Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU**

**Y GWEITHDREFNAU AR GYFER YMDRIN Â CHWYNION A GYFEIRIR AT Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU A CHYNNAL GWRANDAWIADAU**

**Rhagarweiniad**

1. Mae'r ddogfen hon yn pennu'r weithdrefn y bydd Pwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor yn ei dilyn pan fo gofyn i'r pwyllgor hwnnw benderfynu ynghylch ymddygiad Cynghorwyr yn sgil ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Swyddog Monitro'r Cyngor dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig.
2. Pe bai'r ddogfen hon mewn unrhyw ffordd yn gwrthdaro ag unrhyw ofynion statudol, yna'r gofynion statudol fydd drechaf.
3. Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth bendant yn y Rheoliadau, mater i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fydd penderfynu ar yr arferion a'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau.

**Dehongliad**

4. Yn y weithdrefn hon:

   (a) Mae 'y Ddeddf' yn golygu Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000.

   (b) Mae 'y Cyngor' yn golygu Cyngor Sir Ceredigion.

   (c) Mae 'y Cod Ymddygiad' yn golygu'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau y bu i'r Cyngor a'r cynghorau tref / cymuned yn ardal y Cyngor ei fabwysiadu yn 2008 (fel y'i diwygiwyd yn 2016), yn unol ag Adran 51 y Ddeddf.

   (d) Mae 'yr Achwynydd' yn golygu unrhyw un sydd wedi gwneud unrhyw honiad a arweiniodd at gynnal yr ymchwiliad.

   (e) Mae 'Aelodau Cyfetholedig' yn golygu'r sawl a benodwyd gan y Cyngor i eistedd fel aelodau annibynnol neu aelodau lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio neu'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

   (f) Mae 'y Swyddog Ymchwilio' yn golygu'r sawl a fu'n cynnal ymchwiliad i unrhyw honiad o dorri'r Cod Ymddygiad ac a luniodd adroddiad ar yr ymchwiliad hwnnw, sef naill ai'r Ombwdsmon (neu rywun yn gweithredu ar ei ran neu ar ei rhan) neu'r Swyddog Monitro.

   (g) Mae 'adroddiad yr ymchwiliad' yn golygu adroddiad ynglŷn â chanlyniadau unrhyw ymchwiliad i honiad o dorri'r Cod Ymddygiad, wedi'i lunio naill ai gan yr Ombwdsmon dan adran 69, 70 neu 71(2) y Ddeddf, neu gan y Swyddog Monitro dan y Rheoliadau.

   (h) Mae 'yr Aelod' yn golygu unrhyw un sy'n destun ymchwiliad i honiad o dorri'r Cod Ymddygiad.

(i) Mae 'y Swyddog Monitro' yn golygu'r swyddog sydd bryd hynny wedi'i benodi gan y Cyngor dan adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(j) Mae 'yr Ombwdsmon' yn golygu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

(k) Mae 'y Rheoliadau' yn golygu Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001/2281 fel y'u diwygiwyd (SI 2016/85).

(l) Mae 'y Swyddog Safonau' yn golygu'r swyddog sydd bryd hynny wedi'i benodi gan y Cyngor i gynorthwyo â gwaith y Pwyllgor Moeseg a Safonau.

(m) Mae 'y Swyddog Cynghori' yn golygu'r Swyddog Monitro, y Dirprwy Swyddog Monitro, y Swyddog Safonau neu rywun arall addas a chymwys.

**Crynodeb o'r weithdrefn**

5) Dan **adran 69** y Ddeddf, gall yr Ombwdsmon ymchwilio i unrhyw honiad o dorri'r Cod Ymddygiad a wneir yn erbyn aelodau neu aelodau cyfetholedig (neu gyn-aelodau neu gyn-aelodau cyfetholedig) o'r Cyngor neu unrhyw gyngor cymuned yn ardal y Cyngor.

6) Dan **adran 70(4)** y Ddeddf, pan fo'r Ombwdsmon yn dod ag ymchwiliad o'r fath i ben <u>cyn</u> ei gwblhau:

a) gall gyfeirio'r materion dan sylw yn yr ymchwiliad at y Swyddog Monitro.
b) Yna bydd y Swyddog Monitro yn ymchwilio i'r materion hynny yn unol â'r Rheoliadau, cyn cyhoeddi adroddiad, a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y bo'n briodol. Gweler y weithdrefn yn fanwl yn adran 5) isod.

7) Dan **adran 71(2)** y Ddeddf, bydd yr Ombwdsmon, pe bai'n penderfynu y buasai'n briodol gwneud hynny <u>ar ôl</u> cynnal ymchwiliad, yn gwneud y canlynol:
a) llunio adroddiad ynghylch canlyniadau'r ymchwiliad ac yn ei anfon at y Swyddog Monitro a Phwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor.
b) Yna bydd y Swyddog Monitro yn ystyried adroddiad yr Ombwdsmon yn unol â'r Rheoliadau, cyn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y bo'n briodol.
c) Gweler y weithdrefn yn fanwl yn adran 17) isod.

8) Yna bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gwneud un o'r dyfarniadau cychwynnol canlynol (Rheoliad 7), naill ai:

a) nid oes tystiolaeth o unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, neu
b) dylid gwahodd yr Aelod i gyflwyno sylwadau, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

9) Pan roddir gwahoddiad i Aelod wneud sylwadau, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnal gwrandawiad i ystyried unrhyw ymateb gan yr Aelod.

**Dyfarniadau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau**

10) Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau, rhaid i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau (dan Reoliad 9(1)) ddyfarnu:

a) nad oes dim tystiolaeth o unrhyw fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ac felly nad oes angen cymryd dim camau mewn perthynas â'r materion sy'n destun yr ymchwiliad;
b) bod yr Aelod neu aelod cyfetholedig (neu gyn-aelod neu gyn-aelod cyfetholedig) wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ond nad oes angen cymryd dim camau mewn perthynas â'r methiant hwnnw;
c) bod yr Aelod neu aelod cyfetholedig (neu gyn-aelod neu gyn-aelod cyfetholedig) wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, a dylai gael ei geryddu; neu
d) bod yr Aelod neu aelod cyfetholedig (neu gyn-aelod neu gyn-aelod cyfetholedig) wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a dylai gael ei atal neu ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'i awdurdod am gyfnod heb fod yn hwy na chwe mis

a gweithredu yn unol â'r dyfarniad hwnnw.

11) Pan fydd tribiwnlys apêl a dynnir o blith aelodau Panel Dyfarnu Cymru yn gwneud argymhelliad y dylid gosod cosb wahanol (Rheoliad 12), rhaid i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyfarnu hefyd a ddylai gadarnhau ei ddyfarniad gwreiddiol, neu dderbyn yr argymhelliad.

**Ymchwiliadau gan y Swyddog Monitro (a gyfeiriwyd dan adran 70(4) y Ddeddf)**

12) Pan fo'r Ombwdsmon yn dod â'i ymchwiliad i ben cyn ei gwblhau ac yn cyfeirio'r materion sydd dan sylw at y Swyddog Monitro dan adran 70(4) y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Swyddog Monitro:-

a) gynnal ymchwiliad; a
b) llunio adroddiad, a gwneud argymhellion i Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor fel y bo'n briodol.

13) Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal ymchwiliad yn unol â'r Rheoliadau, a gall ddilyn unrhyw weithdrefnau y mae'n credu eu bod yn briodol dan amgylchiadau'r achos dan sylw.

14) Ar ôl cynnal ymchwiliad, mae'n rhaid i'r Swyddog Monitro:

a) lunio adroddiad ynghylch canlyniadau ei ymchwiliad, a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y bo'n briodol,
b) anfon copi o'r adroddiad at yr Aelod, a
c) chymryd camau rhesymol i anfon copi o'r adroddiad at yr Achwynydd.

15) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystyried adroddiad y Swyddog Monitro ynghyd ag unrhyw argymhellion, yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 17 isod.

**Ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon (a gyfeiriwyd dan adran 71(2) y Ddeddf)**

16) Pan fo'r Ombwdsmon yn cwblhau ei ymchwiliad ac yn anfon adroddiad at y Swyddog Monitro a Phwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor dan adran 71(2) y Ddeddf, bydd yn rhaid i'r Swyddog Monitro:
   a) ystyried adroddiad yr Ombwdsmon, a
   b) gwneud argymhellion i Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor fel y bo'n briodol.

17) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ynghyd ag unrhyw argymhellion gan y Swyddog Monitro yn unol â'r weithdrefn a nodir isod.

**Cam 1 – Y Pwyllgor Moeseg a Safonau – Gwrandawiad ar gyfer gwneud y Dyfarniad Cychwynnol**

18) Ar ôl i'r Swyddog Monitro:

   a) lunio adroddiad yr ymchwiliad yn unol â pharagraff 14; neu
   b) ystyried adroddiad ymchwiliad yr Ombwdsmon yn unol â pharagraff 16

bydd yn trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau cyn gynted ag y bo modd.

Anfonir copi o adroddiad yr ymchwiliad, ynghyd ag unrhyw argymhellion gan y Swyddog Monitro (os oes rhai), at bob aelod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

19) Rhoddir hysbysiad ynghylch amser a lleoliad y cyfarfod yn unol â Rhan VA Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau.

20) Os mai'r Ombwdsmon fydd yn darparu adroddiad yr ymchwiliad, bydd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, fel Swyddog Cynghori.

21) Os mai'r Swyddog Monitro fydd yn darparu adroddiad yr ymchwiliad, bydd y Swyddog Safonau neu rywun arall addas a chymwys yn cynghori'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, fel Swyddog Cynghori.

22) Cyfyngir trafodaethau Gwrandawiad Dyfarniad Cychwynnol y Pwyllgor Moeseg a Safonau i'r canlynol:
   a) ystyried adroddiad yr ymchwiliad
   b) ac unrhyw argymhellion gan y Swyddog Monitro (os oes rhai), a
   c) dod i un o'r dyfarniadau cychwynnol canlynol, naill ai:-
      i. nad oes dim tystiolaeth o fethu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, neu
      ii. dylid gwahodd yr Aelod i gyflwyno sylwadau, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

**Cam 2 - Ar ôl cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Moeseg a Safonau**

23) Pan benderfyna'r Pwyllgor Moeseg a Safonau nad oes tystiolaeth o unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, bydd y Swyddog Safonau yn

hysbysu'r Aelod, yr Achwynydd a'r Ombwdsmon yn unol â hynny. Gweler 22(c)(i) uchod.

24)Pan benderfyna'r Pwyllgor Moeseg a Safonau y dylid gwahodd yr Aelod i gyflwyno sylwadau, bydd y Swyddog Safonau yn hysbysu'r Aelod ynghylch dyfarniad cychwynnol y Pwyllgor a'r weithdrefn y mae'r Pwyllgor yn argymell ei mabwysiadu wrth dderbyn ac ystyried unrhyw sylwadau y dymuna'r Aelod eu cyflwyno. Gweler 22(c)(ii) uchod a Cham 3 isod.

**Cam 3 - Paratoi ar gyfer y gwrandawiad i ystyried sylwadau'r Aelod**

25) (A) Bydd y Swyddog Safonau, gan ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, yn ysgrifennu at yr Aelod i gynnig dyddiad ar gyfer gwrandawiad i ystyried unrhyw sylwadau y dymuna'r Aelod eu cyflwyno, a bydd yn gofyn i'r Aelod lenwi a dychwelyd holiadur ymhen 14 diwrnod, gan gadarnhau'r naill ffordd neu'r llall a ydyw:

(a) yn bwriadu bod yn bresennol yn y gwrandawiad;

(b) yn dymuno cyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, ac os felly, dylai'r Aelod gynnwys unrhyw sylwadau ysgrifenedig yn yr ymateb;

(c) yn anghytuno ag unrhyw rai o'r canfyddiadau ffeithiol a geir yn adroddiad yr ymchwiliad, ac os felly, dylai'r Aelod nodi pa faterion penodol y mae'n anghytuno â hwy, a'r rhesymau dros hynny;

(d) yn dymuno cynrychioli ei hun, neu gael cynrychiolydd cyfreithiol neu unrhyw un arall i'w gynrychioli yn y gwrandawiad, yn unol â'r Rheoliadau;

(e) yn dymuno rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig;

(f) yn dymuno galw tystion perthnasol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, ac os felly dylai nodi'r tystion hynny, a chadarnhau a ydynt yn dystion o ffaith neu gymeriad;

(g) yn dymuno bod unrhyw ran o'r cyfarfod yn cael ei chynnal yn breifat, ac os felly dylai esbonio'r rhesymau dros hynny;

(h) yn dymuno bod y cyhoedd yn cael eu hatal rhag gweld unrhyw ran o adroddiad yr ymchwiliad neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill, ac os felly, dylai esbonio'r rhesymau dros hynny.

25 (B) Bydd disgwyl i'r Swyddog Ymchwilio ddod i'r gwrandawiad i gyflwyno'r adroddiad ac esbonio unrhyw faterion yn yr adroddiad hwnnw (oni bai bod y Pwyllgor wedi cytuno nad ydy hyn yn angenrheidiol).

26)Bydd y Swyddog Safonau yn hysbysu'r Swyddog Ymchwilio ynghylch dyddiad arfaethedig y gwrandawiad, ac yn gofyn a fydd yn bresennol yn y gwrandawiad neu beidio. Dylid cadw dau ddyddiad amgen wrth gefn rhag ofn.

27)Bydd y Swyddog Safonau yn anfon copi o ymateb yr Aelod dan baragraff 25 at y Swyddog Ymchwilio ac yn gofyn i'r swyddog hwnnw anfon cadarnhad ysgrifenedig ymhen 7 diwrnod i ddatgan:

(a) a oes ganddo unrhyw sylwadau ynglŷn ag ymateb yr Aelod;

(b) a yw'n dymuno cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad;

(c) a yw'n dymuno galw tystion perthnasol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, ac os felly dylai nodi'r tystion hynny;

(d) a yw'n dymuno bod unrhyw ran o'r cyfarfod yn cael ei chynnal yn breifat, os felly dylai nodi'r rhesymau dros hynny;

(e) a yw'n dymuno bod y cyhoedd yn cael eu hatal rhag gweld unrhyw ran o adroddiad yr ymchwiliad neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill, os felly dylai nodi'r rhesymau dros hynny.

28)Bydd y Swyddog Safonau yn ysgrifennu at aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio o leiaf 14 diwrnod cyn y gwrandawiad er mwyn:

(a) cadarnhau dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;

(b) rhoi crynodeb o'r honiad(au);

(c) rhoi braslun o brif ffeithiau'r achos y mae pawb yn gytûn yn eu cylch;

(d) rhoi braslun o'r prif ffeithiau nad yw pawb yn gytûn yn eu cylch;

(e) nodi a fydd yr Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio yn bresennol yn y gwrandawiad neu'n cael eu cynrychioli;

(f) rhestru unrhyw dystion y gofynnir iddynt roi tystiolaeth;

(g) amgáu adroddiad yr ymchwiliad, unrhyw ddogfennau perthnasol, ymateb yr Aelod ac unrhyw ymateb pellach gan y Swyddog Ymchwilio;

(h) rhoi braslun o weithdrefn arfaethedig y gwrandawiad;

(i) gofyn iddynt gadarnhau a ydynt yn bwriadu dod i'r gwrandawiad; a

(j) darparu'r dystiolaeth y maent yn bwriadu dibynnu arni.

29)Bydd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei hanfon at aelodau'r Pwyllgor, yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio cyn y gwrandawiad (ynghyd ag unrhyw ddogfennau perthnasol eraill):

- Adroddiad y Swyddog Ymchwilio
- Ymateb yr Aelod
- Unrhyw ymateb pellach gan y Swyddog Ymchwilio
- Amlinelliad o'r prif ffeithiau sydd wedi'u cytuno / heb eu cytuno

- Rhestr o dystion
- A fydd yr Aelod yn bresennol yn y gwrandawiad ac a fydd yn cael ei gynrychioli gan rywun arall
- Y weithdrefn ar gyfer y gwrandawiad.

**Cam 4 – Y Weithdrefn ar gyfer y Gwrandawiad**

**Egwyddorion**

30) Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau:

a) yn unol â gofynion cyfiawnder cynhenid, gynnal y cyfarfod ym mha bynnag fodd y mae'n ystyried i fod fwyaf addas ar gyfer sicrhau eglurder ynghylch y materion sydd gerbron, ac yn gyffredinol er mwyn cynnal y gwrandawiad yn gyfiawn.
b) Rhaid i'r Pwyllgor, cyn belled ag y gwêl yn briodol, geisio osgoi bod yn anhyblyg wrth gynnal y gwrandawiad.
c) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn penderfynu ynghylch tystiolaeth ffeithiol yn ôl yr hyn sy'n debygol.
d) Bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw feini prawf sydd ar gael i gynorthwyo'r Pwyllgor i sicrhau cysondeb mewn penderfyniadau.

31) Gall rhywun gynrychioli'r Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio neu ddod gyda hwy i'r cyfarfod os ydynt â chymwysterau cyfreithiol neu beidio, ond gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau wrthod caniatáu unigolyn penodol i gynorthwyo neu gynrychioli rhywun yn y gwrandawiad, pe bai'r Pwyllgor yn fodlon fod yno reswm da dros wneud hynny.

32) Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau gael cyngor cyfreithiol gan Swyddog y mae'r Cyngor wedi'i benodi at y diben hwnnw ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, neu wrth iddynt ystyried y canlyniad. Bydd unrhyw gyngor cyfreithiol a roddir i'r Pwyllgor yn cael ei rannu â'r Aelod a'r Swyddog Ymchwilio os ydynt yn bresennol.

33) Cynhelir y gwrandawiad yn gyhoeddus oni bai bod y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn argyhoeddedig fod yno reswm da dros eithrio'r cyhoedd.

34) Y bwriad yw y bydd pob parti yn y gwrandawiad yn gallu cyfrannu gyda dealltwriaeth lawn o'r materion sydd dan ymchwiliad, gan sicrhau bod y gwrandawiad yn deg, tryloyw a diduedd.

35) Pennir gweithdrefn y cyfarfod isod, yn amodol ar unrhyw newidiadau y creda'r Cadeirydd sy'n briodol er mwyn sicrhau gwrandawiad teg ac effeithlon.

<u>Rhagarweiniad</u>

36) Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyflwyno'r bobl hynny sy'n bresennol ac yn egluro dull a threfn y gwrandawiad, gan gynnwys unrhyw drefniadau corfforol.

<u>Cam cyntaf: Materion rhagarweiniol o drefn</u>

37)Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn datrys unrhyw faterion neu anghydfod ynghylch y modd y dylai'r gwrandawiad fynd yn ei flaen, sydd heb eu datrys fel rhan o'r weithdrefn cyn y gwrandawiad. Gan gynnwys y canlynol:

a) A ddylid gwahardd y cyhoedd neu'r wasg rhag dod i'r gwrandawiad neu ran ohono.
b) Unrhyw faterion newydd a godwyd ers paratoi'r agenda.
c) Os codir unrhyw dystiolaeth neu fater newydd y gallai fod wedi'i godi cyn y gwrandawiad, rhagdybir na fydd yn cael ei ganiatáu oni bai bod rheswm da dros wneud hynny.
d) A oes reswm da dros fwrw ymlaen â'r gwrandawiad yn absenoldeb unrhyw barti, y rhesymau a nodwyd dros unrhyw absenoldeb ac i fodloni ei hun fod pob parti wedi cael gwybod am ddyddiad y gwrandawiad. Fel arall, gellir penderfynu gohirio'r gwrandawiad.
e) Gwneud trefniadau ar gyfer ymdrin â'r mater yn deg, pan fo'r Pwyllgor yn fodlon fod unrhyw barti (ar ôl derbyn tystiolaeth feddygol) yn methu â bod yn bresennol ac yn debygol o fethu â bod yn bresennol am amser maith.
f) Ni chaniateir croesholi tystion. Rhaid cyfeirio'r cwestiynau drwy'r Cadeirydd.

<u>Ail gam: Canfyddiadau Ffeithiol</u>

38)Yna, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystyried a oes yno anghytundeb arwyddocaol ynghylch y ffeithiau a nodir yn adroddiad yr ymchwiliad.

39)Os oes anghytundeb ynghylch y ffeithiau:-

(a) gwahoddir y Swyddog Ymchwilio, os yw'n bresennol, i wneud unrhyw sylwadau fel y bo'r gofyn i ategu'r canfyddiadau ffeithiol a geir yn adroddiad yr ymchwiliad.

(b) gall y Swyddog Ymchwilio alw unrhyw dystion angenrheidiol i roi tystiolaeth, gyda chaniatâd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, a bydd y Pwyllgor roi cyfle i'r Aelod herio unrhyw dystiolaeth a roddir gan unrhyw dyst y mae'r Swyddog Ymchwilio yn ei alw a holi cwestiynau i unrhyw dyst drwy'r Cadeirydd.

(c) yna gwahoddir yr Aelod i gyflwyno ei achos ac i wneud sylwadau i gefnogi ei fersiwn o'r ffeithiau.

(d) gall yr Aelod alw unrhyw dystion angenrheidiol i roi tystiolaeth, gyda chaniatâd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, a gall y Pwyllgor roi cyfle i'r Swyddog Ymchwilio herio unrhyw dystiolaeth a roddir gan unrhyw dyst y mae'r Aelod yn ei alw.

40)Ar unrhyw adeg, gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau holi unrhyw rai o'r bobl sy'n rhan o'r gwrandawiad neu unrhyw rai o'r tystion drwy'r Cadeirydd.

41)Pe bai'r Aelod yn anghytuno ag unrhyw ffaith berthnasol yn adroddiad yr ymchwiliad, heb fod wedi crybwyll y mater ymlaen llaw, rhaid iddo ef neu hi roi rhesymau da dros beidio â chrybwyll y mater cyn y gwrandawiad. Pe bai'r

Swyddog Ymchwilio yn absennol, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystyried a fyddai er lles y cyhoedd i barhau yn ei absenoldeb neu beidio. Ar ôl ystyried eglurhad yr Aelod am beidio â chrybwyll y mater yn gynt, gall y Pwyllgor:

(a) barhau â'r gwrandawiad, gan ddibynnu ar yr wybodaeth sydd yn adroddiad yr ymchwiliad;

(b) caniatáu i'r Aelod wneud sylwadau am y mater, a gwahodd y Swyddog Ymchwilio i ymateb a galw unrhyw dystion, fel y bo'r gofyn; neu

(c) gohirio'r gwrandawiad a threfnu bod tystion priodol yn cael eu galw, neu fynnu presenoldeb y Swyddog Ymchwilio os yw'n absennol.

(d) Rhoddir cyfle i'r Swyddog Ymchwilio ac yna i'r Aelod grynhoi eu hachos.

42) Ar ôl gorffen y sylwadau ynghylch materion o ffaith, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Swyddog Cynghori'n gadael yr ystafell i ystyried y sylwadau yn breifat.

43) Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a oes angen symud ymlaen at y trydydd cam. Gwneir y penderfyniad drwy fwyafrif.

44) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ailymgynnull fel cyfarfod cyhoeddus a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyhoeddi eu canfyddiadau ffeithiol. Bydd yr Aelod, y Swyddog Ymchwilio a'r tystion yn cael eu gwahodd yn ôl i'r cyfarfod.

<u>Cam tri: Penderfynu a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod</u>

45) Yna, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, ar sail ei ganfyddiadau ffeithiol, yn ystyried a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod.

46) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gwahodd y Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau, ar sail canfyddiadau ffeithiol y Pwyllgor, i nodi a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ai peidio.

47) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gwahodd yr Aelod i ymateb i sylwadau'r Swyddog Ymchwilio ac ar sail canfyddiadau ffeithiol y Pwyllgor, i nodi a yw ef neu hi wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ai peidio.

48) Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau, ar unrhyw adeg, holi unrhyw un yn y gwrandawiad ynglŷn ag unrhyw fater y maent yn ei grybwyll wrth wneud eu sylwadau.

49) Gwahoddir yr Aelod i wneud unrhyw bwyntiau perthnasol i gloi a chyflwyno unrhyw sylwadau lliniaru.

50) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Swyddog Cynghori'n gadael yr ystafell i ystyried y sylwadau yn breifat, ac i benderfynu a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Gwneir y penderfyniad drwy fwyafrif. Ni fydd y Swyddog Cynghori'n cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais.

51) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ailymgynnull fel cyfarfod cyhoeddus a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyhoeddi'r penderfyniad ynghylch a dorrwyd y Cod ai peidio. Gwneir y penderfyniad drwy fwyafrif. Ni fydd y Swyddog Cynghori'n cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais.

Cam pedwar: Gweithredu

52) Pe bai'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn penderfynu nad yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, bydd yn
   a) cofnodi'n ffurfiol nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant o ran yr Aelod i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ac felly nid oes angen gweithredu.
   b) Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau dal ystyried a ddylid gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor er mwyn osgoi gweld sefyllfa debyg yn codi eto.

53) Pe bai'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, bydd yn gwahodd yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau ynghylch:

(a) a ddylai'r Pwyllgor roi cosb ai peidio; ac
(b) yr hyn y dylid ei roi fel cosb.

54) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Swyddog Cynghori'n gadael yr ystafell i ystyried y sylwadau a'r cosbau yn breifat.

55) Dyma'r opsiynau sydd ar gael:

(a) nid oes angen gweithredu ar sail y diffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad;
(b) dylid ceryddu'r Aelod; neu
(c) dylid gwahardd yr Aelod yn llwyr neu'n rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'i awdurdod am gyfnod na fydd yn hwy na chwe mis.

Gwneir y penderfyniad drwy fwyafrif. Ni fydd y Swyddog Cynghori'n cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais.

56) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ailymgynnull a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyhoeddi'r penderfyniad.

57) Ar ôl penderfynu, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gofyn i'r Swyddog Safonau wneud y canlynol:

   a) cadarnhau'r penderfyniad a'r
   b) rhesymau dros y penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig,
   ac anfon copi o'r penderfyniad ysgrifenedig (gan gynnwys manylion ynghylch hawl yr Aelod i wneud apêl) at yr Aelod, yr Achwynydd a'r Ombwdsmon cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, ac yn unol â'r Rheoliadau.

**Materion Amrywiol**
**Methu â chyflwyno sylwadau / bod yn bresennol yn y gwrandawiad**

c) Pe bai'r Aelod yn methu â chyflwyno sylwadau, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau:

a) oni bai ei fod yn fodlon bod yno reswm da dros y methiant, yn medru ystyried adroddiad yr ymchwiliad a phenderfynu er bod yr Aelod yn absennol; neu
b) yn medru rhoi cyfle arall i'r Aelod gyflwyno sylwadau.

d) Pe bai unrhyw barti yn methu â bod yn bresennol mewn gwrandawiad neu'n methu â chael rhywun i'w cynrychioli yno, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, os yw'n fodlon y rhoddwyd rhybudd priodol ynglŷn â'r gwrandawiad i'r unigolyn dan sylw, ac nad oes rheswm da dros yr absenoldeb -

a. yn medru gwrando'r achos a phenderfynu er nad yw'r unigolyn yn bresennol; neu
b. yn medru gohirio'r gwrandawiad.

**Salwch neu Analluogrwydd**

e) Os yw'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn fodlon nad yw'r parti yn gallu dod i'r gwrandawiad oherwydd salwch neu nam corfforol neu feddyliol, a bod y sefyllfa honno'n debygol o barhau am beth amser, gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau wneud unrhyw drefniadau sy'n ymddangos yn addas, gan ystyried holl amgylchiadau'r achos, er mwyn ymdrin â'r mater yn deg.

**Gwahardd**

f) Bydd unrhyw waharddiad, boed yn llwyr neu'n rhannol (sy'n golygu gwahardd yr Aelod rhag gwneud rhan o'i waith yn y Cyngor), yn cychwyn y diwrnod ar ôl:

(a) diwedd y cyfnod pan fedr yr Aelod gyflwyno rhybudd o apêl i dribiwnlys apêl dan y Rheoliadau (hynny yw, ymhen 21 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad o benderfyniad y Pwyllgor Moeseg a Safonau);

(b) derbyn hysbysiad o gasgliadau unrhyw apêl yn unol â'r Rheoliadau;

(c) penderfyniad pellach y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar ôl derbyn argymhelliad gan dribiwnlys apêl dan y Rheoliadau,

pa un bynnag sy'n digwydd olaf.

**Atgyfeiriad at Dribiwnlys Apêl**

g) Pan fo'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, gall yr Aelod gyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad i dribiwnlys apêl a ffurfir gan Banel Dyfarnu Cymru.
Bydd angen caniatâd i apelio yn unol â'r Rheoliadau.

h) Gall tribiwnlys apêl:
   a) gadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Moeseg a Safonau,
   b) cyfeirio'r mater yn ôl gan argymell bod cosb wahanol yn cael ei rhoi,
   c) neu wrthdroi'r penderfyniad.

i) Pe bai'r:
(a) Pwyllgor Moeseg a Safonau yn penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad;
(b) bod yr Aelod yn apelio i dribiwnlys apêl a ffurfir gan Banel Dyfarnu Cymru; a
(c) bod y tribiwnlys dan sylw yn cyfeirio'r mater yn ôl at y Pwyllgor Moeseg a Safonau gan argymell bod cosb wahanol yn cael ei rhoi,

bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cwrdd cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl i ystyried argymhelliad y tribiwnlys apêl, a bydd yn penderfynu a ddylai gadw at ei benderfyniad gwreiddiol, neu dderbyn yr argymhelliad.

j) Ar ôl penderfynu, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gofyn i'r Swyddog Safonau lunio cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad a'r rhesymau dros ei wneud, ac anfon copi o'r penderfyniad ysgrifenedig at yr Aelod, yr Achwynydd, yr Ombwdsmon a llywydd Panel Dyfarnu Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

**Cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Moeseg a Safonau**

k) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau ymhen 14 diwrnod ar ôl:

(a) diwedd y cyfnod pan ellir cyflwyno rhybudd o apêl dan y Rheoliadau, neu
(b) derbyn hysbysiad ynghylch casgliadau unrhyw apêl yn unol â'r Rheoliadau, neu
(c) penderfyniad pellach y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar ôl derbyn argymhelliad y tribiwnlys apêl dan y Rheoliadau,

pa un bynnag sy'n digwydd olaf, yn achosi cyhoeddi adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad, a bydd yn anfon copi at yr Ombwdsmon, y Swyddog Monitro a'r Aelod ac yn cymryd camau rhesymol i anfon copi at yr Achwynydd.

l) Ar ôl derbyn adroddiad y Pwyllgor Moeseg a Safonau, bydd y Swyddog Monitro:

(a) yn cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y Cyngor am 21 diwrnod ac yn sicrhau y gall aelodau o'r cyhoedd weld copïau yn rhad ac am ddim ar unrhyw adeg resymol yn swyddfeydd y Cyngor, lle bydd gan bobl yr hawl i wneud copïau o'r adroddiad neu dynnu detholiadau ohono pan fydd ar gael,

(b) yn darparu copi o'r adroddiad i unrhyw unigolyn ar gais, os yw'r unigolyn hwnnw'n talu'r swm y creda'r Cyngor ei bod yn rhesymol ei godi, ac

(c) yn cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus ymhen 7 diwrnod ar ôl derbyn adroddiad y Pwyllgor Moeseg a Safonau, drwy osod hysbyseb mewn papurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal a thrwy unrhyw ddulliau eraill sy'n ymddangos yn rhesymol i'r Swyddog Monitro, er mwyn hysbysu'r cyhoedd y bydd copïau o'r

adroddiad ar gael yn unol ag is-baragraffau (a) a (b) uchod, a bydd yn nodi'r dyddiad (heb fod yn fwy na 7 diwrnod ar ôl hysbysu'r cyhoedd am y tro cyntaf) pan fydd y cyfnod o 21 diwrnod yn cychwyn.

**Costau**

m) Nid yw'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn meddu ar unrhyw rymoedd i ddyfarnu costau na threuliau sy'n deillio o wrandawiadau neu unrhyw gyfarfodydd eraill.

Deddfwriaeth
Deddf Llywodraeth Leol 2000 - Rhan III:
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/22/part/III/chapter/III

Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau:

Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Gwasanaethau Democrataidd

3/5/22

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **25 Mai 2022** |
| **Teitl:** | **Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2022/23** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |

**Beth mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ei wneud?**
Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel a ganlyn:-

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr
- cynorthwyo'r Cynghorwyr i gadw at y Cod Ymddygiad
- cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad
- monitro gweithredu'r Cod Ymddygiad, a
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd roi gollyngiadau, sy'n caniatáu i Gynghorwyr sydd â buddiant mewn eitem benodol o fusnes y Cyngor barhau i gymryd rhan yn y busnes hwnnw.

Efallai y caiff adroddiadau ymchwilio y mae'r Ombwdsmon neu Swyddog Monitro'r Cyngor wedi'u paratoi ynghylch honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri eu cyfeirio at y Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y gellir penderfynu yn eu cylch.

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd y cyfrifoldebau uchod mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion.

Mae enghreifftiau o'r math o waith y mae Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion yn ei wneud yn cynnwys:

- cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu deunydd hyfforddi ar y Cod, gan gynnwys siart llif sy'n rhoi crynodeb o'r prif ddarpariaethau
- mynd i'r sesiynau hyfforddi ynghylch y Cod ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned a chymryd rhan ynddynt
- mynd i gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i arsylwi ar y trafodion
- cyflwyno gweithdrefnau sy'n caniatáu i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd Pwyllgor i gyflwyno cais am ollyngiad yn bersonol
- rhoi cyngor i Gynghorwyr ynglŷn â cheisiadau am ollyngiad

**Y Flaenraglen Waith**
Bydd Blaenraglen Waith yn eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu a diweddaru rhaglen waith y Pwyllgor.

Mae Blaenraglen Waith ddrafft ynghlwm i'w hystyried (Atodiad 1)

**Argymhellion:**

1) ystyried, adolygu a diweddaru'r Flaenraglen Waith ddrafft gyfredol. **(Atodiad 1)**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 11 Mai 2022 |
| **Acronymau:** | |

Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2022/23

| Dyddiad | Eitem |
|---|---|
| 11 Hydref | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Diweddariad ar Ymdrin â chwynion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Moeseg a Safonau & gweithdrefnau gwrandawiadau<br><br>Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2021/22<br><br>Cynllunio olyniaeth-aelod lleyg<br><br>Diweddariad recriwtio Cynghorwyr Cyngor Tref/Cymuned<br><br>Penderfyniadau Cod Ymddygiad gan yr Ombwdsmon<br><br>Y Swyddog Monitro i ddarparu adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion, a lefel eu difrifoldeb |
| 2 Tachwedd 2022 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant |
| 25 Ionawr 2023 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant |
| 19 Ebrill 2023 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru |

| | |
|---|---|
| | Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant |